Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

## Canllawiau Statudol

Hydref 2024

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 3 | Rhestr termau |
| 7 | 1. Y canllawiau statudol hyn |
| 8 | 2. Cyflwyniad |
| 16 | 3. Diben ac Egwyddorion yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| 19 | 4. Pryd i gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| 24 | 5. Proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| 30 | 6. Rhoi Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar waith |
| 40 | 7. Ymgysylltu â thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion yn ystod yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| 49 | 8. Cynnal yr Adolygiad |
| 58 | 9. Lledaenu Dysgu gan ddefnyddio'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| 63 | 10. Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data Personol |
| 69 | 11. Cymhwyso'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i Gam-drin Hanesyddol |
| 70 | 12. Y Berthynas â Phrosesau Ffurfiol Eraill |
| 73 | Atodiad Un: Tabl Partneriaethau |
| 75 | Atodiad Dau: Rhestr o Wyriadau oddi wrth y Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig |
| 77 | Atodiad Tri: Llwybrau Atgyfeirio Lladdiad Iechyd Meddwl – Gwybodaeth Ategol |
| 80 | Atodiad Pedwar: Partneriaid Lleol |
| 81 | Atodiad Pump: Deddfwriaeth Rhannu Data |


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50077, ISBN digidol 978-1-83625-601-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



**Dawn Bowden**

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

# Rhagair

**Pryd bynnag y bydd unrhyw fywyd yn cael ei golli neu'n cael ei effeithio'n arwyddocaol gan gamdriniaeth, mae angen i ni, fel gweision cyhoeddus, sicrhau na chollwyd unrhyw gyfle i amddiffyn y person hwnnw rhag niwed, er mwyn inni allu amddiffyn eraill yn well yn y dyfodol.**

Yng Nghymru, rydym wedi arfer â chydweithio gyda'r nod cyffredin o ofalu am ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Mae'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn enghraifft unigryw ac arloesol o'r ffordd y gallwn, drwy gydweithio a chydgynhyrchu ar draws ffiniau gwleidyddol, sefydliadol, a daearyddol, fynd i'r afael â phroblem gymhleth a chyflwyno ymateb ar y cyd. Mae bron i 200 o randdeiliaid wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio a gweithredu'r ADUS, ac mae pob un ohonynt wedi rhoi'r unigolion sydd wedi cael niwed, eu teuluoedd a'u cymunedau yn gyntaf. Mae'r trawsnewidiad hwn yn ategu ein hethos o weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus ac mae'n creu diwylliant cryfach o atebolrwydd ac o arweinyddiaeth wasgaredig, syn grymuso pobl i rannu dysgu.

Dechreuodd y gwaith arloesol hwn yn 2017, pan ofynnodd Carl Sargeant, y cyn Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant, pam nad oedd Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru. Comisiynodd adolygiad academaidd gan Brifysgol Caerdydd, ynghyd ag adolygiad ymarferwyr gan Lywodraeth Cymru o'r materion posibl sy'n codi o Adolygiadau Diogelu yng Nghymru.

Dangosodd tystiolaeth o'r ddau adolygiad yr angen am system wedi'i chydgysylltu'n well ar gyfer adolygiadau diogelu yng Nghymru, ac arweiniodd hynny at alwad am gynnal un adolygiad o ddigwyddiad, a hynny er mwyn symleiddio a chanolbwyntio ymdrechion, lleihau trawma i deuluoedd, osgoi dyblygu ymdrechion, arbed amser gwerthfawr a nodi gwersi cyn gynted â phosibl.

Fe wnaeth Carl Sargeant hefyd gomisiynu Prifysgol Caerdydd i ddatblygu storfa wybodaeth ar gyfer Cymru lle gellid storio adolygiadau a'u defnyddio i gyfosod canfyddiadau ac argymhellion er mwyn gwella'r ffordd o weithio yn y dyfodol. Canlyniad y gwaith hwn yw Storfa Ddiogelu Cymru sy'n galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i batrymau a gwybodaeth waelodol o adolygiadau drwy ddefnyddio dulliau cloddio testun a dysgu peiriannyddol.

Mae'r ADUS yn cyd-fynd hefyd â'n huchelgais ehangach o ran Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Yn unol â'r pum Ffordd o Weithio a nodir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*[1], gwyddom mai dim ond drwy hybu dull integredig a chydweithredol o ymdrin â pholisïau a chyflawni y gallwn gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Dull yw hwn sy'n chwalu ffiniau, yn gwahodd syniadau gan bobl o wahanol feysydd arbenigol ac yn annog gwaith partneriaeth ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan a chyda phartneriaid cymdeithasol ehangach.

Mae'r ADUS yn gosod fframwaith ar gyfer y ffordd y dylai Byrddau Diogelu weithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn yr ardal, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i ddiogelu pobl rhag niwed, gan rannu gwersi a sicrhau ein bod yn cydweithio i sicrhau llesiant pob person yng Nghymru.

Proses sy'n esblygu yw'r ADUS, ond mae'n amlwg ei fod yn cael ei weld yn batrwm i eraill ei ddilyn, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gan fod Cymru'n awyddus i barhau i ddatblygu ffordd o weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus, mae'r ADUS yn cael ei weld yn enghraifft o'r ffordd y gallwn greu newid drwy gydweithio er lles pawb.



1 Pum Ffordd o Weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015**

# Rhestr termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Adolygiad | Yn y canllawiau hyn, mae "Adolygiad" (neu ADUS) yn cyfeirio at yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. |
| Bwrdd Diogelu | Mae chwe bwrdd diogelu (a sefydlwyd gan *adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[2]" yng Nghymru. Cyfeirir at y rhain hefyd fel 'Byrddau Diogelu', 'Byrddau Diogelu Oedolion' neu 'Byrddau Diogelu Plant'. |
| Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol | Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (a sefydlwyd o dan *adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[3]), yn fwrdd cynghori sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar ddiogelu pobl yng Nghymru. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Byrddau Diogelu i sicrhau gwelliannau cyson i bolisïau ac ymarfer diogelu ledled Cymru[4]. |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (a sefydlwyd gan adran 29(1) o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*[5]), yn gwella cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ardaloedd pob un o awdurdodau lleol Cymru. Rhaid i bob bwrdd gynnal asesiad llesiant a chyhoeddi cynllun llesiant lleol blynyddol. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddant yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[6]. |
| Cam-drin, camdriniaeth | Ystyr "cam-drin" a "camdriniaeth"[7] yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), ac mae "cam-drin ariannol" yn cynnwys y canlynol:<br>• bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;<br>• bod person yn cael ei dwyllo;<br>• bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;<br>• bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio. |

2 Adran 134. **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
3 Adran 132. **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
4 **Gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg**
5 Adran 29(1). **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
6 **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | LLYW.CYMRU**
7 Adran 197(1). **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Cam-drin ar sail anrhydedd | Disgrifiad Gwasanaeth Erlyn y Goron o drais neu gamdriniaeth ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, yw "an incident or crime involving violence, threats of violence, intimidation coercion or abuse (including psychological, physical, sexual, financial or emotional abuse) which has or may have been committed to protect or defend the honour of an individual, family and/or community for alleged or perceived breaches of the family and/or community's code of behaviour."<br>Yn ogystal, gallai troseddau sy'n seiliedig ar anrhydedd gynnwys:<br>• Ymgais i lofruddio<br>• Lladdiad<br>• Peri erthyliad<br>• Annog neu gynorthwyo hunanladdiad<br>• Cynllwynio i lofruddio<br>• Cynllwynio i gyflawni amrywiaeth o ymosodiadau[8]. |
| Cam-drin domestig[9] | 1) Behaviour of a person ("A") towards another person ("B") is "domestic abuse" if—<br>a. A and B are each aged 16 or over and are personally connected to each other, and<br>b. the behaviour is abusive.<br>2) Behaviour is "abusive" if it consists of any of the following—<br>a. physical or sexual abuse;<br>b. violent or threatening behaviour;<br>c. controlling or coercive behaviour;<br>d. economic abuse (see subsection (4));<br>e. psychological, emotional, or other abuse;<br>3) and it does not matter whether the behaviour consists of a single incident or a course of conduct.<br>4) "Economic abuse" means any behaviour that has a substantial adverse effect on B's ability to—<br>a. acquire, use, or maintain money or other property, or<br>b. obtain goods or services. |

8 **So-Called Honour-Based Abuse and Forced Marriage: Guidance on Identifying and Flagging cases | Gwasanaeth Erlyn y Goron (cps.gov.uk)**

9 Adran 1. **Deddf Cam-drin Domestig 2021 (legislation.gov.uk)** – dyfyniad o ddeddfwriaeth Saesneg

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Cofrestr Amddiffyn Plant | Rhestr sy'n cael ei chreu a'i chynnal gan awdurdod lleol ac sy'n cynnwys enwau plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn ei ardal. Mae enw plentyn yn cael ei gynnwys ar y gofrestr yn dilyn penderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant fod y plentyn mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol ar ffurf cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol, cam-drin rhywiol, neu esgeulustod[10]. |
| Diogelu | Y diffiniad o ddiogelu at ddibenion y canllawiau hyn yw cadw pobl yn ddiogel, p'un a yw hynny'n deillio o gamdriniaeth fel y'i diffinnir yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[11] neu o fod yn ddioddefwr lladdiad neu hunanladdiad lle mae gorfodaeth wedi digwydd. |
| Esgeulustod[12] | Ystyr "esgeulustod" yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn). |
| Hunanladdiad | Hunanladdiad yw marwolaeth sy'n deillio o weithred fwriadol gan yr unigolyn ei hun[13]. |
| Oedolyn sy'n wynebu risg | "Oedolyn sy'n wynebu risg" yw oedolyn:<br>a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;<br>b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio; ac<br>c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.[14]<br>At ddibenion y Canllawiau Statudol hyn, pan defnyddir y term 'oedolyn sy'n wynebu risg', gall hyn hefyd gynnwys pobl y mae'r adolygiad yn ymwneud â hwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig. |
| Partneriaid Adolygu | Yr heddlu, awdurdodau lleol, a byrddau gofal integredig/byrddau iechyd lleol yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn bartneriaid adolygu perthnasol. Er enghraifft, yr awdurdodau ar gyfer yr ardal y mae testun yr adolygiad yn byw ynddi neu yr oedd yn arfer byw ynddi, neu'r ardal y mae'r cyflawnwr/cyflawnwyr honedig yn byw ynddi neu yr oedd(ent) yn arfer byw ynddi, cyn belled ag y bo'r ardal hon yn wahanol i'r ardal lle digwyddodd y farwolaeth neu lle mae'n debygol i'r farwolaeth ddigwydd, neu lle daethpwyd o hyd i'r corff neu'r rhan o'r corff i ddechrau[15]. |

10 **Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015**
11 Adran 197(1). **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
12 Adran 197(1). **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
13 **Siarad â fi 2 – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015-2020**
14 Adran 126(1). **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
15 **Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol – Canllaw Statudol – Mawrth 2023**

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Partneriaid Adolygu Perthnasol | Fel y nodir yn Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2002 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022: yr heddlu, yr awdurdod lleol, a'r bwrdd gofal integredig/bwrdd iechyd lleol yn yr ardal lle y digwyddodd y farwolaeth neu yr oedd yn debygol o fod wedi digwydd, neu lle canfuwyd y corff neu ran o'r corff i ddechrau (neu'r corff cyntaf/y rhan gyntaf o gorff yn achos marwolaethau lluosog)[16]. |
| Prif Unigolion | Fel y nodir yn **Adran 6** o'r Canllawiau hyn, gall enghreifftiau o Brif Unigolion gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd a chymunedol neu gyflogwyr y mae testun yr Adolygiad yn eu hadnabod. |
| Storfa Ddiogelu Cymru | Bydd yr holl Adroddiadau ADUS a gwblheir yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Gall defnyddwyr cofrestredig gael gafael ar wybodaeth o'r Storfa drwy ei system unigryw sy'n defnyddio methodolegau gwyddor gymdeithasol a chyfrifiadureg. Bydd canfyddiadau Adolygiadau gorffenedig yn cael eu defnyddio i lywio dysgu ac i wella arferion diogelu yn y dyfodol. |
| Testun yr Adolygiad | Mae hyn yn cyfeirio at yr unigolyn y mae ei amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae gan yr adolygydd ddisgresiwn i ddisgrifio testun yr Adolygiad yn y ffordd fwyaf priodol. Felly, gall ddewis cyfeirio at y testun mewn unrhyw ffordd y mae o'r farn ei bod yn briodol (er enghraifft, dioddefwr; goroeswr; cyflawnwr; cyflawnwr honedig; unigolyn; plentyn). |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | Ystyr 'VAWDASV' yw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br>Mae'n cynnwys Trais yn erbyn Menywod (a Merched), Cam-drin Domestig, Trais a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod, Stelcio, Masnachu a mathau eraill o drais[17]. |

16 Y Swyddfa Gartref – Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol – Canllaw Statudol – Mawrth 2023 (publishing.service.gov.uk)
17 VAWDASV – Cymunedau Mwy Diogel Cymru

# 1. Y canllawiau statudol hyn

**Dyroddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Maent yn gymwys o 1 Hydref 2024.**

**1.1** Mae'r canllawiau statudol hyn yn disodli Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2 (Adolygiadau Ymarfer Plant) a Chyfrol 3 (Adolygiadau Ymarfer Oedolion). Felly, bydd newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i Gyfrol 1 (Cyflwyniad a Throsolwg) i adlewyrchu hyn.

**1.2** Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) wedi'u nodi yn **Adran 4** o'r Canllawiau hyn.

**1.3** I grynhoi, bodlonir y meini prawf ar gyfer pryd y dylid cynnal ADUS pan fo'r seiliau cyfreithiol dros gynnal un neu ragor o fathau penodol o adolygiad yn gymwys. Mae'r gwahanol seiliau cyfreithiol hyn wedi'u nodi yn:

- *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[18];
- Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr *2004*[19];
- adran 24 o *Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 a Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022*[20].

**1.4** Dylid nodi y bydd y canllawiau statudol hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio ar ôl iddynt fod ar waith am 12 mis, er mwyn ystyried:

- unrhyw faterion sy'n codi o'r broses weithredu ac a oes angen mwy o eglurder;
- agweddau sy'n deillio o'r peilot Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol;
- y newidiadau y mae'r Swyddfa Gartref wrthi'n eu gwneud i'r Canllawiau Statudol diwygiedig ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig;
- a yw'r prosesu data yn dal i gyflawni ei ddiben arfaethedig ac yn dal i fod yn effeithiol, yn angenrheidiol ac yn gymesur.

18 Rheoliadau 4(3) a 4(4). **Rheoliadau Byrddau Diogelu 2015**
19 Adran 9(1). **Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004**
20 Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022 **Deddf yr Heddlu,Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd**

# 2. Cyflwyniad

**2.1** Mae datblygiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru yn sicrhau, pan fo digwyddiad cymwys yn sbarduno proses adolygu, fod pob agwedd yn cael ei hystyried ar draws yr holl asiantaethau perthnasol – datganoledig ac annatganoledig – yn hytrach nag mewn seilos sefydliadol. Bydd yn:

- adeiladu ar yr arferion da a ddaeth i'r amlwg o greu'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion (Ebrill 2016) ac Adolygiad Ymarfer Plant (Ionawr 2013) a ddisodlodd y canllawiau Adolygiad Achos Difrifol blaenorol. Mae prosesau'r Adolygiad Ymarfer Oedolion ar Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[21]. Nod y dull Adolygiad Ymarfer Oedolion a Phlant yw gwella dealltwriaeth o weithredoedd sefydliadau ac asiantaethau cyn y digwyddiad. Mae'n ystyried a allai gweithredu'n wahanol neu ddiffyg gweithredu fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i'r plentyn neu'r oedolyn. Y nod cyffredinol yw creu amgylchedd dysgu;
- gweithredu canfyddiadau adroddiad academaidd 2018[22] gan Brifysgol Caerdydd ac adroddiad ymarferydd gan Lywodraeth Cymru (2018)[23]. Amlygodd yr adroddiadau hyn yr angen i wella cydgysylltu, cydweithio, cyfathrebu a llywodraethiant wrth gynnal adolygiadau diogelu yng Nghymru. Fe wnaethant hefyd ddatgelu cymhlethdod y sefyllfa lle'r oedd cyrff datganoledig a chyrff annatganoledig yn cynnal adolygiadau ar wahân ac, mewn rhai achosion, heb yn wybod i Lywodraeth Cymru a heb ei throsolwg. Arweiniodd hyn at yr argymhelliad i gael proses adolygu sengl.

**2.2** Rhoddodd adroddiadau 2018 dystiolaeth bwerus i Weinidogion Cymru i gefnogi'r angen am newid mewn perthynas â phrosesau adolygu. O ganlyniad, datblygwyd y broses ADUS i gryfhau'r dirwedd adolygu yng Nghymru. Nod yr ADUS yw:

- creu un broses adolygu sy'n ymgorffori dull gweithredu amlasiantaethol pan fodlonir y meini prawf ar gyfer un neu ragor o'r adolygiadau canlynol:
  - Adolygiad Ymarfer Oedolion (boed yn gryno neu'n estynedig);
  - Adolygiad Ymarfer Plant (boed yn gryno neu'n estynedig);
  - Adolygiad Lladdiad Domestig;
  - Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl;
  - Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol[24];
- osgoi'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn cylch beichus a phoenus o roi gwybodaeth ac aros am ganlyniadau sawl adolygiad;
- sicrhau bod testun yr adolygiad a'u teuluoedd yn ganolog i'r broses;
- defnyddio'r wybodaeth a'r gwersi sy'n deillio o broses yr Adolygiad i greu newid cadarnhaol yn ymarferol er mwyn atal niwed yn y dyfodol;
- darparu cymorth cenedlaethol i'r Byrddau Diogelu sy'n cyflawni rôl gydgysylltu/ weithredol i oruchwylio'r broses o'r dechrau i'r diwedd drwy'r **Hwb Cydgysylltu**;

21 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 **Rheoliadau Byrddau Diogelu (2015)**
22 Robinson, A., Rees, A. and Dehaghani, R. (2018) '*Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews*'
23 James, L.A. (2018) '*Domestic Homicide Reviews in Wales*'
24 Mae cynllun peilot ar Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol yn cael ei gynnal (2023-24) gan ddefnyddio proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru, ac felly gallent newid

- sicrhau bod y rhwydwaith cymorth ar gyfer y Byrddau Diogelu a phartneriaid allweddol eraill ar waith a'i fod yn effeithiol;
- sicrhau cysylltiadau clir rhwng cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan barchu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn trefniadau;
- cadw adroddiadau terfynol yr adolygiadau mewn storfa wybodaeth ganolog (**Storfa Ddiogelu Cymru**) a hwyluso hyfforddiant ym mhob rhan o Gymru a dysgu lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru (gweler **Adran 8**) a dysgu cysylltiedig i gefnogi unrhyw newidiadau i arferion, prosesau a diwylliannau a fydd yn atal niwed yn y dyfodol.

**2.3** Datblygwyd yr ADUS hwn drwy ddefnyddio arferion da o nifer o brosesau a chanllawiau adolygu sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys:

- Adolygiad Ymarfer Plant.
- Adolygiad Ymarfer Oedolion.
- Adolygiad Lladdiad Domestig.

Mae'n cynnwys hefyd y canllawiau mwy diweddar am Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol a gwybodaeth am Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl.

**2.4** Mae'r ADUS wedi adlewyrchu'r rhain drwy sicrhau ei fod:

- yn cynnwys asiantaethau, staff, a theuluoedd mewn ymdrech ar y cyd i adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu ohono, er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd yn hytrach nag ar briodoli bai;
- yn meddu ar y potensial i ddatblygu arferion amlasiantaethol mwy cymwys a hyderus yn y tymor hir, lle mae gan staff well dealltwriaeth o'r sylfaen wybodaeth a safbwynt y gweithwyr proffesiynol gwahanol y maent yn cydweithio â hwy;
- yn cryfhau atebolrwydd rheolwyr o ran cymryd cyfrifoldeb am y cyd-destun a'r diwylliant y mae eu haelodau staff yn gweithio ynddynt a sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol;
- yn cydnabod effaith amgylchiadau trasig marwolaethau nad ydynt yn ddamweiniol neu niwed difrifol ar deuluoedd ac ar staff, ac yn rhoi cyfleoedd i adolygu digwyddiadau difrifol mewn diwylliant sy'n deg a chyfiawn;
- yn caniatáu defnydd mwy adeiladol a phriodol o adnoddau nag yn y system flaenorol ac yn gweithio yn ôl amserlenni byrrach;
- yn canolbwyntio ar ddysgu allweddol a nodwyd drwy'r Adolygiad, sy'n arwain at argymhellion a chamau gweithredu perthnasol i wella ymarfer yn y dyfodol.

**2.5** Mae'r ADUS wedi'i greu ar y cyd gan ymarferwyr ar lefelau gweithredol a strategol, ac mae wedi'i fireinio ymhellach drwy ymgysylltu'n ehangach. Mae'n darparu proses amlasiantaethol fwy effeithiol ac effeithlon a fydd yn fanwl, ond yn symlach o ran ei dull, drwy:

- gyflwyno un adolygiad yn lle sawl adolygiad mewn perthynas â digwyddiad(au);
- creu dull symlach, er yn ddwys, o gynnal adolygiadau, mewn ffordd sy'n lleihau trawma i deuluoedd;
- darparu ar gyfer defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon;
- llunio Adroddiad Adolygu sy'n canolbwyntio ar sut y gellir darparu gwasanaethau yn well, gyda Chynllun Gweithredu clir a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith i wella arferion ac i atal niwed yn y dyfodol;

- sicrhau bod testun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion (gweler yr eirfa i gael diffiniad) yr effeithir arnynt yn ganolog i broses yr Adolygiad ar bob cam;
- mynd ati fel "un gwasanaeth cyhoeddus" fel nad yw testun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion yn cael eu gadael i geisio gwneud synnwyr o waith proffesiynau neu asiantaethau gwahanol;
- galluogi rhannu gwybodaeth, argymhellion, a dysgu thematig i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.

**2.6** Yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol hyn mae set o adnoddau a deunyddiau hyfforddi a deunyddiau sy'n cefnogi trefniadau'r ADUS, a dylid eu defnyddio drwy gydol y broses. Bydd hyn yn sicrhau dull safonol a chyson ledled Cymru wrth roi Adolygiad ar waith. Gellir cyrchu'r deunyddiau hyn drwy'r Hwb Cydgysylltu neu drwy'r ddolen hon: **Pecyn Cymorth ADUS**.

**2.7** Dylid darllen y canllawiau statudol hyn ar y cyd â'r holl Atodiadau sy'n gysylltiedig â hwy. I ddangos pryd y dylid ystyried y cysylltiadau hyn, mae hyperddolenni wedi'i cynnwys yn y testun.

## Partneriaethau yng Nghymru

**2.8** Mae ADUS yn digwydd mewn cyd-destun cyflawni a chyd-destun deddfwriaethol unigryw. Mae'n hanfodol i sefydliadau datganoledig ac annatganoledig weithio mewn partneriaeth yng Nghymru, ar bob lefel, i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl. Bydd yn sicrhau hefyd bod gwersi perthnasol yn cael eu dysgu ar draws y strwythurau llywodraethu hyn a bod y newidiadau a'r addasiadau gofynnol yn cael eu gwneud lle bo'n briodol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.


**2.9** Mae'r dull hwn o weithio mewn partneriaeth wedi'i wreiddio'n dda, gyda pherthynas waith gref a llywodraethiant cadarn yn sail i waith arloesol ar y lefel strategol a gweithredol yng Nghymru. Mae sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Plismona yng Nghymru (Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu), y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Arolygiaethau a Rheoleiddwyr a'r trydydd sector yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

**2.10** Bydd gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ystod o drefniadau amlasiantaethol ar waith ar hyn o bryd. Bydd y partneriaethau presennol hyn yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*[25]), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[26]), Byrddau Diogelu ar gyfer Oedolion a Phlant (*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014), Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol neu Leol (*Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998*[27]), Byrddau Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (*Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*[28]), ochr yn ochr â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, Grwpiau Rheoli Troseddwyr Integredig, Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd amlasiantaethol a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau. Defnyddiwch **Atodiad Un** yn bwynt cyfeirio ar gyfer y strwythurau hyn.

25 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
26 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**
27 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 **Y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**
28 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 **Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod**

**2.11** Dylid defnyddio'r strwythurau llywodraethu presennol at ddibenion yr Adolygiad drwy gydol y broses o gymhwyso'r canllawiau hyn. Cynlluniwyd hyblygrwydd i ganiatáu i awdurdodau adeiladu ar seilwaith, cryfderau a galluoedd presennol yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* 2015. Mae'r partneriaethau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru mewn sefyllfa gref i gyflawni Adolygiadau a monitro cynnydd y Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig. Gweler Ffigur 1 isod sy'n dangos y rhwydwaith partneriaeth ehangach.

Ffigur 1



# Rhwydwaith Cymorth

**2.12** Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, datblygwyd rhwydwaith cymorth ar gyfer proses yr Adolygiad (gweler Ffigur 2), i gynorthwyo'r broses gyflawni ac i rannu dysgu. Mae amlinelliad o'r rhwydwaith cymorth i'w weld isod.

## Bwrdd Gweinidogol ADUS Cymru

**2.13** Y Bwrdd Gweinidogol yw'r corff trosfwaol sy'n dwyn ynghyd yr agweddau datganoledig ac annatganoledig ar ddiogelu o dan un model. Bydd yn goruchwylio proses yr Adolygiad o safbwynt gwleidyddol a strategol, gan sicrhau bod materion cenedlaethol yn cael eu hystyried a bod ymateb ar lefel Cymru yn cael ei ddarparu pan fo angen.

**2.14** Bydd y Bwrdd Gweinidogol yn llwyfan hefyd ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion rhanbarthol a nodir sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol neu ar lefel y DU. Mae'r Cylch Gorchwyl i'w weld yma: **www.llyw.cymru/bwrdd-gweinidogol-adolygiad-diogelu-unedig-sengl/cylch-gorchwyl**

**2.15** Bydd y Bwrdd Gweinidogol yn cael adroddiadau gan y Grŵp Strategaeth a fydd yn ymdrin â'r materion canlynol:

- materion allweddol sy'n deillio o Adolygiadau, a newidiadau posibl y gallai fod rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud o ran cyfrifoldebau statudol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth, canllawiau, polisïau neu ddyrannu adnoddau oherwydd cynlluniau gweithredu neu argymhellion;
- diweddariadau'r Swyddfa Gartref;
- arferion da sy'n datblygu a sut mae'r dysgu'n cael ei ledaenu ledled Cymru;
- materion o Ranbarthau yng Nghymru sy'n gofyn am ymateb ar lefel Cymru/y DU.

## Grŵp Strategaeth ADUS

**2.16** Diben y Grŵp Strategaeth yw darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad i'r Bwrdd Gweinidogol. Mae aelodaeth y Grŵp Strategaeth yn cynnwys partneriaid strategol allweddol o fewn y maes diogelu i sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd priodol ar gael wrth wneud penderfyniadau ac argymhellion allweddol. Mae'r Cylch Gorchwyl i'w weld yma: **www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-cylch-gorchwyl-grwp-strategaeth**

**2.17** Bydd y Grŵp Strategaeth yn:

- cynghori ac yn hysbysu Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder), Comisiynwyr a chyrff cynrychioliadol mewn llywodraeth leol, yr heddlu, iechyd, cyfiawnder troseddol a'r trydydd sector ynghylch themâu a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig ag argymhellion sy'n deillio o Adolygiadau yng Nghymru;
- nodi, dathlu a hyrwyddo arferion da ac annog mabwysiadu, ehangu a phrif ffrydio mentrau y profwyd eu bod yn 'gweithio';
- adolygu materion strategol sy'n codi o Adolygiadau na ellir eu datrys ar lefel leol neu ranbarthol a darparu atebion posibl neu gytuno i uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Gweinidogol.

## Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd

**2.18** Mae'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd yn darparu fforwm ar gyfer llais dioddefwyr a'u teuluoedd ledled Cymru, er mwyn llywio'r broses o gyflawni'r Adolygiad. Drwy weithio'n agos gyda'r grwpiau a'r byrddau eraill sy'n rhan o'r Rhwydwaith Cymorth, bydd yn sicrhau bod llais y dioddefwr a'r teulu yn parhau i fod yn ganolog i'r Adolygiad. Mae'r Cylch Gorchwyl i'w weld yma: **www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-cylch-gorchwyl-grwp-cyfeirio-dioddefwyr-theuluoedd**

**2.19** Bydd aelodau'r grŵp yn darparu cynrychiolaeth ar ran dioddefwyr a theuluoedd yng Nghymru mewn ffordd amrywiol a chynhwysol. Byddant hefyd yn cefnogi eu rhanddeiliaid i gyfrannu at waith penodol a pherthnasol y grŵp hwn mewn modd amserol ac ystyrlon.

**2.20** Bydd y Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd yn gweithio i:

- adolygu adroddiadau thematig (a gynhyrchir gan ddefnyddio Storfa Ddiogelu Cymru) mewn perthynas ag ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd a materion allweddol sy'n dod i'r amlwg;
- darparu canllawiau ar faterion dioddefwyr a theuluoedd sy'n gysylltiedig â'r ADUS, pan fyddant yn cael eu huwchgyfeirio;
- gweithio gyda'r Hwb Cydgysylltu, Byrddau Diogelu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i adolygu argymhellion a chamau gweithredu sy'n ymwneud â dioddefwyr a theuluoedd;
- llywio'r broses o greu cynnyrch ADUS y gellir eu cynnwys yn y pecyn cymorth;
- datblygu a llywio canllawiau arferion da yn y dyfodol ar ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd yn y broses ADUS;
- ystyried adborth a gafwyd o ffurflenni myfyrio ADUS a darparu arweiniad arno mewn perthynas ag ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd;
- ymateb i bolisïau, canllawiau statudol a datblygiadau deddfwriaethol perthnasol sy'n ymwneud ag ADUS.

**2.21** Yn ogystal bydd aelodau o'r grŵp yn cael eu dynodi i gynrychioli dioddefwyr a theuluoedd ar grwpiau strwythur llywodraethiant ehangach ADUS, gan gynnwys y Bwrdd Gweinidogol a'r Grŵp Strategaeth.

## Byrddau Diogelu

**2.22** Mae Byrddau Diogelu wedi bod yn gyfrifol am gynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant. Byddant yn awr yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer cychwyn yr holl Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (a fydd yn cymryd lle Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion). Byddant yn ganolog i'r broses a bydd ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol, gan gynnwys:

- rheoli'r broses yn eu hardal yn gyffredinol;
- gweithio mewn partneriaeth effeithiol â'r asiantaethau priodol sy'n rhan o'r broses adolygu, gan gysylltu â'r Hwb Cydgysylltu, a'r defnydd o Storfa Ddiogelu Cymru;
- gweithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol (o ran Lladdiadau Domestig) a sicrhau bod cynrychiolwyr allweddol o'r Bartneriaeth yn rhan o'r broses ADUS;
- gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yr ardal pan fo lladdiad wedi digwydd, er enghraifft pan fo canfyddiadau'r Adolygiad yn ymwneud â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Hwb Cydgysylltu ADUS

**2.23** Rôl yr Hwb Cydgysylltu yw cefnogi'r broses adolygu a chynorthwyo i nodi a rhannu negeseuon, themâu a materion allweddol, drwy gydweithio â Byrddau Diogelu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phartneriaid allweddol eraill. Bydd yr Hwb yn coladu canlyniadau'r dysgu sylfaenol a'r dysgu canol tymor, gan sicrhau eu bod yn cael eu rhannu ledled Cymru, ac â chyrff perthnasol yn y DU lle bo hynny'n briodol.

**2.24** Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn helpu i hwyluso, ar y cyd â'r Byrddau Diogelu, ddigwyddiadau lledaenu thematig bob dwy flynedd i rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gyflawni a'i weithredu i ddiogelu unigolion a chymunedau ledled y wlad.

**2.25** Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn:

- sicrhau bod y crwner perthnasol yn cael ei hysbysu, os oes angen, pan fydd Adolygiad yn cael ei gynnal;
- monitro'r gwaith o weithredu Cynlluniau Gweithredu ac argymhellion, ar y cyd â'r Byrddau Diogelu;
- cydgysylltu gofynion hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r broses ADUS;
- gweinyddu'r mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru.

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository


## Storfa Ddiogelu Cymru

**2.26** Bydd yr holl Adolygiadau a gwblheir yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu defnyddio i helpu i lywio dysgu ar lefel Cymru gyfan drwy greu adroddiadau thematig a thrwy nodi arferion da. Gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu i lywio astudiaethau ymchwil eraill a allai gael eu cynnal (gweler **Adran 9**).

Ffigur 2

**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**
**Single Unified Safeguarding Review**

## Rhwydwaith Cymorth ADUS



# 3. Diben ac Egwyddorion yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

## Diben

**3.1** Nod yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yw datblygu un mecanwaith cymesur ar gyfer cynnal adolygiad yn dilyn y digwyddiadau mwyaf difrifol yng Nghymru. Pan fo un neu ragor o'r meini prawf adolygu yn cael eu bodloni (gweler **Adran 4**), bydd y broses ADUS yn osgoi'r angen i gynnal cyfres o adolygiadau lluosog (e.e. Adolygiad Lladdiad Domestig, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol) ar gyfer yr un digwyddiad unigol. Mae adolygiadau lluosog wedi arwain at ddyblygu ymdrechion ac adnoddau yn sylweddol, ac maent wedi golygu hefyd bod yr unigolyn a/neu ei deulu a'r Prif Unigolion yn gorfod mynd drwy nifer o adolygiadau, gan achosi oedi o ran nodi unrhyw ddysgu a'i roi ar waith.

**3.2** Yn ystod ADUS mae ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn mynd ati i archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau yn unigol ac ar y cyd, gyda phlentyn a/neu oedolyn sy'n wynebu risg (gan gynnwys cam-drin domestig) neu ddioddefwr lladdiad, a'u teulu, a bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod eu lleisiau'n ganolog i'r Adolygiad. Diben Adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn ymarfer rhwng asiantaethau yn y dyfodol, er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Nid yw'n golygu priodoli bai, ond yn hytrach, sicrhau bod gwersi'n cael eu nodi a'u gweithredu drwy Gynllun Gweithredu clir (gweler **Adran 8** i gael rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Gweithredu). Dim ond drwy drafodaethau agored a gonest y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Nid yw cynnal Adolygiad yn golygu, o reidrwydd, y bu camymddwyn.

**3.3** Nid yw ADUS yn ymchwiliad i sut y bu farw'r unigolyn sy'n destun yr Adolygiad neu sut cafodd ei anafu nac i bwy sy'n euog; mater i'w benderfynu gan y crwneriaid, yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd troseddol, fel y bo'n briodol, fydd hynny. Nid yw ADUS yn rhan benodol o unrhyw ymchwiliad neu broses ddisgyblu. Pan fo gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg yn ystod Adolygiad sy'n dangos y dylid cychwyn camau disgyblu, dylid cynnal gweithdrefn ddisgyblu'r asiantaeth berthnasol ar wahân i broses yr Adolygiad. Fel arall, gellir cynnal rhai Adolygiadau yr un pryd â chamau disgyblu (ond ar wahân iddynt).

## Egwyddorion

**3.4** Mae'r ADUS yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion i arwain Byrddau Diogelu, eu hasiantaethau partner a phartneriaid cymunedol eraill yn eu cyfrifoldebau i ddysgu, adolygu, a gwella polisïau ac ymarfer diogelu. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio'r broses o ddylunio a datblygu'r ADUS ar gyfer adolygiadau diogelu amlasiantaethol. Yr egwyddorion yw:

a) bod gweithwyr proffesiynol ym mhob gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd o fewn ardal y Bwrdd Diogelu yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, fel y gallant fynd ati'n hyderus a chymwys i ymgymryd â'r gwaith cymhleth ac anodd o amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg;

b) bod ymarfer yn cael ei wella a'i lywio ar sail dysgu er mwyn gweithio tuag at atal niwed i blentyn a/neu oedolyn sy'n wynebu risg;

c) bod diwylliannau sefydliadol a'r prosesau sy'n sail iddynt yn deg ac yn gyfiawn, a'u bod yn helpu i sicrhau amgylcheddau rheoli a gweithio cefnogol i weithwyr proffesiynol;

d) bod diwylliant o dryloywder yn cael ei greu sy'n gwneud y canlynol:

- darparu cyfleoedd rheolaidd i ymdrin â chydweithio ac ymarfer amlasiantaethol, a dysgu, myfyrio a datblygu amlasiantaethol;
- cynnwys prosesau ar gyfer dysgu ac adolygu, sy'n hyblyg a chymesur ac sy'n agored i gael eu herio gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd;
- ymgysylltu â phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd mewn achosion unigol ac ystyried eu dymuniadau a'u safbwyntiau;
- darparu atebolrwydd a sicrwydd i blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg, a'u teuluoedd a'r cyhoedd yn ehangach;
- nodi'n brydlon yr angen am newidiadau systemig neu broffesiynol a sicrhau bod camau amserol yn cael eu cymryd;
- rhannu a lledaenu gwybodaeth neu wersi newydd a ddysgwyd ar sail amlasiantaethol yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol;
- mae'r gwaith o ddysgu, adolygu, a gwella polisi ac ymarfer diogelu amlasiantaethol lleol yn cael ei archwilio a'i werthuso am ei effeithiolrwydd.

## Canlyniadau

**3.5** Y canlyniad cyffredinol yw creu dull rhagweithiol o fwrw ymlaen ag atebion, a diwylliant cadarnhaol o ddysgu ar y cyd, sy'n ofyniad hanfodol ar gyfer cyflawni a darparu gwasanaeth amlasiantaethol yn effeithiol ac yn well. Felly, mae ADUS sy'n osgoi'r angen am adolygiadau lluosog, mewn perthynas ag un digwyddiad, yn creu dull sy'n symlach ond eto'n ddwys. Bydd hyn yn lleihau trawma pellach i'r unigolion sy'n destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion a'r ymarferwyr sy'n rhan o'r Adolygiad. Bydd yn dileu unrhyw ddyblygu ymdrech a allai ddigwydd, a bydd yn defnyddio adnoddau ac yn darparu dysgu mewn modd amserol a chymesur.

**3.6** Bydd canlyniadau'r broses ADUS yn cael effaith yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol ar ymarfer ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- darparu un broses ar gyfer naill ai adolygiad sengl neu adolygiad lluosog yng Nghymru, gan roi eglurder i'r asiantaethau partner sydd ynghlwm ag ef;
- lleihau trawma i destun yr Adolygiad a/neu ei deulu a Phrif Unigolion eraill drwy gynnal un adolygiad sengl yn hytrach nag adolygiadau lluosog;
- monitro'r Cynlluniau Gweithredu yn barhaus a lledaenu dysgu;

- system gymorth well a fydd yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru drosolwg ar yr argymhellion ar gyfer gwasanaethau datganoledig ac annatganoledig yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni pan fo angen uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Gweinidogol;
- Storfa Ddiogelu Cymru, a fydd yn galluogi ymarferwyr i dynnu ynghyd yr hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Sengl i greu adroddiadau thematig. Bydd yr hyn a ddysgir o'r adroddiadau thematig yn cael ei ledaenu'n genedlaethol gan yr Hwb Cydgysylltu, ynghyd ag unrhyw argymhellion a chamau y bydd angen eu rhoi ar waith o ganlyniad;
- ystyried yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol;
- sicrhau ymgysylltu ac ymwneud â Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, y Comisiynwyr perthnasol, y Crwner a'r Arolygiaethau fel y bo'n briodol.

**3.7** Bydd esblygu arferion yn y modd hwn yn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben mewn cymdeithas sy'n newid drwy'r amser. Bydd hyn yn helpu i atal digwyddiadau tebyg ac, yn y pen draw, yn lleihau niwed yn y dyfodol.

# 4. Pryd i gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**4.1** Mae'r meini prawf ar gyfer pryd y dylid cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn gymwys pan fo'r seiliau cyfreithiol dros gynnal **un neu ragor** o fathau penodol o adolygiad yn cael eu bodloni. Mae'r gwahanol seiliau cyfreithiol hynny wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[29], *Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*[30], adran 24 o *Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022*, a *Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022*[31].

## Meini prawf ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**4.2** Un o'r meini prawf allweddol ar gyfer ADUS yw dysgu amlasiantaethol, sy'n gymesur o ran ei ddull ac sy'n nodi argymhellion clir a fydd yn gwella darpariaeth gwasanaethau a chamau ymyrraeth gynnar ac atal gan y gwahanol bartneriaid/asiantaethau dan sylw yn y dyfodol. Mae hon yn elfen allweddol wrth benderfynu a oes angen ADUS.

**4.3** Rhaid i Fwrdd Diogelu gynnal ADUS pan fo'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

**4.4 Meini prawf ar gyfer adolygiad cryno: mae cam-drin neu esgeuluso plentyn** yn hysbys neu'n cael ei amau o fewn ardal y Bwrdd Diogelu, ac –

(a) mae'r plentyn:

(i) wedi marw; neu

(ii) wedi cael anaf a allai fygwth ei fywyd; neu

(iii) wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ei ddatblygiad; ac

(b) nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (a)(i) neu baragraff (a)(ii) uchod; neu

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner[32] perthnasol yn nodi bod plentyn wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

---

29 Rheoliadau 4(3) a 4(4). **Rheoliadau Byrddau Diogelu 2015**
30 Adran 9(1). Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004
31 Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022 **Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd**
32 Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn Adran 28 o **Ddeddf Plant 2004** neu gorff a grybwyllir yn Adran 175 o **Ddeddf Addysg 2002**

**4.5 Meini prawf ar gyfer adolygiad estynedig: mae cam-drin neu esgeuluso plentyn** yn hysbys neu'n cael ei amau o fewn ardal y Bwrdd Diogelu ac –

(a) mae'r plentyn:

(i) wedi marw; neu

(ii) wedi cael anaf a allai fygwth ei fywyd; neu

(iii) wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ei ddatblygiad; ac –

(b) roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys person ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (a)(i) neu baragraff (a)(ii); neu

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

**4.6 Meini prawf ar gyfer adolygiad cryno: mae cam-drin neu esgeuluso oedolyn** yn hysbys neu'n cael ei amau o fewn ardal y Bwrdd Diogelu ac nid yw'r oedolyn hwnnw wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol ac mae'r oedolyn:

(i) wedi marw; neu

(ii) wedi cael anaf a allai fygwth ei fywyd; neu

(iii) wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd.

**4.7 Meini prawf ar gyfer adolygiad estynedig: mae cam-drin neu esgeuluso oedolyn** yn hysbys neu'n cael ei amau o fewn ardal y Bwrdd Diogelu ac mae'r oedolyn, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol ac mae'r oedolyn:

(i) wedi marw; neu

(ii) wedi cael anaf a allai fygwth ei fywyd; neu

(iii) wedi cael amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd.

**4.8** Pan fo'r ADUS yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion neu Adolygiadau Ymarfer Plant fel y'u nodir yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[33], rhaid i Fyrddau Diogelu gynnal yr Adolygiad hwnnw fel ADUS ac yn unol â'r Canllawiau hyn a phenderfynu a oes angen adolygiad cryno neu adolygiad estynedig. Rhaid ystyried hefyd nifer yr Adolygwyr sy'n cael eu comisiynu.

**4.9** Dylai Bwrdd Diogelu gynnal ADUS pan fodlonir y meini prawf canlynol:

**4.10 Meini prawf ar gyfer Lladdiad Domestig:** pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi digwydd, neu'n ymddangos ei bod wedi digwydd, o ganlyniad i drais, camdriniaeth, neu esgeulustod gan:

(a) person y maent yn perthyn iddo neu berson yr oeddent neu y buont mewn perthynas agos ag ef, neu

(b) aelod o'r un aelwyd. Mae hyn yn cynnwys achosion pan fo dioddefwr wedi diweddu ei fywyd ei hun (hunanladdiad) ac mae'r amgylchiadau'n peri pryder, er enghraifft roedd yn dioddef cam-drin domestig.

---

33 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

**(Gweler adran 9(1) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 i weld y maen prawf hwn.)**

**4.11** Mae'r Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan adran 9(3) o *Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 ("Deddf 2004")*[34], yn nodi bod rhaid i berson sy'n sefydlu neu'n cymryd rhan mewn Adolygiad Lladdiad Domestig (p'un ai a yw'n cael ei gynnal yn dilyn cyfarwyddyd o dan is-adran 9(2) o Ddeddf 2004 ai peidio) roi sylw i ganllawiau'r Swyddfa Gartref. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bersonau sy'n ymwneud ag Adolygiad Lladdiad Domestig ystyried canllawiau'r Swyddfa Gartref ac, os ydynt yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, bod ganddynt resymau clir dros wneud hynny. Mae rhai camau yn y broses ADUS o reidrwydd yn gofyn am wyro oddi wrth ganllawiau'r Swyddfa Gartref, er mwyn cryfhau proses yr Adolygiad (er enghraifft Byrddau Diogelu a ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr Adolygiad yn hytrach na Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol). O fewn y canllawiau statudol hyn, lle gwyrir yn y fath fodd, rhoddir rhesymau clir dros wneud hynny. Mae pob gwyriad oddi wrth ganllawiau'r Swyddfa Gartref wedi'i wneud ar sail cydgysylltu a chytundeb â thîm Adolygiadau Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref; gweler **Atodiad Dau** sy'n tynnu sylw at y gwyriadau a'r rhesymau drostynt. Dylid dilyn proses ADUS yng Nghymru pan fo lladdiad domestig wedi digwydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad.

**4.12 Meini prawf ar gyfer Lladdiad Iechyd Meddwl:** pan fo lladdiad wedi'i gyflawni, a bod y cyflawnwr honedig wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau Iechyd Meddwl sylfaenol, eilaidd, neu drydyddol yn y flwyddyn ddiwethaf.

**4.13** Yn y meini prawf hyn, gall 'cysylltiad' gynnwys asesiad neu ymyrraeth. Rhaid rhoi ystyriaeth benodol hefyd i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010[35] sy'n diffinio'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl i gleifion sydd mewn sefyllfaoedd penodol.

**4.14** Mae'n ofynnol i gyrff cyfrifol GIG Cymru roi gwybod am rai digwyddiadau penodol i Lywodraeth Cymru drwy Fframwaith Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol GIG Cymru. Dylid nodi y byddai angen atgyfeiriad o'r fath ar gyfer Lladdiad Iechyd Meddwl.

**4.15** Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol wedi'i chynnwys yn **Atodiad Tri: Llwybrau Atgyfeirio Lladdiad Iechyd Meddwl a gwybodaeth ategol**.

**4.16** Os penderfynir y bydd Lladdiad Iechyd Meddwl yn destun Adolygiad, bydd yr ADUS yn cael ei ystyried yn broses briodol at ddibenion y Polisi Cenedlaethol ar Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion[36]. Dylid adrodd canfyddiadau'r ADUS yn ôl i Uned Gyflawni GIG Cymru drwy ffurflen "Dysgu o Ddigwyddiadau" sydd ar gael ar wefan yr Uned Gyflawni[37]. Dylai'r Hwb Cydgysylltu hysbysu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) pan fydd Adolygiad wedi dechrau, a phan fydd wedi'i gwblhau a'i roi yn Storfa Ddiogelu Cymru.

**4.17** Os na fodlonir y meini prawf uchod ar gyfer ADUS, gall y Bwrdd Iechyd perthnasol neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd berthnasol ystyried cynnal adolygiad priodol yn unol â'u prosesau mewnol.

34 Adran 9(3) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr **Y Ddeddf Cam-drin Domestig, Troseddu a Dioddefwyr**
35 **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**
36 Digwyddiadau sy'n ymwneud â Diogelwch Cleifion **GIG Cymru**
37 Uned Gyflawni GIG Cymru **Yr Uned Gyflawni**

**4.18 Meini prawf ar gyfer Lladdiad ag Arf Ymosodol:**

- mae marwolaeth wedi digwydd neu mae'n debygol o fod wedi digwydd yn ardal Heddlu De Cymru, sy'n un o'r tair ardal beilot ar gyfer Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol (ar ôl i'r peilot gael ei gwblhau, mae'n bosibl y caiff ei estyn i Gymru gyfan);
- roedd y person yn 18 oed neu'n hŷn; ac
- roedd y farwolaeth, neu'r digwyddiadau cysylltiedig, yn cynnwys defnyddio arf ymosodol;
- Partneriaid adolygu yw'r Partneriaid Perthnasol ar gyfer marwolaeth y person hwnnw, yn ardal Heddlu De Cymru (Gweler **Adran 6** paragraff 6.4 ar gyfer Partneriaid Perthnasol).

**4.19** Mae'r amodau ychwanegol canlynol ar gyfer cynnal Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol wedi'u pennu yn rheoliad 4(2) o *Reoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022*[38]. Yr amodau ychwanegol i'w bodloni yw:

(a) mae un o'r canlynol wedi'i ganfod –

- corff y person sydd wedi marw; neu
- ran o gorff y person sydd wedi marw.

(b) cofnodwyd pwy yw un o'r canlynol –

- y person sydd wedi marw; neu
- o leiaf un person a achosodd, neu sy'n debygol o fod wedi achosi, marwolaeth y person hwnnw.

(c) mae gan un neu ragor o bartneriaid yr adolygiad wybodaeth am, neu byddai disgwyl yn rhesymol iddynt fod â gwybodaeth am –

- y person sydd wedi marw neu
- o leiaf un person a achosodd, neu sy'n debygol o fod wedi achosi, marwolaeth y person hwnnw.

(Mae "gwybodaeth" yn golygu gwybodaeth bod risg y gallai'r person gyflawni, neu y gallai ddioddef, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol. Mae hyn:

- yn cynnwys gwybodaeth am y person o ran addysg, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, tai, hanes meddygol ac iechyd meddwl;
- yn cynnwys gwybodaeth am y person o ran diogelu;
- nid yw'n cynnwys gwybodaeth nad oedd yn hysbys i bartner adolygu tan ar ôl y cynharaf o naill ai:

1. amser marwolaeth cofnodedig y person a fu farw, neu
2. marwolaeth gofnodedig y person a fu farw.)

(d) nid yw'r farwolaeth yn fater o farwolaeth neu anaf difrifol o fewn ystyr adran 12(2A) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (h.y. wedi'i hachosi gan swyddog heddlu yn ystod ei ddyletswyddau swyddogol).

**4.20** Yn unol ag adran 26(1)-(4) o *Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022*, nid oes angen cynnal Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol os oes ADUS (sy'n bodloni'r amodau i gynnal adolygiad o unrhyw un o'r meini prawf yn 3.4-3.16 uchod) i'w gynnal gan Fwrdd Diogelu.

38 Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 **(Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022**

**4.21** Diffinnir Arf Ymosodol, at ddibenion Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol, yn adran 1 o *Ddeddf Atal Troseddu 1953*[39] fel:

> "any article made or adapted for use for causing injury to the person or intended by the person having it with him for such use by him or by some other person."

## Meini Prawf Adolygu Posibl Eraill

**4.22** Gan mai'r ADUS yw'r brif broses adolygu yng Nghymru, gallai mathau newydd o adolygiadau sy'n dod i'r amlwg gael eu cynnwys yn y broses ADUS pan fernir bod hynny'n briodol. Rhagwelir y byddai adolygiadau o'r fath yn cael eu trafod gyda'r asiantaethau/cyrff llywodraethu perthnasol, yn cael eu hystyried gan y Grŵp Strategaeth ac yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Gweinidogol.

**4.23** Gellir defnyddio Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol os na fodlonir y meini prawf ar gyfer ADUS. Gall y Bwrdd Diogelu gyfeirio'r achos at y Fforwm, er mwyn iddo allu ymgymryd â dull mwy cymesur na'r hyn sy'n ofynnol gan ADUS. Mae'r Fforymau yn gyfrwng ar gyfer cynhyrchu dysgu sefydliadol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion yn ddiogel. Maent yn defnyddio gwybodaeth am achosion, canfyddiadau o archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau amddiffyn i ddatblygu a lledaenu dysgu i wella gwybodaeth ac ymarfer lleol, ac i lywio cynlluniau archwilio a hyfforddi'r Bwrdd yn y dyfodol (gweler **Adran 9** i gael rhagor o fanylion am Fforymau).

39 Adran 1. **Deddf Atal Troseddu 1953**

# 5. Proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl


**5.1** Mae Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn cynnwys nifer o weithgareddau rhyng-gysylltiedig, sydd wedi'u crynhoi isod. Mae pob gweithgaredd yn cyfrannu at drylwyredd y broses ac yn gwneud y mwyaf o'r hyn a ddysgwyd o'r achos sy'n cael ei adolygu. Dangosir y broses gyffredinol yn y siartiau llif isod (**Ffigurau 3, 4 a 5**).

**5.2** Mae crynodeb o'r broses i'w weld isod. Gellir defnyddio'r siartiau llif ochr yn ochr â'r testun yn yr adran hon, yn gymorth gweledol o ran y camau sy'n ofynnol wrth gynnal ADUS. Ceir rhagor o fanylion am y broses yn **Adran 6**.

Ffigur 3

**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**
**Single Unified Safeguarding Review**


## Trosolwg o broses ADUS



Ffigur 4

**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**
**Single Unified Safeguarding Review**


## Y Broses ADUS



Ffigur 5

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

## Penderfyniad i beidio â chynnal ADUS



**5.3** Gwneir atgyfeiriad cychwynnol i'r Bwrdd Diogelu perthnasol (a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol os oes Lladdiad Domestig neu Laddiad ag Arf Ymosodol dan sylw). Dylai'r atgyfeiriad gael ei reoli gan y Bwrdd Diogelu. Dylai Grŵp Adolygu Achosion y Bwrdd Diogelu gynnwys unigolion â'r arbenigedd priodol a all gyfrannu'n effeithiol at yr Adolygiad.

**5.4** Dylai'r Grŵp Adolygu Achosion benderfynu a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei gadarnhau gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu (a Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol os oes Lladdiad Domestig neu Laddiad ag Arf Ymosodol dan sylw). Dylai Cadeirydd y Bwrdd Diogelu roi gwybod i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref os oes angen, am y penderfyniad (gweler **Adran 6** i gael rhagor o fanylion).

**5.5** Os bwriedir cynnal ADUS, dylai gael ei reoli gan y Grŵp Adolygu Achosion a dylid penodi Adolygydd/Adolygwyr i gydweithio â'r Panel Adolygu (gweler y disgrifiadau rôl yn **Adran 6**), sy'n cynnwys asiantaethau a phartneriaid perthnasol sydd wedi bod yn rhan o'r achos. Mae'r Adolygiad yn hwyluso:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â'r thestun yr Adolygiad a/neu aelodau'r teulu a'r Prif Unigolion fel y dymunant ac fel y bo'n briodol, fel y gellir cynnwys eu safbwyntiau yn y broses adolygu;
- (pan fernir bod hynny'n briodol) ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyflawnwyr/cyflawnwyr honedig, fel y gellir cynnwys eu safbwyntiau yn y broses adolygu;
- cynnwys ymarferwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda'r plentyn a/neu'r oedolyn sy'n wynebu risg a'i deulu;
- cyfle i'r Adolygydd/Adolygwyr ddefnyddio Storfa Ddiogelu Cymru i elwa ar ddysgu sylfaenol a chanol tymor sy'n gysylltiedig ag adolygiadau hanesyddol;
- Digwyddiad Dysgu wedi'i gynllunio a'i hwyluso sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr (gweler **Adran 8** i gael rhagor o wybodaeth) a gynhelir gan yr Adolygydd/Adolygwyr, i archwilio ymarfer o fewn llinell amser gyfyngedig, gan ddefnyddio dull systemau.

**5.6** Dylai'r Panel Adolygu benodi Cadeirydd a chynnal cyfarfodydd i gytuno ar Linell Amser Asiantaethau (gweler **Adran 8**). Dylai'r Adolygydd/Adolygwyr ac, o bosibl, Cadeirydd y Panel Adolygu gyfarfod â'r thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion. Dylid cysylltu â hwy ar ddechrau'r broses adolygu i gael gwybod faint o ran y maent yn dymuno'i chymryd yn y broses ac i benderfynu sut y gellir eu cynnwys yn effeithiol (gweler **Adran 7** i gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a Phrif Unigolion eraill).

**5.7** Dylai'r Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr hwyluso'r Digwyddiad Dysgu, a fydd yn gyfle i'r gwasanaethau a'r asiantaethau a ddaeth i gysylltiad â'r thestun yr Adolygiad ddod ynghyd a dysgu oddi wrth ei gilydd.

**5.8** Yna dylai'r Adolygydd/Adolygwyr lunio Adroddiad ADUS drafft a Chynllun Gweithredu amlinellol. Bydd y Cynllun Gweithredu amlinellol yn cael ei baratoi gan ddefnyddio argymhellion o'r Adroddiad drafft. Dylai hyn gael ei gyflwyno'n amserol i'r Bwrdd Diogelu (o fewn 12 mis i ddechrau'r Adolygiad[40]). Wrth baratoi'r Adroddiad drafft a'r Cynllun Gweithredu amlinellol bydd unrhyw ddynodwyr personol yn cael eu dileu [neu bydd ffugenwau'n cael eu defnyddio] er mwyn lleihau'r posibilrwydd o adnabod unigolion. Dylid cyflwyno'r Adroddiad drafft i destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'u Prif Unigolion, er mwyn iddynt

40 Mae'r Adolygiad yn dechrau pan fydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cadarnhau y dylid cynnal adolygiad

allu dewis ffugenw addas i'w ddefnyddio yn yr Adroddiad, os ydynt yn dymuno. Yn ystod y sgwrs hon dylid trafod peidio â chyfeirio at rywedd penodol, ac unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â'r adroddiad.

**5.9** Dylai aelodau'r Bwrdd Diogelu ystyried, herio, a chyfrannu at gasgliadau'r Adolygiad, a nodi'r goblygiadau strategol ar gyfer gwella ymarfer a systemau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

**5.10** O fewn 12 mis i ddechrau'r Adolygiad, dylai'r Adroddiad terfynol gael:

- ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu;
- ei anfon i'r Hwb Cydgysylltu (i'w roi yn Storfa Ddiogelu Cymru);
- ei gyhoeddi gan y Bwrdd Diogelu.

Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau canlynol, ni fydd y broses gyhoeddi a nodir yn y paragraff hwn yn digwydd hyd nes y gwneir y canlynol:

- Bydd ADUS sy'n cynnwys Lladdiad Domestig yn cael ei anfon gan y Bwrdd Diogelu at Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref, cyn cael ei gwblhau a'i roi yn Storfa Ddiogelu Cymru a'i rannu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ar ôl i'r Panel Sicrhau Ansawdd ei gymeradwyo dylai gael ei gyhoeddi gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Diogelu perthnasol.
- Mae ADUS sy'n cynnwys Lladdiad ag Arf Ymosodol yn cael ei anfon gan y Bwrdd Diogelu at Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref. Dylai gael ei roi yn Storfa Ddiogelu Cymru a'i gyhoeddi gan y Byrddau Diogelu o fewn mis calendr i'r dyddiad yr anfonir ef at yr Ysgrifennydd Gwladol, oni bai y ceir gwybod gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod angen gwneud diwygiadau cyn y dyddiad hwnnw. Dylai'r diwygiadau gael eu hystyried gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

**5.11** Dylai'r Cynllun Gweithredu gael ei gwblhau gan y Grŵp Adolygu Achosion o fewn pedair wythnos i'r Adroddiad terfynol gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu. Dylai'r Cadeirydd anfon yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r Hwb Cydgysylltu. Yna bydd yn cael ei gadw yn Storfa Ddiogelu Cymru, er mwyn sicrhau y lledaenir y dysgu ac y gweithredir arno (i gael rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Gweithredu gweler **Adran 8**). Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn darparu adroddiadau diweddaru i'r Grŵp Strategaeth a bydd materion yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Gweinidogol os gwelir rhwystrau. Gweler siart lif y Rhwydwaith Cymorth (**Ffigur 2**).

**5.12** Mae'r holl dempledi safonol ar gael yn y **Pecyn Cymorth**.

**5.13** Wrth gynnal ADUS, rhaid i'r asiantaethau sydd ynghlwm wrth gyflawni'r Adolygiad ystyried Safonau'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. Rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ADUS gael y cyfle i gyfrannu at yr Adolygiad yn eu dewis iaith. Pan fydd adroddiadau ADUS yn cael eu cyhoeddi, rhaid eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# 6. Rhoi Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar Waith

## Rolau a Chyfrifoldebau

**6.1** Mae'r adran hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud ag Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS).

**6.2** O fewn yr ADUS, fe fydd yna bob amser Gadeirydd y Panel Adolygu ac Adolygydd/Adolygwyr[41]. Penodir Cadeirydd y Panel Adolygu gan y Panel Adolygu i sicrhau bod momentwm yr Adolygiad yn cael ei gynnal. Yr Adolygydd yw awdur yr Adroddiad ADUS ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys cyfarfod thestun yr Adolygiad lle bo hynny'n briodol, eu teulu a'r Prif Unigolion, a chynrychiolwyr yr asiantaethau sy'n cymryd rhan.

## Rôl Byrddau Diogelu

**6.3** Mae sicrhau gwelliant mewn polisïau, systemau ac ymarfer diogelu yn ddiben craidd i'r Byrddau Diogelu Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[42] ac yn y canllawiau statudol hyn, mae gan Fyrddau Diogelu gyfrifoldeb am y canlynol:

- sefydlu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn modd amserol (o fewn 12 mis);
- hysbysu Llywodraeth Cymru (yr Hwb Cydgysylltu) drwy lenwi'r ffurflen hysbysiad o fwriad i ymgymryd ag ADUS;
- cyfrannu at yr Adolygiadau a darparu her broffesiynol;
- nodi goblygiadau strategol ar gyfer gwella systemau ac ymarfer mewn asiantaethau unigol neu ar sail ryngasiantaethol;
- cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu terfynol pan fydd Adolygiad wedi'i gwblhau;
- cyhoeddi'r Adroddiad ADUS a'i gyflwyno i'r Hwb Cydgysylltu i'w roi yn Storfa Ddiogelu Cymru;
- darparu copi o Adroddiad ADUS i'r Crwner os oes angen;
- gweithredu ac archwilio newidiadau mewn polisïau, systemau, ac ymarfer lleol er mwyn nodi pa wahaniaeth(au) a wnaethant mewn partneriaeth â'r Hwb Cydgysylltu;

41 Caiff yr Adolygydd ei adnabod fel Cadeirydd Annibynnol ym mhrosesau'r Adolygiad Lladdiad Domestig a'r Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol, ond cyfeirir ato fel yr Adolygydd drwy gydol y broses ADUS i osgoi dryswch

42 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

- gweithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol briodol, yn enwedig pan fo'r ADUS yn ymwneud â Lladdiad Domestig neu pan fernir bod hynny'n berthnasol fel arall;
- cynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr ardal lle mae goblygiadau ehangach y mae angen eu hystyried. Er enghraifft, pan fydd canfyddiadau'r Adolygiad yn ymwneud â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**6.4** Mae'r Bwrdd Diogelu yn gyfrifol am gyflawni ADUS sy'n gysylltiedig â Lladdiad ag Arf Ymosodol (gweler *Cyflwyno ALIAY yng Nghymru*, adran 5 o'r Canllawiau Statudol[43]) ar Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol). Bydd y Bwrdd Diogelu yn:

- cael yr atgyfeiriad pan fo lladdiad wedi digwydd sy'n debygol o fod yn gymwys ar gyfer ADUS Lladdiad ag Arf Ymosodol;
- cysylltu, drwy Gadeirydd y Bwrdd Diogelu, â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'w hysbysu bod atgyfeiriad wedi'i wneud;
- cynorthwyo'r Partneriaid Adolygu Perthnasol[44]: yr heddlu, yr awdurdod lleol, a'r bwrdd iechyd lleol o ran sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol a roddir arnynt wrth gynnal Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol yn cael eu bodloni drwy'r broses ADUS, gyda chytundeb ac ymgysylltiad yr awdurdodau hynny fel rhan o'r Grŵp Adolygu Achosion a'r Panel Adolygu (y Grŵp Adolygu Achosion, sy'n cynnwys y Partneriaid Adolygu Perthnasol, a fydd yn penderfynu a fydd ADUS yn cael ei gynnal ai peidio);
- gweithredu argymhellion y Grŵp Adolygu Achosion a phenderfyniad dilynol Cadeirydd y Bwrdd Diogelu ynghylch a ddylid cynnal ADUS Lladdiad ag Arf Ymosodol. Yna hysbysu'r Hwb Cydgysylltu ac Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref (fel eu bod yn bodloni'r gofyniad statudol ar ran yr heddlu, yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd) o fewn mis i'r digwyddiad;
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gan bartneriaid. Gellir dirprwyo'r cyfrifoldebau hyn i Adolygydd. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r ystyriaethau o ran diogelu data a rhannu yn y cyd-destun hwnnw wedi'i nodi yn adran 10.

**6.5** Bydd set sgiliau, gwybodaeth a phrofiad Paneli Adolygu a Chadeiryddion Paneli Adolygu yn newid, yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad. Er enghraifft, pan fo lladdiad sy'n gysylltiedig ag arf ymosodol wedi'i gyflawni, mae'n ddigon posibl y bydd cynrychiolwyr troseddu a chyfiawnder yn fwy cyffredin ar y paneli. I helpu i ddewis unigolion â'r sgiliau priodol, bydd yr Hwb Cydgysylltu yn cadw rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy, y gall Cadeiryddion Byrddau Diogelu eu defnyddio i sicrhau eu bod wedi dewis pobl sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol sy'n berthnasol i'r achos.

**6.6** Mae'r cyfrifoldebau hyn yn gofyn am Fyrddau Diogelu ymroddedig, sy'n gweithio'n dda, sy'n herio ac sy'n cael eu harwain yn gryf, gyda chefnogaeth lawn a chyson eu haelodau. Mae'n bosibl hefyd y bydd gofyn iddynt gael partneriaeth weithredol â gwasanaethau cymunedol eraill nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Diogelu ond sy'n gweithio'n lleol gyda phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg, a'u teuluoedd.

43 **Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol – Canllaw Statudol 2023**
44 Adran 9. **Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ac Arfau Ymosodol)2022**

**6.7** Gall ymgysylltu o'r fath ddigwydd gyda sefydliadau ac unigolion perthnasol gan gynnwys rhai o'r sectorau statudol ac annibynnol a'r trydydd sector. Mae gan gynrychiolwyr annibynnol a'r trydydd sector gyfraniad arwyddocaol i'w wneud ochr yn ochr â phartneriaid y Bwrdd Diogelu ac asiantaethau statudol. Dylai Byrddau Diogelu drafod y ffordd orau o sicrhau cyfranogiad cynrychiolwyr o'r fath ar lefel Bwrdd, is-grŵp neu grŵp gorchwyl a gorffen (gweler paragraffau 174-181 o *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1*). Mae rhestr **nad yw'n hollgynhwysfawr** o bartneriaid lleol y dylid eu hystyried ar gyfer aelodaeth neu gyfranogiad wedi'i chynnwys yn **Atodiad Pedwar**. Pan fernir y byddai'n ddefnyddiol i'r partneriaid cymunedol hyn fod yn rhan o'r broses adolygu, dylai'r Adolygydd/Adolygwyr sicrhau y gwahoddir ymgysylltu.

**6.8** At hynny, mae gan Fyrddau Diogelu y pŵer i ofyn am wybodaeth benodol gan 'berson neu gorff cymwys' (gweler paragraffau 218-226 o *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1*), os mai diben y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[45]. Ystyr 'person neu gorff cymwys' yw person neu gorff y mae'r Bwrdd yn ystyried bod ganddynt swyddogaethau neu weithgareddau sy'n golygu ei bod yn debygol fod ganddynt wybodaeth sy'n berthnasol i swyddogaeth a arferir gan y Bwrdd. Mae hyn yn galluogi'r personau neu'r cyrff hynny i ddarparu gwybodaeth i Fyrddau Diogelu yn gyfreithlon pan ofynnir amdani. Pan ystyrir y byddai ymgysylltu â phartneriaid cymunedol perthnasol neu wybodaeth benodedig gan 'berson neu gorff cymwys' yn cynorthwyo'r broses adolygu, dylai'r Adolygydd/Adolygwyr sicrhau y gofynnir am ymgysylltiad neu wybodaeth o'r fath. Gweler **Adran 10** ar rannu data.

**6.9** Rôl y Bwrdd Diogelu yw canolbwyntio ar ddysgu a chanlyniadau, gan annog amgylchedd cefnogol hefyd. Er mwyn parhau i gynnal cysylltiad â natur heriol a chymhleth y gwaith diogelu y mae staff proffesiynol mewn gwahanol asiantaethau lleol yn ei gyflawni, bydd y Bwrdd Diogelu yn cynnal trosolwg a dealltwriaeth agos o'r ymarfer.

## Rôl y Grŵp Adolygu Achosion

**6.10** Bydd y Grŵp Adolygu Achosion yn gwneud yr argymhelliad cychwynnol o ran a ddylid ymgymryd ag ADUS. Dylai'r Grŵp Adolygu Achosion gynnwys personél sydd â'r lefel briodol o arbenigedd a statws i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud mewn perthynas â chymhwyso meini prawf ADUS. Bydd y grŵp hwn yn penderfynu ar aelodaeth y Panel Adolygu (aelodau statudol a gwahoddedig) yn dibynnu ar feini prawf yr Adolygiad, ac yn rhoi gwybod iddynt am eu dyletswydd i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau a phenderfyniadau.

**6.11** Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Diogelu, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (pan fo lladdiad domestig wedi digwydd neu pan fo'n berthnasol fel arall), asiantaeth neu ymarferydd atgyfeirio achos at y Bwrdd Diogelu os credir ei fod yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf a amlinellir yn **Adran 4** o'r canllawiau hyn. Gellir gofyn am gyngor gan yr asiantaeth berthnasol drwy aelod o'r Bwrdd Diogelu cyn atgyfeirio. Fodd bynnag, dylid cyfeirio unrhyw atgyfeiriad o'r fath at Reolwr Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu (neu'r rôl gyfatebol) a fydd yn sicrhau bod Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cael ei hysbysu. Yna dylid anfon yr atgyfeiriad at Gadeirydd y Grŵp Adolygu Achosion i'w ystyried cyn gynted â phosibl. Mae'r Ffurflen Atgyfeirio ADUS ar gael yn y **Pecyn Cymorth** a dylid ei defnyddio i gwblhau'r cam hwn o'r broses.

45 Adran 137 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**6.12** Mae rhai materion y gellid bod angen eu trafod a'u penderfynu gan y Grŵp Adolygu Achosion. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Mwy nag un Bwrdd Diogelu yn rhan o'r broses:**

- Os yw atgyfeiriad a dderbynnir gan y Grŵp Adolygu Achosion yn cynnwys mwy nag un Bwrdd Diogelu, bydd gofyn i Grwpiau Adolygu Achosion y Byrddau Diogelu hynny gydweithredu a chynllunio'n ofalus er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen. Yr egwyddor arweiniol fel arfer yw mai'r 'Bwrdd Diogelu ar gyfer yr ardal lle mae, neu lle'r oedd, y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg yn breswylydd fel arfer a ddylai gymryd y prif gyfrifoldeb dros gynnal yr Adolygiad. Dylid rhoi gwybod am y penderfyniad ynghylch sut y bydd yr Adolygiad yn cael ei drin i'r priod Fyrddau Diogelu a'i rannu â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau perthnasol eraill lle bo hynny'n berthnasol.

- Yn achos ADUS lle mae Lladdiad ag Arf Ymosodol dan sylw, dylai'r Bwrdd Diogelu lle digwyddodd y lladdiad gymryd y prif gyfrifoldeb am gynnal yr Adolygiad, i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion rheoliadol presennol[46].

**Mwy nag un Bwrdd Diogelu mewn gwahanol wledydd yn rhan o'r broses:**

- Os yw atgyfeiriad a dderbynnir gan y Grŵp Adolygu Achosion yn cynnwys mwy nag un awdurdod mewn gwahanol wledydd o fewn y Deyrnas Unedig, bydd yr egwyddor preswylfa arferol yn penderfynu pa Fwrdd Diogelu a ddylai gymryd y prif gyfrifoldeb dros gynnal Adolygiad. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i Fyrddau Diogelu gydweithredu a chynllunio'n ofalus i gytuno ar y ffordd y bydd y gweithdrefnau adolygu priodol yn cael eu dilyn a sut y bydd yr Adolygiad yn ymdrin ag unrhyw faterion ychwanegol. Efallai y bydd angen i'r penderfyniadau hyn gynnwys y llywodraethau priodol hefyd er mwyn sicrhau cytundeb pan fo gwahaniaethau trawsffiniol yn y trefniadau ar gyfer adrodd a chyhoeddi.

- Yn achos ADUS lle mae Lladdiad ag Arf Ymosodol dan sylw, dylai'r Bwrdd Diogelu lle digwyddodd y lladdiad gymryd y prif gyfrifoldeb am gynnal yr Adolygiad, i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion rheoliadol presennol.

**Mwy nag un prif blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun Adolygiad[47]:**

- Gall fod achosion lle mae mwy nag un plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod ac mae pob plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun yr un Adolygiad (h.y. mae sawl Prif Unigolyn yn destun yr adolygiad hwnnw). Rhaid i'r Adolygiad ystyried safbwynt a phrofiad pob plentyn neu oedolyn yn unigol, ond gan sicrhau bod y dysgu sy'n deillio o amgylchiadau'r plant neu'r oedolyn yn cael ei ddwyn ynghyd mewn un adroddiad ADUS cynhwysfawr ar ddiwedd yr Adolygiad. Mae'n bwysig bod Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cael gwybod gan y Grŵp Adolygu Achosion am bob plentyn neu oedolyn sydd i'w gynnwys yn yr Adolygiad yn ei argymhelliad ar gyfer y ffordd ymlaen.

**6.13** Bydd penderfyniad y Grŵp Adolygu Achosion ynglŷn â sut i fwrw ymlaen ar ôl cael atgyfeiriad yn cael ei anfon fel argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu (gyda chopi er gwybodaeth i Gadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol os oes elfen lladdiad domestig), gyda'r wybodaeth ganlynol:

46 Rhan 3 Partneriaid Adolygu Perthnasol **Rheoliadau Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol) 2022**

47 Mae prif blentyn yn derm a ddefnyddir i nodi'r plentyn sy'n destun ac yn ganolbwynt adolygiad, er mwyn gwahaniaethu rhwng y plentyn hwnnw a phlant eraill a allai fod yn rhan o'r adolygiad

- amlinelliad byr o amgylchiadau'r achos;
- y rhesymau dros gynnal Adolygiad;
- y Cylch Gorchwyl arfaethedig;
- amserlen yr Adolygiad;
- asesiad o'r materion tebygol o ran cyfathrebu a'r cyfryngau, fel y maent yn hysbys ar y pryd.

**6.14** Mae templed wedi'i ddarparu ar gyfer Adroddiad ADUS (gweler y **Pecyn Cymorth**) er mwyn:

- symleiddio'r broses;
- sicrhau cysondeb;
- darparu Adroddiad i'w gyflwyno i'r Hwb Cydgysylltu a Storfa Ddiogelu Cymru.

**6.15** Bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn hysbysu'r Grŵp Adolygu Achosion am eu penderfyniad o ran a yw'r argymhelliad i gynnal ADUS yn cael ei gymeradwyo a bydd yn hysbysu'r Bwrdd Diogelu. Os yw'r penderfyniad yn gadarnhaol, bydd y Grŵp Adolygu Achosion yn sefydlu Panel Adolygu amlasiantaethol ac yn penodi Adolygydd/Adolygwyr. Dylai'r penodiadau gael eu cadarnhau gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu.

## Rôl Cadeirydd y Bwrdd Diogelu

**6.16** Mae gan bob Bwrdd Diogelu Gadeirydd ac mae'r rôl hon yn hanfodol i'r broses o wneud penderfyniadau a chyfathrebu o fewn proses yr ADUS. Dylai'r Cadeirydd gyfleu penderfyniadau allweddol yn effeithiol i'r Bwrdd Diogelu, yr Adolygydd, y Panel Adolygu a Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn achos Lladdiad Domestig neu Laddiad ag Arf Ymosodol; y Swyddfa Gartref a'r Gweinidogion.

**6.17** Mae'r camau allweddol sydd i'w cymryd gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu wedi'u hamlinellu isod.

**Cam Un:** Dylai penderfyniad y Grŵp Adolygu Achosion ynglŷn â sut i fynd ati ar ôl cael atgyfeiriad gael ei anfon yn ysgrifenedig fel argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu, gyda'r wybodaeth a amlinellir ym mharagraff 6.13.

**Cam Dau:** Dylai Cadeirydd y Bwrdd Diogelu roi gwybod i'r Grŵp Adolygu Achosion am eu penderfyniad ynghylch a ddylid cymeradwyo'r argymhelliad ai peidio. Os yw'r argymhelliad i ymgymryd ag ADUS wedi'i gymeradwyo, bydd y broses yn cychwyn.

**Cam Tri:** Os yw'r Cadeirydd yn gwrthod yr argymhelliad i gynnal ADUS neu os yw'n cytuno â'r argymhelliad i beidio â chynnal un, bydd y Bwrdd Diogelu yn cael gwybod gan y Cadeirydd a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal. Os mai penderfyniad terfynol Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yw peidio ag ymgymryd ag ADUS, dylai'r Cadeirydd roi gwybod i'r Hwb Cydgysylltu yn ysgrifenedig, gyda'r rhesymau a roddwyd, gan nodi unrhyw safbwyntiau sy'n gwrthdaro. Fodd bynnag, dylid dilyn y camau canlynol hefyd pan fo Lladdiad Domestig yn rhan o'r broses – rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu gysylltu â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol briodol a hysbysu'r Swyddfa Gartref. Os yw'r Swyddfa Gartref yn dweud y dylid cynnal adolygiad, bydd ADUS yn cael ei gychwyn gan y Bwrdd Diogelu.

**Cam Pedwar:** Yn unol ag amgylchiadau lleol, rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu sicrhau bod y Grŵp Adolygu Achosion yn penodi Adolygydd/ Adolygwyr annibynnol. Mae'r Adolygydd/ Adolygwyr yn gyfrifol am reoli a chydgysylltu'r Adolygiad, ac am lunio'r Adroddiad terfynol yn seiliedig ar dystiolaeth y mae'r Panel Adolygu yn penderfynu ei bod yn berthnasol. Fel rhan o'r broses hon, dylid cyfeirio at y Rhestr Cadeiryddion a Adolygwyr Cymeradwy sydd ar gael o'r Hwb Cydgysylltu.

**Cam Pump:** Mae Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cymeradwyo'r Adroddiad terfynol a luniwyd gan y Panel Adolygu (a bydd yn cysylltu â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol os oes Lladdiad Domestig neu Laddiad ag Arf Ymosodol dan sylw, ac yn cyflwyno'r Adroddiad i'r Swyddfa Gartref i'w gymeradwyo gan y Panel Sicrhau Ansawdd yn achos Lladdiad Domestig). Dylai'r Cadeirydd hefyd sicrhau:

- bod yr Adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd;
- bod yr Adroddiad terfynol yn cael ei anfon i'r Hwb Cydgysylltu;
- y cedwir copi yn Storfa Ddiogelu Cymru;
- y caiff ei gyhoeddi gan y Bwrdd Diogelu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol os oes Lladdiad Domestig neu Laddiad ag Arf Ymosodol dan sylw, am o leiaf 12 wythnos;
- y caiff y dysgu ei rannu.

**Cam Chwech:** Dylai Cadeirydd y Bwrdd Diogelu sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Pan fydd materion yn codi ynghylch eu gweithredu, dylai'r Cadeirydd fwrw'r rhain yn eu blaenau drwy'r strwythur cymorth priodol o fewn yr ADUS, a chyda phartneriaethau perthnasol eraill gan gynnwys y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae paragraffau 6.39 i 6.44 yn amlinellu'n fanylach rôl Cadeirydd y Bwrdd Diogelu gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pan fydd yr Adolygiad yn ymwneud â Lladdiad Domestig.

## Rôl Cadeirydd y Panel Adolygu

**6.18** Dylai aelodau'r Panel Adolygu gytuno ar benodiad Cadeirydd y Panel Adolygu. Dylai fod gan Gadeirydd y Panel Adolygu wybodaeth ymarferol am y gwasanaethau y mae ynghlwm wrthynt, ond ni ddylai fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos sy'n destun Adolygiad.

**6.19** Dylai Cadeirydd y Panel Adolygu gynnal pob cyfarfod yn unol â'r Cylch Gorchwyl a'r canllawiau statudol hyn, gan ganiatáu i bob asiantaeth gymryd rhan lawn yn y trafodaethau. Dylent hefyd ddarparu her broffesiynol, adeiladol i Aelodau'r Panel a'r Adolygydd/Adolygwyr fel y bo'n briodol.

**6.20** Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod anghenion ymgysylltu'r dioddefwr a/neu'r teulu yn cael eu hystyried drwy gydol yr ADUS a chynnig trefniadau eiriolaeth i'r oedolion, y plant a'r aelodau o'r teulu sy'n rhan o'r broses, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth llawn i rannu gwybodaeth ac i leisio eu barn.

**6.21** Dylai'r Cadeirydd weithio gyda'r Adolygydd/Adolygwyr i gynorthwyo'r digwyddiad(au) dysgu. Bydd y Cadeirydd yn mynd i'r digwyddiad(au) dysgu ar ran y Panel Adolygu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â'r cwestiynau a'r materion a nodwyd gan y Panel.

## Rôl y Panel Adolygu

**6.22** Mae'r Panel Adolygu yn cyfrannu at yr Adolygiad ac mae ganddo rôl allweddol o ran sicrhau y dysgir o'r achos. Dylai cynrychiolwyr o'r asiantaethau sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys gwasanaethau plant neu oedolion, gael eu penodi'n aelodau o'r Panel Adolygu. Pan fo'r achos yn ymwneud â lladdiad domestig, mae disgwyl i reolwr/arweinydd o'r Bartneriaeth

Diogelwch Cymunedol berthnasol ymuno â'r Panel Adolygu. Os yw'r Adolygiad yn ymwneud â Lladdiad Domestig, rhaid adlewyrchu Canllawiau'r Swyddfa Gartref ynghylch annibyniaeth ac aelodaeth wrth ddewis y Panel.

**6.23** Ar gyfer Lladdiad ag Arf Ymosodol bydd y Partneriaid Adolygu Perthnasol yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r panel hwn.

**6.24** Bydd aelodau'r Panel Adolygu yn cytuno ar benodiad Cadeirydd y Panel Adolygu.

**6.25** Dylai Aelodau'r Panel Adolygu fod â gwybodaeth ymarferol am y gwasanaethau y maent ynghlwm wrthynt, ond ni ddylent fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos sy'n destun Adolygiad. Dylid cynnull Panel Adolygu amlasiantaethol ym mhob achos, hyd yn oed os yw'r achos yn cynnwys un asiantaeth yn unig neu nifer bach o asiantaethau. Gan fod y Panel Adolygu yn rhan annatod o'r broses adolygu, mae'n hanfodol sicrhau, ar ôl ei benodi, bod ei aelodaeth yn gyson a'u bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu dirprwyon.

**6.26** Caiff Cylch Gorchwyl cychwynnol ei ddatblygu gan Gadeirydd y Panel Adolygu mewn partneriaeth ag aelodau'r Panel Adolygu. Bydd y Cylch Gorchwyl cychwynnol hwn yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu (a'i gopïo i Gadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lle bo hynny'n berthnasol) yn seiliedig ar wybodaeth sy'n hysbys ar y pryd. Dylid nodi mai dogfen fyw yw'r Cylch Gorchwyl a bod modd ei newid. Mae'n bosibl y bydd angen ei diwygio, yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd sy'n dod i'r amlwg, ar unrhyw adeg yn ystod ADUS. Bydd y Panel Adolygu yn gyfrifol am gytuno i unrhyw amrywiad i'r Cylch Gorchwyl.

**6.27** Bydd y Cylch Gorchwyl terfynol (a'r dynodwyr personol wedi'u dileu) yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad ADUS. Mae enghraifft o Gylch Gorchwyl ADUS wedi'i chynnwys yn y templed Adroddiad sydd ar gael yn y **Pecyn Cymorth**.

**6.28** Bydd y Panel Adolygu yn cynhyrchu Llinell Amser Asiantaethau (gweler **Adran 8**) gan ddefnyddio gwybodaeth gan y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r achos sy'n cael ei adolygu. Bydd y Llinell Amser Asiantaethau yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau arwyddocaol ynghyd â dadansoddiad byr o'r cyd-destun, y materion neu'r digwyddiadau perthnasol. Gellir cynnwys gwybodaeth am gamau sydd eisoes wedi'u cymryd neu argymhellion gan staff ar gyfer gwelliannau mewn systemau neu ymarfer yn y dyfodol, os yw hynny'n briodol. Dylai'r gwaith o baratoi Llinellau Amser Asiantaethau a dadansoddiadau gael ei gwblhau gan reolwyr sydd heb fod â chyfrifoldeb gweithredol dros yr achos, ond sy'n deall y gwasanaeth, gan sicrhau felly eu bod yn annibynnol ac yn wrthrychol.

**6.29** Os mai ychydig iawn o brofiad sydd gan aelodau'r panel o ddefnyddio dealltwriaeth o amrywiaeth a chroestoriadedd ar gyfer y broses adolygu, neu ddim profiad o gwbl, dylai aelodau'r Panel Adolygu a'r Cadeirydd geisio arbenigedd gan weithwyr proffesiynol arweiniol annibynnol a/neu asiantaethau cymorth annibynnol.

## Rôl yr Adolygydd/Adolygwyr

**6.30** Yr Adolygydd yw awdur yr Adroddiad ADUS. Wrth benodi'r Adolygydd, ac:

- os yw Lladdiad Domestig yn rhan o broses yr ADUS, dylid sicrhau bod yr Adolygydd yn ymwybodol o'r gofyniad i'r Adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. Mae'n bosibl y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau pellach gael eu gwneud i'r Adroddiad cyn iddo gael

ei gwblhau, ei gyhoeddi gan y Bwrdd Diogelu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol, ei roi yn Storfa Ddiogelu Cymru a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref a'i rannu â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig; neu

- os yw Lladdiad ag Arf Ymosodol wedi sbarduno ADUS, bydd angen i'r partneriaid adolygu perthnasol ar gyfer y farwolaeth gytuno i ddirprwyo eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol i Adolygydd (Cadeirydd Annibynnol). Gweler paragraff 3.14 'Dirprwyo swyddogaethau' y canllawiau statudol ar Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol[48]. Dylai'r Adolygydd fod yn unigolyn profiadol nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag unrhyw un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r adolygiad. Gall profiad perthnasol gael ei bennu yn ôl materion iaith, ethnigrwydd, crefydd, neu iechyd, megis anabledd, neu ffactorau eraill sy'n allweddol i amgylchiadau'r achos.

**6.31** Os nad yw'r unigolyn wedi ymgymryd â rôl Adolygydd o'r blaen, bydd yn cael cyfle i 'gysgodi' Adolygydd profiadol. Bydd hyn yn gyfle mentora i sicrhau bod Adolygwyr newydd yn deall yn iawn beth yw eu rôl yn ymarferol.

**6.32** Dylai'r Adroddiad ddangos yn glir annibyniaeth yr Adolygydd oddi wrth y Bwrdd Diogelu a gomisiynodd yr Adolygiad a'r asiantaethau sy'n rhan o'r Adolygiad. Er mwyn sicrhau darllenwyr nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau o ran yr Adolygydd, dylid cynnwys 'datganiad annibyniaeth' fel atodiad i'r Adroddiad, sy'n nodi hanes gyrfa, profiad perthnasol ac annibyniaeth yr Adolygydd.

**6.33** Mewn achos o Laddiad Domestig, ni ddylai'r Adolygydd fod yn aelod o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol. Os yw'r Adolygydd wedi bod yn aelod o/yn gyflogedig gan un o'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad neu un o asiantaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol, dylai'r datganiad annibyniaeth nodi'n glir faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r person adael yr asiantaeth honno. Os yw'r ADUS yn ymwneud â lladdiad domestig, gweler paragraffau 36 i 39 y *Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews*[49].

**6.34** Mae'n bosibl y bydd Byrddau Diogelu am ystyried datblygu cytundeb rhanbarthol sy'n golygu bod unigolion profiadol o ardaloedd cyfagos yn cael eu cyfnewid neu eu benthyg i'r Panel Adolygu er mwyn helpu i rannu arferion da a hybu'r gwaith o ledaenu gwybodaeth a dysg newydd.

**6.35** Mae'r Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy yn cael ei llunio a'i hwyluso gan yr Hwb Cydgysylltu a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n gyson. Dylid cyfeirio at y rhestr hon wrth gomisiynu Adolygydd/Adolygwyr.

**6.36** Dyma enghreifftiau o'r arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen ar Adolygydd/Adolygwyr i gael eu cynnwys ar y rhestr hon:

a) gwybodaeth fanwl am faes pwnc yr Adolygiad dan sylw, er enghraifft cam-drin domestig, trais ar sail 'anrhydedd', iechyd meddwl, cam-drin plant;

b) dealltwriaeth o rôl a chyd-destun y prif asiantaethau a fydd yn rhan o'r ADUS;

c) profiad o reoli ac arwain ar lefel uwch, gan felly ddarparu'r weledigaeth strategol briodol sydd ei hangen;

d) sgiliau dadansoddi, cyfweld a chyfathrebu da;

e) y gallu i ymgysylltu'n effeithiol â thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion ac, os yw hynny'n briodol, â'r cyflawnwr/cyflawnwyr neu'r cyflawnwr/cyflawnwyr honedig;

---

48 **Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol – Canllaw Statudol 2023**
49 Adran 4. **Multi-agency Statutory Guidance for the conduct of Domestic Homicide Reviews (2016)**

f) dealltwriaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg heb i unigolion orfod gofyn amdanynt;

g) cwblhau'r hyfforddiant priodol a/neu feddu ar brofiad perthnasol yn ymwneud â'r meysydd arbenigol y mae'r Adolygiad yn ymdrin â hwy.

**6.37** Wrth ddewis Adolygydd/Adolygwyr, mae'n bwysig cofio bod safon a phrofiad yr unigolion hyn yn hanfodol i safon y canlyniad. Mae'r rôl yn gofyn am amrywiaeth eang o wybodaeth, sgiliau a galluoedd sy'n cynnwys:

a) y gallu i ymdrin â'r Adolygiad mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma;

b) gwybodaeth drylwyr am systemau, materion, cyfrifoldebau ac ymarfer diogelu;

c) dealltwriaeth o waith amlddisgyblaethol;

d) gallu i ymholi a chyfathrebu ynghylch ymarfer gyda gweithwyr proffesiynol, plant ac aelodau o'r teulu;

e) dealltwriaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg i'r holl unigolion sy'n cymryd rhan;

f) sgiliau ar gyfer hwyluso a rheoli prosesau grŵp yn effeithiol.

**6.38** Gweler Fframwaith Cymwyseddau Allweddol ADUS i gael rhagor o wybodaeth am ofynion y rolau o fewn y broses ADUS. Mae hwn ar gael drwy'r Hwb Cydgysylltu. Wrth benodi Adolygydd/Adolygwyr, bydd angen i'r Bwrdd Diogelu fod yn fodlon bod arferion recriwtio diogel wedi'u dilyn.

## Rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

**6.39** Mae rôl y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn berthnasol i ADUS sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Lladdiad Domestig fel y'u nodir yn **Adran 4 (d)**.

**6.40** Pan fo Lladdiad Domestig wedi digwydd, bydd yr heddlu (neu asiantaeth arall) yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd Diogelu a Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol ar gyfer yr ardal lle'r oedd testun yr adolygiad yn byw. Unwaith y ceir yr atgyfeiriad, bydd y Grŵp Adolygu Achosion (a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol) yn argymell i Gadeirydd y Bwrdd a ddylai'r lladdiad fod yn destun ADUS. Yna bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cyfleu'r penderfyniad i Gadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yna, bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd:

- os yw'r ddau Gadeirydd yn cytuno y dylid cynnal ADUS bydd y broses yn dechrau;
- os yw'r ddau Gadeirydd yn cytuno na ddylid cynnal ADUS, bydd adroddiad sy'n nodi'r rhesymau pam yn cael ei gyflwyno i'r swyddogion perthnasol yn y Swyddfa Gartref ac i'r Hwb Cydgysylltu. Os bydd y Swyddfa Gartref yn gwrthdroi'r penderfyniad, bydd y broses ADUS yn dechrau;
- os nad oes consensws rhwng y Cadeiryddion ynghylch a ddylid cynnull ADUS, bydd y penderfyniad yn cael ei drafod gyda'r swyddogion perthnasol yn y Swyddfa Gartref. Os bydd y Swyddfa Gartref yn dweud:

- y dylid cynnal Adolygiad, bydd ADUS yn cael ei gychwyn; neu
- na ddylid cynnal Adolygiad, bydd adroddiad yn cael ei lunio yn nodi'r rhesymau pam nad oes ADUS yn cael ei gynnal a'i gyflwyno i'r Hwb Cydgysylltu i'w gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei dal a'i chofnodi.

**6.41** Os penderfynir y bydd ADUS yn cael ei gynnal, bydd rheolwr/arweinydd o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol yn ymuno â'r Panel Adolygu.

**6.42** Bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu, yn dilyn trafodaeth â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn gwneud y canlynol:

- hysbysu'r Swyddfa Gartref am y penderfyniad ynghylch cynnal ADUS ai peidio (bydd penderfyniad i beidio â chynnal Adolygiad yn cael ei ystyried gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref, ac yn y pen draw gallai Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref ddewis rhoi cyfarwyddyd y dylid cychwyn ADUS). Dylai hwn gael ei anfon yn ysgrifenedig i flwch negeseuon e-bost Adolygiadau Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref: **DHRENQUIRIES@homeoffice.gsi.gov.uk**;
- hysbysu'r teulu neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â thestun yr Adolygiad, yn ysgrifenedig, am ei benderfyniad yn ogystal ag anfon gohebiaeth berthnasol i'r teulu gan y Panel Sicrhau Ansawdd ynghylch ei safbwynt. Os mai'r cynnig yw na ddylid rhoi gwybod i'r teulu, mae angen hysbysu'r Swyddfa Gartref am resymeg y Cadeirydd dros beidio â gwneud hynny;
- cymeradwyo'r Adroddiad ADUS yn derfynol;
- cyflwyno'r Adroddiad terfynol i'r Swyddfa Gartref ac aros am unrhyw sylwadau pellach, cyn ei gyhoeddi. Dylid ei rannu hefyd â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

**6.43** Ar ôl i'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu gael eu cymeradwyo gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref, bydd yr Adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Hwb Cydgysylltu i'w brosesu a'i gadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Diogelu priodol ar eu gwefannau am gyfnod o 12 wythnos o leiaf. Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn sicrhau bod unrhyw argymhellion o'r Cynllun Gweithredu sy'n berthnasol i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol penodol, neu i bob un, yn cael eu cyfleu yn unol â hynny.

**6.44** Disgwylir i Gadeiryddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol:

- sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn Grwpiau Adolygu Achosion a Phaneli Adolygu;
- rhannu gwersi ac argymhellion Adroddiadau Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl;
- uwchgyfeirio unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a/neu y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol;
- sicrhau bod asiantaethau partner priodol o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn dod i Ddigwyddiadau Dysgu.

# 7. Ymgysylltu â thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion yn ystod yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**7.1** Mae'r adran hon yn amlinellu sut i sicrhau bod ymgysylltu priodol yn digwydd â'r unigolion sy'n dymuno cyfrannu at yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Bydd yr unigolion hynny'n wahanol ar gyfer pob Adolygiad ac nid yr unigolion sy'n perthyn agosaf i destun yr ADUS fydd y rhain bob amser. Felly, at ddibenion y canllawiau hyn, gall y grŵp hwn o unigolion gynnwys y canlynol:

- dioddefwyr neu oroeswyr;
- aelodau allweddol o'r teulu sy'n agos at destun yr Adolygiad;
- Prif Unigolion: er enghraifft (ond nid yn gyfyngedig i'r rhain) ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedol neu gyflogwyr) y mae testun yr Adolygiad yn eu hadnabod;
- cyflawnwyr a/neu gyflawnwyr honedig.

**7.2** Mae cynnwys testun yr Adolygiad, a/neu eu teulu a' Prif Unigolion, er yn wirfoddol, yn rhan annatod o'r ADUS. Dylid rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr Adolygiad a'u trin fel rhanddeiliaid allweddol lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl. Mae eu safbwyntiau a'u profiadau yn hanfodol i ddatblygu dysgu o fewn Adolygiad. Pan fernir ei bod yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny, dylid rhoi cyfle hefyd i gyflawnwyr/cyflawnwyr honedig gael cyfle i ymgysylltu â'r Adolygiad gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer ymgysylltu fel y'u nodir isod. Fodd bynnag, cyn cynnwys gwybodaeth am y cyflawnwr yn yr ADUS, dylai'r Adolygydd/Adolygwyr ystyried yr hyn y gallant ei ddysgu o'r wybodaeth hon i sicrhau nad yw'r ADUS yn ailadrodd naratif y cyflawnwr heb ei wirio.

**7.3** Er bod canllawiau wedi'u datblygu ar gyfer ymgysylltu, bydd angen i'r Adolygydd gymhwyso'r canllawiau mewn ffordd gytbwys gan sicrhau bod prif ffocws yr Adolygiad (sef dysgu gwersi) yn parhau i fod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Mewn llawer o achosion, bydd gan destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'u Prif Unigolion safbwyntiau gwahanol i'w gilydd, a safbwyntiau a fydd yn gwrthdaro o bosibl. Dan amgylchiadau o'r fath, rôl yr Adolygydd yw dal y safbwyntiau hynny a llunio barn gytbwys, i gyfrannu at benderfyniad proffesiynol cyffredinol ynghylch pa wersi y gellir eu dysgu o'r achos.

**7.4** Os bu ymgysylltu â thestun yr Adolygiad a/neu eu teulu a'r Prif Unigolion, dylai'r tîm Adolygu gynnwys sylwadau neu adborth ganddynt yn ffurflen fyfyrio'r Adolygiad (gweler y templed yn y **Pecyn Cymorth**). Gellir llenwi hon yn ystod sesiynau byr a gynhelir gyda thestun yr Adolygiad a/neu eu teulu neu'r Prif Unigolion. Gellir hefyd ystyried ymgysylltu ag unrhyw gyflawnwyr/cyflawnwyr honedig yn y dull hwn.

## Canllawiau ar gyfer ymgysylltu

**7.5** Diben ADUS yw dysgu gwersi i wella ymarfer. Mae profiadau a barn testun yr Adolygiad, a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion yn bwysig gan eu bod yn ychwanegu gwybodaeth arwyddocaol at yr Adolygiad a phersbectif na fydd, fel arall efallai, yn cael ei adlewyrchu mewn cofnodion eraill. Bydd angen i'r cynlluniau i ymgysylltu â thestun yr Adolygiad, a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion gael eu hystyried ar ddechrau proses ADUS a gellir eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu amgylchiadau unigryw pob achos. Pan wneir penderfyniad i beidio ag ymgysylltu ag unigolyn (er enghraifft cyflawnwr honedig neu rywun sy'n elyniaethus i'r broses adolygu), dylai'r Adolygydd gofnodi'r rhesymau yn yr Adroddiad ADUS.

**7.6** Mae Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS wedi creu Siart Lif Ymgysylltu sy'n adeiladu ar y canllawiau yn yr adran hon ac yn eu hategu. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r siart lif i nodi arferion da ac i helpu â phenderfyniadau allweddol yn ystod yr Adolygiad. Dylid darllen y Siart Lif Ymgysylltu (gweler y **Pecyn Cymorth**) ochr yn ochr â'r canllawiau a amlinellir isod:

a) bydd testun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a Phrif Unigolion y person sy'n destun yr ADUS yn cael eu nodi gan y Panel Adolygu a bydd y person priodol a enwebir gan y Panel yn cysylltu â hwy cyn gynted â phosibl. Byddant yn parhau i gael gwybodaeth am y broses adolygu, os dymunant;

b) bydd gan destun yr Adolygiad a/neu'r teuluoedd a'r Prif Unigolion berson(au) cyswllt penodol ar gyfer y broses ADUS a byddant yn cael cynnig trefniadau eiriolaeth;

c) bydd testun yr Adolygiad a/neu'r teuluoedd a'r Prif Unigolion yn cael eu trin â pharch a chwrteisi. Lle bo hynny'n bosibl, ystyrir, cofnodir a darperir ar gyfer anghenion ychwanegol penodol. Bydd hyn yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu iddynt allu cymryd rhan neu gyfrannu yn effeithiol at yr Adolygiad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gymorth arbenigol, er enghraifft, gofynion diwylliannol neu ieithyddol (gweler y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru[50]);

d) bydd gweithwyr proffesiynol yn agored ac yn dryloyw gyda thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd, a'r Prif Unigolion. Byddant yn cael gwybodaeth angenrheidiol (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y bydd unrhyw ddata personol yn cael ei ddefnyddio). Darperir y rhesymau dros wrthod datgelu gwybodaeth y gofynnwyd amdani;

---

50 Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru: **Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol**

e) bydd adolygwyr yn wybodus am yr achos cyn siarad â thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion a dylid sicrhau eu bod wedi hyfforddi'n briodol a/neu wedi cael profiad o weithio gydag unigolion sydd wedi wynebu trawma a'u cefnogi (gweler Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawm[51] i gael gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol);

f) cyfathrebir â thestun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion mewn ffordd glir, heb jargon, a chyfathrebir yn eu dewis iaith drwy gydol y broses. Efallai y bydd angen elfen o greadigrwydd hefyd ar gyfer ymwneud â phlant a phobl ifanc;

g) bydd Adolygwyr yn rhoi cyfle i destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion weld yr Adroddiad drafft yn breifat ac yn rhoi digon o amser iddynt wneud hynny ac i wneud sylwadau a nodi unrhyw wallau. Pan na fydd modd i sylwadau/diwygiadau gan destun yr Adolygiad a/neu aelodau o'u teulu a'r Prif Unigolion gael eu cynnwys yn yr Adroddiad terfynol, dylid darparu esboniad;

h) bydd testun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion yn gwybod pwy i gysylltu â hwy, a bydd gwasanaethau atebol yn mynd i'r afael â'u pryderon os na fydd un neu ragor o'r canllawiau hyn yn cael eu bodloni;

i) pan fo nifer sylweddol o bobl o ddiddordeb yn rhan o'r achos, bydd rhaid i'r Adolygydd gydbwyso'r angen i gwblhau'r Adolygiad mewn modd amserol, arwyddocâd testun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion, a faint o awydd sydd gan yr unigolyn i ymgysylltu. Mewn achosion o'r fath, gall yr Adolygydd ystyried derbyn barn/sylwadau yn ysgrifenedig;

j) dylai'r Panel Adolygu geisio arbenigedd a/neu gyngor os ydynt yn teimlo nad oes ganddynt y sgiliau gofynnol i ymgymryd â'r ymgysylltu angenrheidiol. Gall Cadeirydd y Panel Adolygu ofyn am gyngor ar ran y Panel gan y Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ar faterion o'r fath;

k) cael sylwadau neu adborth gan y **teulu neu'r gymuned** dan sylw ar ddiwedd yr Adolygiad drwy lenwi'r ffurflen fyfyrio (gweler y Pecyn Cymorth), i helpu i benderfynu a ellir gwella'r broses ADUS.

## Pan fo testun yr Adolygiad yn Blentyn neu'n Oedolyn sy'n wynebu risg

**7.7** Mae profiad yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod pawb (gan gynnwys pobl ifanc) yn rhan o'r broses os oes modd, ac yn cael cyfrannu mewn ffordd mor fechan ag y mynnant, i'w helpu i ddylanwadu ar yr hyn y mae'r rhai sy'n ymwneud â'r Adolygiad yn ei ddysgu. Dylent hefyd gael cyfle, os yw'n hynny'n briodol, i weld a thrafod yr Adroddiad a'i ganfyddiadau ar ddiwedd yr Adolygiad.

**7.8** Dylai Byrddau Diogelu feddwl yn greadigol am sut y gellir cynnwys teuluoedd yn yr adolygiad a sut y darperir gwybodaeth esboniadol (gan gynnwys gwybodaeth am breifatrwydd) i blant ac aelodau o'r teulu sy'n oedolion, gan ystyried oedran ac amgylchiadau fel anabledd ac iaith gyntaf ac a yw'n briodol cynnig cymorth eiriolwr. Mae Canllaw Hawdd ei Ddeall a Chanllaw i Pobl Ifanc ar y broses ADUS ar gael a dylid eu rhannu lle bo hynny'n briodol i helpu unigolion i ddeall sut y gallant gyfrannu at y broses adolygu.

---

51 **Cymru sy'n ystyriol o drawma (traumaframeworkcymru.com)**

**7.9** Dylid gwneud trefniadau gofalus i adrodd yn ôl ar ddiwedd yr Adolygiad ac i rannu canfyddiadau'r Adroddiad. Mae'n bosibl mai'r Adolygydd a/neu Gadeirydd y Panel Adolygu fydd y person mwyaf priodol i wneud hyn. Bydd aelodau'r teulu'n amrywio yn eu hymateb o ran a ydynt am gael adborth ac, os felly, ar ba ffurf - nid o reidrwydd wyneb yn wyneb ond dros y ffôn neu drwy lythyr. Bydd angen i'r Bwrdd Diogelu ystyried yn ofalus yr amseriad ar gyfer rhannu cynnwys yr Adroddiad, o ran y dyddiad cyhoeddi ac unrhyw faterion sensitif eraill neu ddyddiadau arwyddocaol i'r teulu. Mae'n well peidio â rhoi copïau o'r Adroddiad i aelodau'r teulu i'w gadw nes y bydd wedi'i gwblhau'n derfynol, wedi'i gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu, ei gyhoeddi, a'i rannu â'r Hwb Cydgysylltu er mwyn ei gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru.

**7.10** Gall fod nifer o swyddogaethau i'r adborth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gall roi sicrwydd neu ddilysiad, helpu i gau pen y mwdwl, neu ddarparu trobwynt mewn rhaglen o ofal a thriniaeth. Gall hefyd beri gofid neu ddod ag atgofion poenus yn ôl. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen sicrhau bod cymorth priodol gan weithwyr proffesiynol allweddol ar gael i'r plant neu'r aelodau teulu dan sylw.

## Pan fo Lladdiad Domestig (neu hunanladdiad cysylltiedig â Lladdiad Domestig) wedi digwydd

**7.11** Lluniwyd yr adran hon gan ystyried elfennau allweddol y *Multi-agency Statutory Guidance for the conduct of Domestic Homicide Reviews (2016)*[52]. Mae lladdiad domestig hefyd yn cynnwys achosion pan fo testun yr Adolygiad wedi diweddu ei fywyd ei hun ac mae'r broses ADUS wedi ymrwymo i sicrhau, yng Nghymru, bod unrhyw farwolaeth sy'n digwydd o fewn cwmpas y diffiniad yn adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 yn cael blaenoriaeth gyfartal ac ystyriaeth briodol.

**7.12** Pan fo testun yr Adolygiad wedi diweddu ei fywyd ei hun, mae angen cymryd gofal i archwilio pob cyfle i sefydlu'r gadwyn ddigwyddiadau ac i ganfod a oes cam-drin posibl neu dramgwydd a allai fod wedi cyfrannu at y penderfyniad. Os yw testun yr Adolygiad wedi diweddu ei fywyd ei hun, dyna'r dewis olaf yn aml, a hynny o ganlyniad i deimlo nad yw'n gallu cael gafael ar gymorth; neu deimladau o gywilydd, stigma ac euogrwydd ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd iddynt, a allai olygu y gallai rhyngweithio a mynediad at wybodaeth a gedwir gan wasanaethau fod yn gyfyngedig.

**7.13** Gall y cywilydd a'r stigma sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth hefyd fod yn ystyriaeth ddiwylliannol i'r teulu a'r gymuned, yn ogystal ag ofni awdurdod neu wahaniaethu, statws mewnfudo ansicr a rhwystrau o ran hil, diwylliant ac iaith sy'n eu llesteirio rhag cael gafael ar gymorth. Mae'n bosibl mai ymwneud mewn modd sy'n ddiwylliannol sensitif â'r teulu, y Prif Unigolion, y cyflawnwyr/y cyflawnwyr honedig a'u teuluoedd yw'r unig ffordd i'r broses adolygu allu canfod a yw'r farwolaeth yn bodloni meini prawf adolygiad, ac os ydyw, i ddeall y gwersi a ddysgwyd.

**7.14** Mae dyfarniad y crwner ar achos marwolaeth hefyd yn bwysig er mwyn gwybod a oedd bwriad i ddiweddu bywyd, neu a allai fod unrhyw ymwneud gan drydydd parti. Hyd yn oed os nad yw crwner yn gwneud canfyddiad o hunanladdiad, nid yw hyn yn golygu na ddylid comisiynu Adolygiad. Pan fo cyflawnwr/cyflawnwr honedig lladdiad domestig wedi diweddu ei fywyd ei hun, mae achosion troseddol yn fwy heriol oherwydd y gall gwybodaeth fod yn fwy cyfyngedig neu'n llai manwl. I egluro, ni chomisiynir Adolygiadau pan fydd cyflawnwr/cyflawnwr honedig cam-drin domestig yn diweddu ei fywyd ei hun.

52 Multi-agency Statutory Guidance for the conduct of Domestic Homicide Reviews (2016)

**7.15** Dyma rai o fanteision cynnwys testun yr Adolygiad, y teulu a'r Prif Unigolion:

a) cynorthwyo teulu testun yr Adolygiad â'r broses adfer sy'n cysylltu ag amcanion y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gynorthwyo dioddefwyr troseddau i ymdopi ac ymadfer am gyhyd ag sydd angen ar ôl y lladdiad;

b) rhoi cyfle i aelodau'r teulu gyfarfod â'r Panel Adolygu os ydynt yn dymuno, a chael y cyfle i ddylanwadu ar gwmpas, cynnwys, ac effaith yr Adolygiad. Rhaid i'w cyfraniadau, pryd bynnag y cânt eu rhoi yn ystod yr Adolygiad, gael yr un statws â chyfraniadau eraill. Mae cael y teulu i gymryd rhan yn ffordd o gydnabod y sawl sydd wedi marw hefyd ac mae'n helpu i sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar safbwyntiau testun yr Adolygiad a'r cyflawnwr honedig, yn hytrach na safbwyntiau asiantaethau yn unig;

c) helpu teuluoedd i fodloni'r angen, a fynegir yn aml, i gyfrannu at atal lladdiadau domestig eraill;

d) galluogi teuluoedd i lywio'r Adolygiad mewn ffordd adeiladol, drwy ganiatáu i'r Panel Adolygu gael golwg fwy cyflawn ar fywyd testun yr Adolygiad a/neu'r cyflawnwr honedig er mwyn gweld y lladdiad drwy lygaid testun yr Adolygiad a/neu'r cyflawnwr honedig, gan gynnwys achosion lle maent wedi diweddu eu bywydau eu hunain, neu heb gael fawr o ymgysylltu â gwasanaethau statudol neu arbenigol. Gall y dull hwn helpu'r Panel i ddeall y penderfyniadau a'r dewisiadau a wnaed gan destun yr Adolygiad a/neu'r cyflawnwr honedig;

e) cael gwybodaeth berthnasol a gedwir gan y teulu a'r Prif Unigolion sydd heb ei chofnodi mewn cofnodion swyddogol. Er y gall datganiadau tystion a thystiolaeth a roddir yn y llys fod yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol ar gyfer yr Adolygiad, gall rhyngweithio penodol ac ar wahân gyda theuluoedd a Phrif Unigolion ddatgelu gwybodaeth wahanol i'r hyn a nodir mewn dogfennau swyddogol. Dylai teuluoedd a Phrif Unigolion allu darparu gwybodaeth ffeithiol yn ogystal â thystiolaeth o effaith emosiynol y lladdiad. Mewn achosion o laddiadau domestig lle mae llofruddiaeth-hunanladdiad yn digwydd, neu lle na fu fawr o gysylltiad â gwasanaethau, mae'n bosibl mai dyma'r unig wybodaeth sydd ar gael. Dylai'r Panel Adolygu fod yn ymwybodol hefyd o'r risg o greu 'hierarchaeth o dystiolaeth mewn perthynas â'r pwys y maent yn ei roi ar y sector statudol, y sector gwirfoddol a chyfraniadau teuluoedd a Phrif Unigolion;

f) datgelu gwahanol safbwyntiau'r achos, gan alluogi asiantaethau i wella dyluniad a phrosesau gwasanaethau;

g) galluogi teuluoedd a Phrif Unigolion i ddewis, os dymunant, ffugenw addas ar gyfer testun yr Adolygiad, y gellir ei ddefnyddio yn yr Adroddiad. Mae dewis enw priod yn hytrach na'r arfer cyffredin o ddefnyddio blaenlythrennau, llythrennau a rhifau, enwau cyffredin neu symbolau, yn personoli'r adolygiad ac yn ei gwneud yn haws i'r darllenydd ddilyn y naratif. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Adroddiadau'n nodi achosion lle mae teuluoedd a Phrif Unigolion wedi gwrthod y defnydd o ffugenw.

**7.16** Bydd angen i'r Adolygydd/Adolygwyr ystyried pryd a sut maent yn ymgysylltu â chyflawnwyr/cyflawnwyr honedig er mwyn sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i uniondeb unrhyw achos troseddol neu achos crwner (gweler **Adran 12 Prosesau Cyfochrog**) ac er mwyn sicrhau diogelwch y teulu a'r Prif Unigolion sy'n ymwneud â'r ADUS.

**7.17** Dylai'r Adolygydd/Adolygwyr a'r Panel Adolygu fod yn ymwybodol o faterion sensitif posibl a'r angen am gyfrinachedd wrth gyfarfod â theuluoedd a Phrif Unigolion yn ystod yr Adolygiad, a dylid cofnodi pob cyfarfod o'r

fath. Dylid mynd ati'n gynnar yn y broses hefyd i ystyried cydweithio â Swyddogion Cyswllt Teulu ac Uwch-swyddogion Ymchwilio sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad cysylltiedig gan yr heddlu, er mwyn nodi unrhyw eiriolwyr presennol a sefyllfa aelodau'r teulu a'r Prif Unigolion o ran y lladdiad.

**7.18** Wrth ystyried a ddylid cyfweld aelodau o'r teulu a Phrif Unigolion, rhaid i'r Adolygydd/Adolygwyr ystyried y gall unrhyw un o'r bobl hyn fod yn dystion posibl neu hyd yn oed yn ddiffynyddion mewn treial troseddol yn y dyfodol. Bydd angen i'r Adolygydd/Adolygwyr drafod yr amserlenni ar gyfer cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion Ymchwilio a chael arweiniad ganddynt mewn perthynas ag unrhyw achosion troseddol sydd ar y gweill.

**7.19** Wrth gyfarfod â'r teulu a'r Prif Unigolion dylai'r Adolygydd/Adolygwyr:

a) gyfarfod â'r teulu a'r Prif Unigolion ar y cyfle cyntaf a chynnig eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth eiriolaeth arbenigol a phrofiadol i'r rhai nad oes ganddynt eiriolwr dynodedig. Ni chaiff yr Adolygydd fod yn eiriolwr i'r teulu a'r Prif Unigolion gan fod angen iddynt fod yn gwbl annibynnol, o gofio y gallent ddod i gasgliadau y mae'r teulu a'r Prif Unigolion yn anghytuno â hwy;

b) cyfathrebu'n uniongyrchol â'r teulu a'r Prif Unigolion neu drwy eiriolwr dynodedig ar eu cais. Mae'n well defnyddio unrhyw eiriolwr dynodedig presennol sydd eisoes wedi sefydlu perthynas waith â'r teulu a'r Prif Unigolion (e.e. cynrychiolydd gwasanaeth cam-drin domestig lleol);

c) ystyried eu hanghenion ethnig, diwylliannol, ac ieithyddol;

d) gwneud penderfyniad ynghylch amseriad unrhyw gyswllt â'r teulu a'r Prif Unigolion, yn seiliedig ar wybodaeth gan unrhyw eiriolwr dynodedig a chan ystyried prosesau eraill sydd ar waith, h.y. post-mortem, ymchwiliadau troseddol;

e) sicrhau bod cyswllt cychwynnol yn cael ei wneud wyneb yn wyneb (ond gan nodi'n glir bod gwahanol ffyrdd y gall y teulu a'r Prif Unigolion gyfrannu at yr Adolygiad e.e. yn ysgrifenedig, drwy gyfathrebu electronig) a chyflwyno'r daflen wybodaeth berthnasol (gweler y templed yn y Pecyn Cymorth;

f) sicrhau ymgysylltu a diweddariadau rheolaidd ar hynt y broses, drwy'r eiriolwr, gan gynnwys yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad terfynol;

g) egluro'n glir sut y caiff unrhyw wybodaeth a ddatgelir (gan gynnwys data personol) ei defnyddio ac a fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi;

h) egluro sut y mae eu gwybodaeth wedi helpu'r Adolygiad a sut y gallai helpu i atal eraill rhag dioddef;

i) rhannu fersiynau llawn a gorffenedig o Adroddiadau'r Adolygiad â'r teulu cyn iddynt gael eu cwblhau'n derfynol. Dylai Byrddau Diogelu sicrhau bod y teulu'n cael digon o amser i ystyried a phrosesu'r Adroddiad, nodi a oes unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys yn anghywir a chofnodi unrhyw feysydd y maent yn anghytuno â hwy. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys llunio ffurflen ymgymeriad i sicrhau cyfrinachedd Adolygiad sydd heb ei gyhoeddi;

j) cadw cysylltiad rhesymol â'r teulu a'r Prif Unigolion, drwy eiriolwr dynodedig os yw hynny'n briodol, hyd yn oed os ydynt yn gwrthod cymryd rhan yn y broses adolygu.

Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau, wedi cael ei asesu ac yn barod i'w gyhoeddi. Dylid rhoi gwybod iddynt hefyd am ganlyniadau posibl cyhoeddi, h.y. sylw'r cyfryngau a diddordeb o'r newydd yn y lladdiad. Dylai'r Bwrdd Diogelu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sicrhau bod y teulu a'r Prif Unigolion yn cael gweld unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau yn llawn a dylent fod yn ymwybodol o'r angen i ystyried dyddiadau allweddol fel pen-blwyddi a dyddiadau arwyddocaol eraill;

k) gwahodd y teulu a'r Prif Unigolion i drafod yr argymhellion a sut y bwriedir eu gweithredu ar ôl i'r Adolygiad ddod i ben.

**7.20** Dylai'r Panel Adolygu ystyried cysylltu â theulu'r cyflawnwr a/neu'r cyflawnwr honedig oherwydd gallai fod ganddynt hwy wybodaeth berthnasol i'w chynnig hefyd. Dylai Cadeirydd y Panel Adolygu fod yn ymwybodol y gallai'r cyflawnwr honedig neu aelodau o deulu'r cyflawnwr honedig, mewn rhai achosion, beri risg parhaus o drais i deulu neu ffrindiau testun yr Adolygiad, neu i'r gwrthwyneb. Os oes pryder y gallai fod risg ddybryd o niwed corfforol i unrhyw unigolyn/unigolion hysbys, dylent gysylltu â'r heddlu ar unwaith fel y gellir cymryd camau i sicrhau diogelwch.

**7.21** Dylai'r Adolygydd/Adolygwyr gysylltu hefyd â rhwydweithiau eraill y gallai testun yr Adolygiad a'r cyflawnwyr honedig fod wedi datgelu gwybodaeth berthnasol iddynt; er enghraifft, cyflogwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr proffesiynol lleol ym maes atal trais domestig, neu asiantaethau gwasanaethau cam-drin domestig lleol.

## Pan fo Lladdiad ar sail "Anrhydedd" (neu hunanladdiad cysylltiedig) wedi digwydd

**7.22** Rhaid i Laddiadau ar sail "Anrhydedd", achosion lle'r amheuir bod dioddefwyr wedi cyflawni hunanladdiad, a cham-drin posibl ar sail "anrhydedd", ystyried lefel bosibl cyfranogiad ac ymgysylltiad y teuluoedd yn y farwolaeth neu'r marwolaethau dan sylw. Mewn adolygiadau o'r fath, rhaid i'r Panel Adolygu nodi'r risgiau o ymgysylltu neu o geisio ymgysylltu ag aelodau'r teulu, y gymuned neu staff mewn asiantaethau penodol. Gall nodi'r risgiau hyn helpu i leihau effaith andwyol hyn ar yr ADUS, oherwydd y cam-drin ar sail anrhydedd a'r orfodaeth a brofwyd gan destun yr Adolygiad. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd gan aelodau'r Panel Adolygu fawr o brofiad, os o gwbl, o gyflwyno dealltwriaeth o amrywiaeth a chroestoriadedd i broses yr Adolygiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Cadeirydd y Panel Adolygu geisio arbenigedd gan weithwyr proffesiynol arweiniol annibynnol a/neu asiantaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS.

**7.23** Yn achos trais ar sail anrhydedd a lladdiadau ar sail anrhydedd, mae'r cyflawnwyr/cyflawnwyr honedig yn aml yn ceisio cyfiawnhau'r lladdiad drwy honni bod eu gweithredoedd yn cynnal safonau diwylliannol a moesol a arddelir gan y teulu. O ganlyniad, mae angen i'r Panel Adolygu roi sicrwydd a hyder i'r broses, gan gynnwys gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig hyn ar ôl marwolaeth sy'n ymwneud â lladdiad ar sail anrhydedd. Gall hunanladdiad lle mae testun yr Adolygiad wedi bod yn destun arferion diwylliannol niweidiol eraill, megis anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod, hefyd fod angen cymorth arbenigol er mwyn i'r Adolygydd/Adolygydd ac aelodau'r Panel Adolygu ddeall sut y gallai'r holl fathau o VAWDASV fod wedi cyfrannu at

farwolaeth yr unigolyn. Mewn llawer o achosion mae'r arferion diwylliannol niweidiol hyn yn gydgysylltiedig; er enghraifft, gallai dianc rhag priodas dan orfod lle mae cam-drin yn digwydd arwain at ganfyddiad o ddiffyg anrhydedd.

**7.24** Bydd angen bod yn arbennig o ofalus ynghylch cyfrinachedd wrth weithio gydag aelodau o asiantaethau a chyfieithwyr a allai fod â chysylltiadau â'r teulu, sef y cyflawnwyr a/neu'r cyflawnwyr honedig mewn rhai achosion. Bydd angen gofal ychwanegol hefyd wrth ystyried lefel cyfranogiad aelodau'r teulu a dylid ystyried hyn yn ofalus gan ymgynghori ag ymarferydd ag arbenigedd yn y maes hwn, er enghraifft, sefydliad arbenigol Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, neu arbenigedd diwylliannol annibynnol perthnasol sy'n berthnasol i'r gymuned.

## Pan fo Lladdiad ag Arf Ymosodol wedi digwydd

**7.25** Dylai'r Panel Adolygu roi sylw i adran 4 o'r canllawiau statudol ar Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol[53] wrth ystyried ymgysylltu â'r teulu a'r Prif Unigolion mewn perthynas â Lladdiad ag Arf Ymosodol.

**7.26** Er y penderfynir ar gwmpas a chylch gorchwyl yr Adolygiad drwy drafodaeth rhwng y partneriaid Adolygu perthnasol a'r Grŵp Adolygu Achosion/Panel Adolygu, gallai fod yn addas i nifer o unigolion gymryd rhan yn y broses Lladdiad ag Arf Ymosodol y tu allan i'r partneriaid lleol/cyrff priodol perthnasol. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gallai cynnwys teulu a ffrindiau yn y broses gyflwyno elfen o gymhlethdod a her o ystyried sensitifrwydd yr achos, yn enwedig os yw'r Adolygiad yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag unrhyw ymchwiliadau ac achosion troseddol. Gallai aelodau o deulu a ffrindiau testun yr Adolygiad fod yn gysylltiedig â'r lladdiad neu gallent fod yn dystion neu'n agored i niwed ac yn wynebu risg eu hunain. Fan leiaf, dylid cysylltu â theulu/perthynas agosaf testun yr Adolygiad fel rhan o'r broses adolygu ffurfiol a chyda cytundeb Uwch-swyddog Ymchwilio yr heddlu, i osgoi tanseilio uniondeb yr ymchwiliad neu'r achos. Dylid hefyd ystyried ymgysylltu â theulu'r cyflawnwr/cyflawnwyr honedig yn ogystal â ffrindiau a chynrychiolwyr o rwydweithiau cymorth ehangach os bernir bod hynny'n briodol. Dylid cysylltu â'r unigolion hyn drwy gytundeb/awgrym y teulu/perthynas agosaf lle bo modd, a chyda cytundeb Uwch-swyddog Ymchwilio yr heddlu sy'n ymchwilio i'r farwolaeth. O ran y teulu neu bobl eraill sydd â chysylltiad â'r cyflawnwr/cyflawnwyr honedig, dim ond ar ôl iddynt gael eu cyhuddo'n ffurfiol y byddai'n briodol ymgysylltu â hwy.

**7.27** Y tri phwynt allweddol ar gyfer ymgysylltu ag aelodau teulu a/neu berthynas agosaf testun yr Adolygiad yn ystod Lladdiad ag Arf ymosodol fyddai:

- pan wnaed penderfyniad i gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl;
- i ofyn i'r teulu a ydynt am gyfrannu neu fewnbynnu i'r Adolygiad;
- ar ôl cwblhau'r Adroddiad terfynol.

**7.28** Efallai na fydd aelodau teulu a/neu berthynas agosaf testun yr Adolygiad yn barod i fod yn rhan o'r broses. Yn y sefyllfaoedd hyn, os bydd y teulu neu'r perthynas agosaf yn ymateb ac yn gofyn am fwy o amser cyn iddynt deimlo'n barod i gymryd rhan, dylai'r Adolygydd ystyried beth sy'n gyfnod addas o amser cyn y byddai'n briodol cysylltu â hwy eto. Os oes eiriolwr gan y teulu a/neu'r perthynas agosaf, efallai y byddai'r unigolyn hwnnw yn gallu rhoi cyngor o ran yr hyn a fyddai'n gyfnod addas.

53 Adran 4 **Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol – Canllaw Statudol 2023**

**7.29** O ran rhoi copi o'r Adroddiad drafft i'r aelod teulu a/neu'r perthynas agosaf, bydd angen ystyried a oes angen cuddio unrhyw gynnwys i sicrhau na fydd unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei datgelu a allai danseilio unrhyw achos troseddol neu achos llys sydd ar y gweill. Dylid rhannu fersiynau cyflawn a therfynol o'r Adroddiadau Adolygu gyda'r teulu cyn eu hanfon at Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref. Dylai Byrddau Diogelu sicrhau y rhoddir digon o amser i'r teulu a'r Prif Unigolion ystyried yr Adroddiad, canfod a oes unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys yn anghywir a chofnodi unrhyw beth y maent yn anghytuno ag ef. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys llunio ffurflen ymgymeriad ysgrifenedig sicrhau cyfrinachedd adolygiad sydd heb ei gyhoeddi.

**7.30** Ar ôl i'r aelod o'r teulu a'r Prif Unigolion gael copi o'r Adroddiad drafft, efallai y byddant yn gofyn am fwy o amser i'w ddarllen yn llawn. Dylid ystyried ceisiadau o'r fath, ond dylid cytuno ar ddyddiad terfyn clir gyda'r aelod o'r teulu a'r Prif Unigolion oherwydd yr angen i gwblhau'r Adroddiad a'i gyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref i'w gyhoeddi.

# 8. Cynnal yr Adolygiad

**8.1** Unwaith y bydd atgyfeiriad ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) wedi'i wneud, rhaid i'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Adolygu Achosion, cyn gynted â phosibl, i'w ystyried. Ni ddylai'r broses adolygu (llunio adroddiad terfynol) gymryd mwy na 12 mis o ddyddiad yr atgyfeiriad i Grŵp Adolygu Achosion y Bwrdd Diogelu. Rhaid i'r Bwrdd Diogelu ddarparu adroddiad diweddaru i'r Hwb Cydgysylltu ar hynt y broses, a nodi a fydd yr Adolygiad yn cymryd mwy na 12 mis, gan roi'r rhesymau pam a'r dyddiad gorffen arfaethedig.

**8.2** Mae gan ADUS sawl cam y mae angen ei gynnal fel rhan o'r broses gyffredinol. Amlinellir y rhain isod yn eu trefn gronolegol.

## Llinellau Amser Asiantaethau

**8.3** Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr yn gyfrifol am baratoi Llinell Amser gyda'r asiantaethau sy'n rhan o'r Adolygiad. Mae hyn yn golygu paratoi llinell amser o'r digwyddiadau ym mywyd y plentyn a/neu'r oedolyn sy'n destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion, y dylid eu hadolygu i ystyried amgylchiadau'r digwyddiad. Lle bo hynny'n briodol, dylid rhoi ystyriaeth i'r cyflawnwyr/y cyflawnwyr honedig yn y llinell amser. Rhaid i'r Llinell Amser Asiantaethau ystyried:

- pa mor bell yn ôl y dylai'r llinell amser fynd;
- pa asiantaethau y dylid eu gwahodd i gyfrannu at y llinell amser;
- beth yw'r pwynt terfyn priodol;
- pa hanes/gwybodaeth gefndirol a fydd yn helpu i ddeall yn well y digwyddiadau a arweiniodd at y digwyddiad.

**8.4** Diben cyffredinol yr ADUS yw nodi a dysgu gwersi. Rhaid i'r Panel Adolygu gadw hynny mewn cof wrth lunio Llinell Amser Asiantaethau. Er mwyn galluogi'r ADUS i archwilio lle gellir nodi dysgu, mae'n hanfodol i'r Panel Adolygu ystyried, fesul achos, pa mor bell yn ôl y mae angen i'r asiantaethau fynd er mwyn gweld lle mae'r wybodaeth, a fydd yn helpu i wella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae angen i'r Panel Adolygu benderfynu beth sy'n berthnasol ac yn gymwys i'r achos a pha wersi sy'n deillio ohono er mwyn gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr yn herio'r llinell amser i sicrhau y defnyddir yr wybodaeth briodol i ymdrin â'r cyfnodau allweddol o bryder.

**8.5** Mae profiad blaenorol o gwblhau Adolygiadau Achosion Difrifol (a ddisodlwyd yng Nghymru yn 2014 gan Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant) wedi dangos y gall mynd yn ôl flynyddoedd lawer fod yn aneffeithiol ac aneffeithlon pan fo prosesau, polisïau ac, yn wir, pobl wedi newid. Mae angen ystyried hyn yn ofalus ar ddechrau pob Adolygiad a dylai'r Adolygydd ei gadw mewn cof yn ystod y broses.

**8.6** Mae arferion gorau yng Nghymru wedi dangos y dylai'r Panel Adolygu, yn y lle cyntaf, ystyried y 12 mis cyntaf cyn y digwyddiad. Os bernir bod hynny'n gyfiawn, yn gymesur, ac yn angenrheidiol, gellir estyn hyn hyd at ddwy flynedd os yw'r Panel Adolygu o'r farn bod yr estyniad yn golygu bod ymarfer cyfredol yn berthnasol ac y gellir sicrhau dysgu. Mae'n bosibl y bydd achosion lle bydd y Panel Adolygu yn penderfynu ystyried digwyddiadau arwyddocaol y tu hwnt i ddwy flynedd. Dylid cofnodi'r digwyddiadau hyn fel gwybodaeth gyd-destunol yn yr adran berthnasol yn nhempled yr Adroddiad ADUS.

**8.7** Gellir estyn y Llinell Amser i gynnwys penderfyniadau a chamau gweithredu yn dilyn y digwyddiad hefyd, os oes modd nodi dysgu proffesiynol, sefydliadol neu ryngasiantaethol.

**8.8** Os oes gwybodaeth gefndirol arwyddocaol neu ddigwyddiad blaenorol, rhaid cynnwys hyn yn y dadansoddiad byr sy'n cyd-fynd â'r Llinell Amser. Mae hanes teuluol a/neu gyd-destun y farwolaeth ei hun yn hanfodol bwysig ond y mater tyngedfennol mewn Adolygiad yw pwy oedd yn gyfarwydd â hanes y teulu, sut y cafodd ei rannu o fewn y rhwydwaith proffesiynol a sut y cafodd ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar y pryd.

**8.9** Os na fu unrhyw gyswllt rhwng asiantaeth a thestun yr Adolygiad cyn y digwyddiad, dylid cynnwys y rhesymau dros hyn wrth bwyso a mesur a ddylai'r Grŵp Adolygu Achosion gynnal ADUS. Os cynigir peidio â chynnal ADUS, argymhellir cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (gweler **Adran 9** i gael rhagor o wybodaeth) er mwyn dal unrhyw beth sydd i'w ddysgu o'r achos. Yn achos Lladdiad Domestig, dylai'r Bwrdd Diogelu anfon unrhyw ganfyddiadau gan y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol, ochr yn ochr â'r templed gorffenedig, ar gyfer peidio â chynnal Adolygiad, i'r Swyddfa Gartref yn ogystal ag i'r Hwb Cydgysylltu.

**8.10** Dylai'r Panel Adolygu baratoi genogram llawn a chywir (caiff hwn ei alw hefyd yn Rhwydwaith Cyswllt Teulu yng ngwasanaeth yr heddlu) fel modd o egluro perthnasoedd teuluol. Dylid ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu â'r Adolygydd/Adolygwyr a dylai fod ar gael i gyfeirio ato ar bob cam o'r broses adolygu. Dylid anfon y genogram fel atodiad i'r Adroddiad i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref mewn achosion o Laddiad Domestig neu i'r Bwrdd Goruchwylio Lladdiadau ag Arfau Ymosodol mewn achosion o Laddiad ag Arf Ymosodol.

**8.11** Bydd angen i bob asiantaeth ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r Panel Adolygu am ei hymwneud â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr Adolygiad a/neu eu teuluoedd a'r Prif Unigolion lle bo hynny'n briodol. Dylid hefyd ystyried darparu gwybodaeth am ymwneud asiantaeth ag unrhyw gyflawnwyr/cyflawnwyr honedig, lle bo hynny'n berthnasol.

**8.12** Bydd y Panel Adolygu'n cynhyrchu Llinell Amser gyfun o ddigwyddiadau arwyddocaol ar sail Llinellau Amser asiantaethau unigol. Yna bydd y Llinell Amser gyfun, y genogram a dadansoddiadau byr yr asiantaethau yn cael eu defnyddio gan Aelodau'r Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr i ddatblygu cwestiynau a syniadau am yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos. Bydd y ddealltwriaeth gychwynnol hon yn llywio'r gwaith o baratoi Digwyddiad Dysgu ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr llinell i brofi ac archwilio ymhellach faterion yn ymwneud ag ymarfer gweithredol. Bydd gan yr Adolygydd/Adolygwyr fynediad at ddogfennau a deunydd ysgrifenedig perthnasol arall a byddant yn eu darllen, fel y bo'n briodol. Yn ystod y drafodaeth, gall materion godi sydd angen eglurhad a bydd y Panel Adolygu yn gofyn i wasanaethau ymateb; gellir diwygio neu estyn Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o ganlyniad i hynny.

**8.13** Ar unrhyw adeg yn ystod cynnal Adolygiad, gall y Panel Adolygu a/neu'r Adolygydd/Adolygwyr ddod i'r casgliad, o ddadansoddi Llinellau Amser neu ffynonellau eraill, nad yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS neu na ellir ei gynnal fel y nodir yn y Canllawiau Statudol, (ar gyfer Lladdiad ar Arf ymosodol dim ond yn unol ag adrannau 24 a 27 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 y gellir gwneud y penderfyniad hwn 2022[54]). Dylai hyn arwain at gynnig i derfynu'r ADUS. Mae'r broses o derfynu yn cynnwys:

- cytundeb gan y Panel Adolygu;
- Adroddiad Terfynu (gweler y Pecyn Cymorth ar gyfer templed) sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu;
- cymeradwyaeth Cadeirydd y Bwrdd Diogelu;
- hysbysu'r Hwb Cydgysylltu;
- cytundeb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol a'r Swyddfa Gartref mewn achosion o Laddiad Domestig;
- hysbysu Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref mewn achosion o Laddiad ag Arf Ymosodol.

**8.14** Bydd angen i'r Adroddiad Terfynu nodi'r rhesymau dros derfynu'r Adolygiad a pha gamau amgen sy'n cael eu cynnig i alluogi dysgu.

## Creu Digwyddiad Dysgu

**8.15** Mae dysgu yn ganolog i'r broses ADUS. Mae'r diagram llif isod (Ffigur 6) yn nodi'r camau pan fo'n rhaid rhannu'r hyn a ddysgwyd (gweler **Adran 9** i gael rhagor o fanylion am y camau cychwynnol). Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y Digwyddiad Dysgu.

**8.16** Digwyddiad Dysgu: Bydd yr Adolygydd/Adolygwyr a'r Panel Adolygu yn cychwyn Digwyddiad Dysgu ar ôl i'r Llinell Amser Asiantaethau gael ei chwblhau. Mae'r Digwyddiad Dysgu yn dwyn ynghyd yr holl ymarferwyr sydd wedi ymwneud â'r achos fel y gallant rannu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi digwydd a nodi pwyntiau dysgu allweddol.

**8.17** Mae'r Digwyddiad Dysgu yn rhan hanfodol o'r Adolygiad gan ei fod yn sicrhau:

- bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr Adolygiad;
- y gall ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu yn ystod y digwyddiad, gydag ymarferwyr eraill sydd wedi gweithio gyda thestun yr Adolygiadau a'u teulu;
- bod ymarferwyr yn gallu myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd a nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

**8.18** Mae'n hanfodol felly bod y rhai sy'n ymwneud â'r Digwyddiad Dysgu yn paratoi'n drylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu mewn modd ystyrlon.

**8.19** Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol yn y Digwyddiad Dysgu os gofynnir iddynt. Os bydd ymarferydd yn gadael sefydliad cyn Digwyddiad Dysgu, ni ddylai hynny ei atal rhag bod yn bresennol, yn enwedig os gall gyfrannu'n effeithiol at y drafodaeth. Dylai'r Panel Adolygu feddwl yn greadigol am sut y gellir cynnwys ymarferwyr a rheolwyr llinell perthnasol yn yr Adolygiad. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn briodol cynnal mwy nag un Digwyddiad Dysgu er mwyn sicrhau bod staff allweddol yn gallu cyfrannu at y broses ddysgu. Mae aelodau'r Panel Adolygu'n gyfrifol am baratoi a dadfriffio'r mynychwyr i roi cymorth i'r Adolygydd/Adolygwyr wrth gynnal Digwyddiad Dysgu effeithiol.

54 Adrannau 24 a 27. **Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022**

**8.20** Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu yn mynd i'r Digwyddiad Dysgu ar ran y Panel Adolygu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â'r cwestiynau a'r materion a nodwyd gan y Panel Adolygu.

**8.21** Ar ddiwedd y Digwyddiad Dysgu, bydd yr Adolygydd/Adolygwyr ar y cyd â'r ymarferwyr yn nodi materion unigol a rhyngasiantaethol a phwyntiau dysgu ymarfer i'w hystyried a'u trafod ymhellach gan y Panel Adolygu a, phan fo angen dysgu'n ehangach, yr Hwb Cydgysylltu.

## Llunio Adroddiad Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**8.22** Yn dilyn y Digwyddiad Dysgu, mae'r Adolygydd/Adolygwyr, mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Diogelu, yn gyfrifol am goladu a chyfuno'r dysgu a nodwyd hyd yn hyn i'w drafod â'r Panel Adolygu ar ffurf Adroddiad drafft, gan ddefnyddio'r templed adroddiad ADUS y cytunwyd arno. Mae'r Adolygydd/Adolygwyr yn gyfrifol hefyd am gadarnhau bod y broses ddysgu wedi'i chynnal yn unol â'r canllawiau statudol.

**8.23** Rhaid i'r Adroddiad ADUS:

- fod yn gryno a chanolbwyntio ar wella ymarfer;
- cynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad;
- sicrhau nad yw'r Adroddiad yn datgelu pwy yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr Adolygiad, eu teuluoedd a'r Prif Unigolion, nac yn datgelu eu lleoliad;
- cynnwys unrhyw ddysgu o ran ymarfer a'r dysgu sefydliadol a nodwyd yn ystod yr Adolygiad, gan gynnwys tynnu sylw at arferion da, ac ystyriaethau ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud yn wahanol er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol;
- nodi'r camau a fydd yn arwain at welliannau mewn systemau ac ymarfer. Dylai'r rhain fod yn benodol ac yn ymarferol, a dylent fod â chanlyniadau disgwyliedig sydd wedi'u diffinio'n glir;
- ar ôl cael ei gwblhau, cael ei gyhoeddi am gyfnod o 12 wythnos o leiaf;
- cael ei gynnwys yn ffurflen gyflwyno Storfa Ddiogelu Cymru i'w gynnwys yn y Storfa (gweler **paragraff 8.31** i gael rhagor o wybodaeth).

**8.24** Mae cyfarfodydd rhwng yr Adolygydd/Adolygwyr a'r Panel Adolygu yn gyfle am her broffesiynol sy'n rhoi sicrwydd ansawdd. Gellir edrych o'r newydd ar faterion ymarfer a nodwyd yn wreiddiol gan y Panel Adolygu yng ngoleuni canfyddiadau'r Adolygydd/Adolygwyr a'r Digwyddiad Dysgu, a gallai fod materion a nodwyd sydd angen eglurhad pellach gydag ymarferwyr, rheolwyr neu'r Panel Adolygu. Unwaith y cytunir arno, bydd yr Adroddiad drafft a Chynllun Gweithredu amlinellol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Diogelu (a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pan fydd lladdiad domestig wedi digwydd, neu pan fernir fel arall fod hynny'n berthnasol). Dylid dileu'r holl ddynodwyr personol (e.e. enwau, dyddiadau geni, cyfeiriad etc.) o Adroddiad yr Adolygiad. Mae'n bwysig defnyddio templed adroddiad ADUS fel y gellir ei godio i'w gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru.

**8.25** Bydd y Panel Adolygu yn gyfrifol am lunio crynodeb o'r Llinell Amser Asiantaethau gyfun. Rhaid dileu'r holl ddynodwyr personol o'r Llinell Amser, ei chynnwys yn yr Adroddiad terfynol i'w gyhoeddi, a'i rhannu â'r Hwb Cydgysylltu.

## Cyflwyno'r Adroddiad i'r Bwrdd Diogelu (a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lle bo hynny'n briodol)

**8.26** Rhaid i gadeirydd y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr gyflwyno'r Adroddiad ADUS drafft a Chynllun Gweithredu amlinellol i'r Bwrdd Diogelu. Mae cyflwyno'r Adroddiad yn ffordd bwysig i'r Bwrdd Diogelu allu cynnal perthynas agos ag ymarfer. Bydd angen i'r Adolygydd/Adolygwyr dywys y Bwrdd Diogelu drwy fanylion y Llinell Amser Asiantaethau yn ogystal ag unrhyw faterion ymarfer a sefydliadol sy'n codi o'r Adolygiad. Rôl y Bwrdd Diogelu yw ymgysylltu a chyfrannu at y gwaith o ddadansoddi materion achos, darparu her briodol a sicrhau y gellir defnyddio'r dysgu o'r Adolygiad i lywio datblygiad systemau ac ymarfer.

**8.27** Gall y Bwrdd Diogelu nodi materion dysgu ychwanegol neu gamau gweithredu sydd o bwysigrwydd strategol i asiantaethau unigol neu sy'n gyfrifoldeb cyfunol i'r Bwrdd Diogelu. Rhaid i'r rhain gael eu cynnwys yn yr adroddiad ADUS terfynol ac yn y Cynllun Gweithredu, fel y bo'n briodol.

**8.28** Yna bydd y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr yn cwblhau'r Adroddiad ADUS terfynol i adlewyrchu'r ystod o ddysgu a nodwyd. Mae gan y Bwrdd Diogelu gyfrifoldeb am dderbyn yr Adroddiad, gan wneud argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu, a darparu cyfarwyddyd ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu arfaethedig. Y Cadeirydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am dderbyn yr Adroddiad terfynol. Bydd rhaid i'r Cadeirydd gysylltu â'r Swyddfa Gartref cyn cwblhau'r adroddiad o dan yr amgylchiadau canlynol:

- yn achos Lladdiad Domestig bydd rhaid i Gadeirydd y Bwrdd gysylltu â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol briodol ac anfon yr adroddiad ymlaen at Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ac aros am gymeradwyaeth ffurfiol;
- bydd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sy'n cynnwys Lladdiad ag Arf Ymosodol yn cael ei anfon gan y Bwrdd Diogelu at Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref. Bydd yn cael ei roi yn Storfa Ddiogelu Cymru a'i gyhoeddi gan y Byrddau Diogelu o fewn mis i'r dyddiad y bydd yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol, oni bai y ceir gwybod bod angen unrhyw ddiwygiadau cyn y dyddiad hwnnw.

**8.29** Bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cyflwyno'r Adroddiad i'r Hwb Cydgysylltu, a fydd yn ei anfon at arweinwyr polisi perthnasol, arolygiaethau, Comisiynwyr a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Bydd angen i'r Hwb Cydgysylltu gael yr Adroddiad o leiaf bythefnos cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig a bennir gan y Bwrdd Diogelu. Fodd bynnag, ni ellir cwblhau'r Adroddiad os yw Lladdiad Domestig yn rhan o'r Adolygiad, a chyn i'r Adroddiad ADUS gael ei gyhoeddi rhaid ei anfon at Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. Bydd angen i'r Panel Sicrhau Ansawdd roi'r wedd derfynol ar yr adroddiad cyn iddo gael ei gyhoeddi a'i gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru. Ni fydd hyn yn achosi oedi yn y broses o ledaenu'r dysgu a nodwyd na'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Os bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn nodi dysgu neu argymhellion pellach, bydd hyn yn cael ei ymgorffori mewn Cynllun Gweithredu diwygiedig.

**8.30** Bydd Adroddiad terfynol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Diogelu (a phan fo'n berthnasol, gwefan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol) am o leiaf 12 wythnos. Yn dilyn y cyfnod cyhoeddi, bydd gwefan y Bwrdd Diogelu perthnasol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith fod copi o'r Adroddiad ar gael ar gais. Os yw'r Adroddiad yn ymwneud â Lladdiad Domestig, bydd y Bwrdd Diogelu yn anfon copi i'r Swyddfa Gartref a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Os yw'r Adroddiad yn ymwneud â Lladdiad ag Arf Ymosodol, bydd yn cael ei gyhoeddi gan Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref.

**8.31** Rhaid i'r Byrddau Diogelu (a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol pan fo lladdiad domestig wedi digwydd, neu yr ystyrir eu bod yn berthnasol fel arall) sicrhau bod pob Adroddiad yn cael ei rannu â'r Hwb Cydgysylltu'i gael ei gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru. I gwblhau'r broses hon rhaid i Fyrddau Diogelu ddychwelyd ffurflen gyflwyno Storfa Ddiogelu Cymru i'r Hwb Cydgysylltu. Bydd y ffurflen gyflwyno hon yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau ddarparu:

- rhif Cyfeirnod Adolygiad Diogelu Unedig Sengl unigryw (i'w ddarparu gan yr Hwb Cydgysylltu);
- adroddiad llawn yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a gyhoeddwyd;
- y Cynllun Gweithredu (gweler paragraffau 8.33 i 8.42);
- adran metadata Storfa Ddiogelu Cymru, a fydd yn darparu data meintiol hanfodol ar gyfer y Storfa. Rhaid ei gasglu'n ofalus o Adroddiad yr Adolygiad a gyhoeddwyd i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei ddal.

**8.32** Rhaid rhannu argymhellion o'r Adroddiad ADUS â threfniadau partneriaeth rhanbarthol eraill pan fo agweddau ar yr Adolygiad yn berthnasol i'w gwaith, fel y gellir gweithredu arnynt (gweler paragraffau 2.10 i 2.11).

## Cynllun Gweithredu

**8.33** Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu, y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr yn gyfrifol am baratoi Cynllun Gweithredu amlinellol, i gyd-fynd â'r Adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu ac i'w drafod ganddo (a chan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lle bo hynny'n berthnasol). Dylai'r Cynllun Gweithredu adlewyrchu'r dysgu a nodwyd yn yr Adroddiad, a chynnwys yr argymhellion, gan gynnwys arferion da pan fo hynny'n briodol. Gellir cyfeirio'r camau gweithredu at un asiantaeth neu mae'n bosibl y bydd angen iddynt gael eu gweithredu ar sail amlasiantaethol i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. Dylai'r Cynllun Gweithredu ganolbwyntio ar ganlyniadau a dylai nodi sut y bwriedir i gamau gweithredu wneud gwahaniaeth i systemau lleol ac ymarfer diogelu. Gweler canllawiau a thempled y Cynllun Gweithredu yn y **Pecyn Cymorth** – mae'n rhaid eu defnyddio.

**8.34** Bydd y Cynllun Gweithredu terfynol yn cael ei lunio gan y Panel Adolygu a'r Adolygydd/Adolygwyr a dylai adlewyrchu trafodaethau'r Bwrdd Diogelu. Dylai hyn fod o fewn pedair wythnos ar ôl i'r Bwrdd Diogelu drafod yr Adroddiad drafft a dylid ei anfon at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu i'w gymeradwyo gan yr asiantaethau sy'n bartneriaid. Mae templed Cynllun Gweithredu ADUS yn cynnwys statws RAG (coch, oren, gwyrdd) y bydd angen i'r Grŵp Adolygu Achosion a'r Bwrdd Diogelu barhau i'w ddiweddaru.

**8.35** Dylai'r Cynllun Gweithredu ganolbwyntio'n glir ar wella canlyniadau i blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg, a'u teuluoedd, ac ar nodi cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal. Yna dylid ei anfon i'r Hwb Cydgysylltu. Fodd bynnag, pan fo Lladdiad Domestig yn rhan o'r Adolygiad, rhaid i'r Cynllun Gweithredu gael ei ystyried i ddechrau gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref a bydd unrhyw ddiwygiadau a gynigir gan y Panel yn cael eu hystyried gan Gadeiryddion y Bwrdd Diogelu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu a'u hanfon i'r Hwb Cydgysylltu. Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn sicrhau bod unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol benodol, neu i bob un, yn cael eu cyfleu yn unol â hynny. Ar gyfer Lladdiadau ag Arfau Ymosodol, bydd y Byrddau Diogelu yn rhannu'r Cynllun Gweithredu Terfynol â'r Bwrdd Goruchwylio Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol.

**8.36** Mae Cynlluniau Gweithredu yn ganlyniad sylfaenol i'r broses adolygu a rhaid iddynt ystyried argymhellion yr Adroddiad. Bydd hyn yn arwain at welliannau mewn perthynas ag arferion diogelu ar draws pob asiantaeth a bydd yn cynorthwyo ymyrraeth gynnar ac atal. Rhaid i'r camau gweithredu:

- nodi'n benodol beth y dylid ei wneud, a hynny mewn modd clir a phendant;
- nodi'n glir y camau sy'n ofynnol ar gyfer ei weithredu, gan gynnwys amserlenni cwblhau a'r adnoddau angenrheidiol;
- nodi pwyntiau dysgu allweddol a sut y bydd y rhain yn cael eu rhannu â phartneriaid allweddol, er mwyn osgoi materion tebyg yn y dyfodol;
- nodi'r manteision i'r asiantaethau a'r partneriaid perthnasol;
- nodi pa broblemau fydd yn cael eu cywiro neu eu hosgoi;
- nodi pwy yw'r arweinydd/arweinwyr sy'n gyfrifol am weithredu pob un o'r camau.

**8.37** Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu, a bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Adolygu Achosion a'r Bwrdd Diogelu ac adroddiadau cynnydd yn cael eu hanfon i'r Hwb Cydgysylltu hyd nes y bydd yr amcanion a'r targedau wedi'u cyflawni. Pan fo'n briodol, bydd y teulu'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Diogelu am roi'r Cynllun Gweithredu ar waith . Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn gweithio gyda'r Byrddau Diogelu i ledaenu dysgu allweddol o'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r Grŵp Strategaeth, y Bwrdd Gweinidogol ac i staff lleol fel y bo'n briodol. Pan fydd ADUS yn cynnwys Lladdiad ag Arf Ymosodol, bydd yr adroddiadau cynnydd yn cael eu hanfon gan y Bwrdd Diogelu perthnasol at y Bwrdd Goruchwylio Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol.

**8.38** Bydd y Bwrdd Diogelu priodol a'r Hwb Cydgysylltu yn ystyried y pwyntiau dysgu hanfodol. Yn ogystal, bydd pwyntiau dysgu yn cael eu hymgorffori mewn unrhyw newidiadau i systemau gweithredu ac ymarfer, hyfforddiant a goruchwyliaeth. Bydd hyn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith a wneir yn y dyfodol gan y Bwrdd Diogelu a chan randdeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Rhaid llunio Sesiynau Briffio Saith Munud fel rhan o'r broses hon (mae templed enghreifftiol ar gael yn y **Pecyn Cymorth**).

**8.39** Dylai Cynlluniau Gweithredu arwain at welliannau mewn ymarfer diogelu, yn lleol ac ar lefel Cymru gyfan. Rhaid i'r Byrddau Diogelu (gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol lle bo hynny'n briodol) archwilio'r Cynlluniau Gweithredu i sicrhau eu bod yn cael

eu gweithredu a bod y camau gweithredu yn cyflawni'r effaith a'r canlyniadau a ddymunir. Rhaid i'r archwiliad ac unrhyw faterion sy'n codi yn ymwneud â gweithredu'r camau gweithredu gael eu hadrodd i'r Hwb Cydgysylltu. Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu (a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pan fo hynny'n briodol) i benderfynu a ellir mynd i'r afael â'r materion neu a ddylid eu huwchgyfeirio i'r Grŵp Strategaeth.

**8.40** Gall y Panel Adolygu a/neu'r Hwb Cydgysylltu ofyn i'r Adolygydd/Adolygwyr gynnal digwyddiad gyda grwpiau staff, naill ai i ledaenu'r hyn a ddysgwyd neu i olrhain yr effaith ar ymarfer yn sgil y newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddysgu o'r Adolygiad a gweithredu'r Cynllun Gweithredu.

**8.41** Bydd angen i'r Byrddau Diogelu gynnwys unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad yn rhaglen waith y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (gweler **paragraff 9.9** i gael rhagor o wybodaeth).

**8.42** Ar ôl cwblhau'r amcanion a'r camau gweithredu, bydd angen i'r Cynllun Gweithredu gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu a'i anfon i'r Hwb Cydgysylltu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys mewn Digwyddiadau Dysgu yn y dyfodol ar lefel Cymru gyfan.


## Ffurflen Fyfyrio'r Adolygiad

**8.43** Rhaid i Gadeiryddion Paneli Adolygu ac Adolygwyr lenwi ffurflen fyfyrio Adolygiad Diogelu Unedig Sengl o fewn pythefnos ar ôl i Adroddiad yr Adolygiad gael ei gwblhau gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu (gweler y **Pecyn Cymorth**). Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi cyfle i Gadeiryddion ac Adolygwyr fyfyrio ar broses yr Adolygiad; yr hyn a aeth yn dda, yr hyn nad aeth mor dda â'r disgwyl, ac i nodi unrhyw welliannau i'r broses neu fylchau/cyfleoedd o ran dysgu i'r rhai a oedd yn rhan o gynnal yr Adolygiad. Bydd y ffurflenni wedi'i cwblhau yn cael eu hanfon i'r Hwb Cydgysylltu. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i hysbysu ac, o bosibl, i fireinio'r broses adolygu. Pan fo hynny'n berthnasol, dylai Adolygwyr gynnwys unrhyw sylwadau neu adborth gan y teulu neu'r gymuned a oedd yn rhan o'r Adolygiad. Gellir gwneud hyn yn ystod unrhyw sesiynau ôl-drafod a gynhelir gyda'r teulu neu'r gymuned.

Ffigur 6

**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**
**Single Unified Safeguarding Review**

## Cyfleoedd Dysgu ADUS gan ddefnyddio Storfa Ddiogelu Cymru




*Gweler Adran 7 o'r canllawiau hyn i gael rhagor o wybodaeth a chyfeiriad at y Siart Llif Ymgysylltu

# 9. Lledaenu dysgu gan ddefnyddio'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**9.1** Mae lledaenu dysgu yn elfen allweddol o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac yn rhwymedigaeth reoliadol a statudol i Fyrddau Diogelu[55] aa Phartneriaethau Diogelwch Rhanbarthol[56]. Yr ethos y tu ôl i'r broses ADUS yw sicrhau bod yr holl ddysgu'n cael ei ymgorffori yn ymarfer y dyfodol er mwyn, yn y pen draw, atal digwyddiadau tebyg eto. I wneud hyn, mae'r ADUS wedi'i greu er mwyn sicrhau, pan gynhelir adolygiadau, bod dysgu ehangach a dyfnach yn cael ei gyflawni sy'n cael ei ymgorffori ym mhob sefydliad er mwyn gweithredu newidiadau cadarnhaol. Bydd hyn yn cael ei gryfhau ymhellach drwy'r canlynol:

- Storfa Ddiogelu Cymru a gaiff ei defnyddio'n adnodd i lywio adolygiadau, canlyniadau, ac ymarfer yn y dyfodol;
- lledaenu'r dysgu hwn drwy'r Byrddau Diogelu a'r Hwb Cydgysylltu.

**9.2** Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn allweddol wrth ledaenu dysgu ledled Cymru. Bydd yn monitro ac yn adolygu'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ac yn helpu i chwalu unrhyw rwystrau sy'n codi yn ystod y broses weithredu.

**9.3** Er mwyn sicrhau bod dysgu'n cael ei ledaenu a bod Cynlluniau Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, bydd y Byrddau Diogelu a'r Hwb Cydgysylltu yn llunio Adroddiadau Diweddaru (gweler y Pecyn Cymorth ar gyfer templed yr Adroddiad Diweddaru). Bydd y rhain yn crynhoi'r dysgu a gyflawnwyd ac unrhyw feysydd y mae angen eu huwchgyfeirio ymhellach. Bydd yr Adroddiadau Diweddaru yn cael eu cyflwyno i'r Byrddau Diogelu, Grŵp Strategaeth ADUS ac, os oes angen, eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Gweinidogol os nodwyd rhwystrau.

## Rôl Storfa Ddiogelu Cymru mewn Dysgu Sylfaenol, Canol Tymor ac ar ôl Adolygiad

**9.4** Mae gan Storfa Ddiogelu Cymru rôl allweddol o ran lledaenu dysgu ar lefel Cymru gyfan. Ynghyd ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau Domestig y gorffennol, bydd pob Adroddiad AD yn cael ei godio a'i storio yn Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd rhanddeiliaid perthnasol yn cael mynediad at y Storfa fel y gallant lwytho Adolygiadau a chwilio amdanynt. Mae Storfa Ddiogelu Cymru yn system unigryw sy'n defnyddio methodolegau gwyddor gymdeithasol a chyfrifiadureg, fel cloddio am destun a thechnegau dysgu peirianyddol, i alluogi'r defnyddiwr i echdynnu dysgu newydd.

55 Rheoliad 3. **Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015**
56 Adran 6. **Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

**9.5** Fel y gwelir yn y Siart Lif Dysgu (**Ffigur 6**) yn **Adran 8**, mae Storfa Ddiogelu Cymru yn galluogi ymarferwyr i chwilio am Ddysgu Sylfaenol. Bydd angen i Gadeiryddion Paneli Adolygu ac Adolygwyr ddefnyddio'r Storfa i chwilio am argymhellion o unrhyw achosion blaenorol tebyg, a nodi'r argymhellion hynny, cyn dechrau ar eu Hadolygiad hwy. Yna gellir barnu a gafodd yr argymhellion hyn eu gweithredu neu a oes angen tynnu sylw atynt eto. Pan fydd y Panel Adolygu yn sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad, dylid ystyried unrhyw argymhellion blaenorol o adolygiadau cymaradwy eraill.

**9.6** Os nodir unrhyw ddysgu canol tymor brys yn ystod y broses adolygu, gall ymarferwyr weithredu unrhyw newidiadau ar unwaith o ganlyniad i'r dysgu hwn cyn cwblhau'r Adolygiad. Os felly, rhaid i'r Panel Adolygu rannu'r dysgu hwn â'r Bwrdd Diogelu a'r Hwb Cydgysylltu i'w ledaenu ymhellach. Bydd hyn yn sicrhau y gellir lledaenu a gweithredu unrhyw ddysgu pwysig yn ddi-oed. Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn rhannu'r dysgu hwn ar lefel Cymru gyfan neu'n ehangach lle bo hynny'n berthnasol.

**9.7** Gall yr Hwb Cydgysylltu a phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gael mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru i chwilio am themâu a'u nodi i sicrhau gwell dealltwriaeth o ddigwyddiadau yng Nghymru. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhannu â'r holl sefydliadau perthnasol yng Nghymru ac yn cael eu defnyddio i sefydlu arferion da. Un cyfrwng yn unig yw Storfa Ddiogelu Cymru, y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr ag adnoddau ymchwil eraill i nodi arferion da. Mae Ffigur 7 isod yn dangos allbynnau Storfa Ddiogelu Cymru ochr yn ochr ag allbynnau'r Hwb Cydgysylltu

## Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth Thematig ddwywaith y flwyddyn


**9.8** Mae digwyddiadau lledaenu gwybodaeth ddwywaith y flwyddyn yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu. Byddant yn cynnig dull cadarnhaol o ddysgu, gyda diwylliant o beidio â bwrw bai.

**9.9** Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cydgysylltu a'u trefnu gan yr Hwb Cydgysylltu gan drafod â'r Byrddau Diogelu, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phartneriaid allweddol eraill. Byddant yn cael eu cynnal ar sail Cymru gyfan. Defnyddir Storfa Ddiogelu Cymru i helpu i benderfynu ar themâu perthnasol i'w trafod.

Ffigur 7

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

## Allbynnau Storfa Ddiogelu Cymru a Hwb Cydgysylltu ADUS



## Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol

**9.10** Mae fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn fecanwaith ar gyfer cynhyrchu dysgu sefydliadol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion yn ddiogel. Yn unol â rheoliad 3(2)(i)[57], mae'n ofynnol i'r Byrddau Diogelu drefnu a hwyluso rhaglen flynyddol o Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol. Gellir eu cynnull i archwilio cyfleoedd dysgu mewn achosion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cwblhau ADUS. Maent yn defnyddio gwybodaeth am achosion, canfyddiadau archwiliadau diogelu, arolygiadau, adolygiadau, a mathau eraill o ddysgu sy'n deillio o Storfa Ddiogelu Cymru i ddatblygu a lledaenu dysgu er mwyn gwella gwybodaeth ac ymarfer lleol, ac i lywio blaenoriaethau archwilio a hyfforddi'r Bwrdd Diogelu yn y dyfodol.

**9.11** Diffinnir Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[58] fel:

> "Fforymau, a drefnir ac a hwylusir gan Fwrdd ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr o gyrff cynrychioliadol, a chyrff neu bersonau eraill y bernir eu bod yn berthnasol gan Gadeirydd y Bwrdd, at y diben o ddysgu oddi wrth achosion, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau er mwyn gwella polisi ac ymarfer amddiffyn plant neu oedolion yn y dyfodol."

**9.12** Gall y dull hwn gael ei estyn i gynnwys Lladdiadau Domestig, Lladdiadau ag Arfau Ymosodol a Lladdiadau Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, rhagwelir, pan fydd lladdiad yn rhan o'r achos, y bydd y meini prawf ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn debygol iawn o gael eu bodloni.

**9.13** Dylai pob Bwrdd Diogelu sefydlu Fforymau fel rhaglen barhaus o ddysgu gweithredol ac maent yn rhan annatod o Gynllun Busnes y Bwrdd.

**9.14** Mae dau brif ddiben i'r Fforymau:

a) **Dysgu o achosion:** trafodaeth wedi'i hwyluso, ymgynghori a myfyrio gan ymarferwyr, rheolwyr, neu grwpiau craidd, gan ddefnyddio dull systemau o archwilio a dadansoddi achosion unigol sy'n gyfredol neu nad ydynt yn weithredol bellach. Gallai'r rhain gynnwys achosion cymhleth lle bu canlyniadau da, achosion cyfredol sydd wedi aros yn eu hunfan, neu achosion sy'n achosi pryder neu ddiddordeb proffesiynol ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS.

b) **Lledaenu gwybodaeth a chanfyddiadau newydd:** o archwiliadau diogelu amlasiantaethol ac o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, archwiliadau neu o ffynonellau lleol neu genedlaethol eraill, er mwyn sicrhau dysgu a datblygu amlbroffesiynol lleol parhaus.

**9.15** Dylid sicrhau bod Fforymau sy'n canolbwyntio ar ddysgu o achosion yn ddigwyddiadau a hwylusir, a'u bod yn cael eu cynnal mewn amgylchedd sy'n darparu cymorth proffesiynol a diogel a her broffesiynol, gyda chyfres glir o egwyddorion neu brosesau gwaith fel bod staff yn gwybod beth i'w ddisgwyl a bod cyfrinachedd unrhyw ddeunydd achos yn cael ei barchu. Gall y Fforymau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol sydd eisoes yn gyfarwydd mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, fel goruchwyliaeth amlasiantaethol, ymchwiliad gwerthfawrogol, neu gerflunio fel y bo'n briodol. Dylid cofnodi'r dysgu o ran ymarfer a'i adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Diogelu, ac i deuluoedd lle bo hynny'n briodol. Gall y dysgu gael ei ledaenu'n ehangach gan yr Hwb Cydgysylltu, yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, gan gyfrannu'r un pryd at adolygiad blynyddol y Bwrdd Diogelu o'i Gynllun Busnes.

57 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 **Rheoliadau Byrddau Diogelu (2015)**
58 Rheoliad 2. **Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015**

**9.16** Dylai'r fforymau ganiatáu i staff fynd ati gyda'i gilydd i archwilio'n agored asesiadau, penderfyniadau ac ymarfer. Fodd bynnag, os bydd unrhyw faterion o ran anghenion hyfforddi staff unigol neu gamymddygiad staff yn dod i'r amlwg yn ystod fforwm proffesiynol amlasiantaethol, dylid rheoli'r rhain drwy weithdrefnau staff yr asiantaeth berthnasol.

**9.17** Gall y dysgu o fforymau sy'n gysylltiedig ag achosion unigol neu ledaenu canfyddiadau o archwiliadau a ffynonellau eraill fod angen gweithredu'n lleol drwy newidiadau mewn polisïau gweithredol, protocolau, darpariaeth gwasanaethau neu ymarfer, a dylai hyn ddigwydd yn brydlon a heb oedi.

**9.18** Os bydd fforwm ar unrhyw adeg yn nodi lefel o bryder a fyddai'n sbarduno ADUS, dylid rhoi gwybod am yr achos i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu a'i gyfeirio i'r Grŵp Adolygu Achosion i'w ystyried a'i weithredu.

**9.19** Os oes perthnasedd ehangach i'r dysgu o'r fforwm, bydd y Bwrdd Diogelu yn cysylltu â'r Hwb Cydgysylltu i ddatblygu cynlluniau i ledaenu'n lleol a/neu'n genedlaethol, er enghraifft drwy'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithwyr proffesiynol perthnasol y mae eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ymwneud ag amddiffyn a lle mae angen cyfleu negeseuon i asiantaethau yn lleol. Bydd y broses yn cael ei rheoli gan yr Hwb Cydgysylltu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu perthnasol i sicrhau bod y pwyntiau allweddol yn cael eu dal a'u lledaenu. Ar gyfer Lladdiadau ag Arfau Ymosodol, bydd cyswllt hefyd â'r Bwrdd Goruchwylio Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol.

**9.20** Mae effeithiolrwydd fforwm yn gofyn am ymrwymiad uwch-gynrychiolwyr asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd Diogelu a chefnogaeth gadarnhaol gan asiantaethau i alluogi staff proffesiynol i wneud defnydd o'r cyfleoedd dysgu hyn. Os bydd ymarferydd yn gadael sefydliad cyn i fforwm gael ei gynnal, ni ddylai hynny ei atal rhag bod yn bresennol, yn enwedig os gall gyfrannu'n effeithiol at y drafodaeth.

**9.21** Bydd angen i'r Bwrdd Diogelu roi adnoddau i'r rhaglen waith a'i gwerthuso'n gyfnodol er mwyn canfod yr effaith ar ymarfer ADUS. Dylid adrodd ar y canfyddiadau i'r Bwrdd Diogelu a'r Hwb Cydgysylltu fel y gellir eu cynnwys mewn adroddiadau diweddaru i'r Grŵp Strategaeth, y Bwrdd Gweinidogol a'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd.

**9.22** Mae'r Fforymau yn seiliedig ar brofiad blaenorol hirsefydlog ac maent yn manteisio ar yr arferion da a welir ar draws Byrddau Diogelu yng Nghymru.

# 10. Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data Personol

## Cyflwyniad

**10.1** Bydd y Byrddau Diogelu, gan weithio gyda'r Grŵp Adolygu Achosion, yn goruchwylio'r broses o sefydlu a chyflawni ADUS a'r gwaith o lunio a chyhoeddi'r adroddiad, yn unol â'r Canllawiau hyn.

**10.2** Mae'n allweddol i lwyddiant yr Adolygiad bod gwybodaeth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur at ddibenion ADUS yn cael ei rhannu â'r Panel Adolygu penodedig a'r Adolygydd/Adolygwyr. Dylai partneriaid adolygu a sefydliadau perthnasol eraill geisio bod mor agored â phosibl o ran yr wybodaeth y maent yn ei rhannu. Bwriad yr adran hon yw cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwybodaeth (gan gynnwys data personol) a rhoi sicrwydd i sefydliadau sy'n rhannu data yng nghyd-destun ADUS eu bod wedi ystyried gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data. Trafodir yr ystyriaethau o ran rhannu gwybodaeth at ddibenion ADUS yng nghyd-destun prosesau cyfochrog eraill (e.e. ymchwiliad troseddol neu achos troseddol) yn **Adran 12** o'r Canllawiau hyn.

## Diben rhannu gwybodaeth

**10.3** Mae nodau'r ADUS wedi'u nodi'n fanwl yn y Canllawiau hyn. Mae'n angenrheidiol bod pob sefydliad sy'n gysylltiedig â'r amgylchiadau sy'n ymwneud ag ADUS yn rhannu gwybodaeth berthnasol i sicrhau y gall y Bwrdd Diogelu ei gyflawni'n llwyddiannus.

**10.4** Mae'r darpariaethau statudol perthnasol sy'n darparu ar gyfer gofyn am wybodaeth a darparu gwybodaeth yng nghyd-destun ADUS wedi'u nodi yn **Atodiad Pump**.

## Pa wybodaeth y dylid ei rhannu

**10.5** Dylid rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i ymwneud y sefydliad â thestun yr Adolygiad, eu teulu, Prif Unigolion, cyflawnwyr/cyflawnwyr honedig ac amcanion ADUS.

**10.6** Dylai'r data personol a rennir fod yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion ADUS yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag addysg, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, tai, hanes meddygol, iechyd meddwl, a diogelu.

**10.7** Dylai sefydliadau rannu gwybodaeth mewn modd amserol i sicrhau y gellir ymgymryd ag ADUS yn unol â'r llinellau amser a amlinellir yn **Adran 5** o'r Canllawiau hyn. Dylid nodi ac ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth (gan gynnwys data personol) yn gynnar er mwyn osgoi unrhyw oedi yn y broses.

**10.8** Nid oes modd i wybodaeth am gyflawnwyr honedig neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad gael ei rhannu yng nghamau cychwynnol ADUS gan Uwch-swyddog Ymchwilio yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron os gallai ei datgelu fygwth uniondeb yr ymchwiliad neu unrhyw achos troseddol. Gall hyn barhau i fod yn wir drwy gydol yr Adolygiad os yw'r wybodaeth yn sensitif iawn. Gallai peidio ag aros nes bydd ymchwiliadau ac achosion troseddol wedi dod i ben olygu bod rhai manylion yn cael eu heithrio o'r ADUS. Rhaid cydbwyso hyn yn erbyn y manteision o nodi dysgu mewn modd amserol fel y gellir rhoi camau gweithredu ac argymhellion ar waith cyn gynted â phosibl. Gweler **Adran 12** o'r Canllawiau hyn i gael rhagor o wybodaeth.

## Ystyriaethau diogelu data, preifatrwydd a chyfrinachedd

**10.9** Mae Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data yn rheoli prosesu data personol.

**10.10** Rhaid i bob rheolwr data sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion ADUS ei fodloni ei hun nad yw'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, a sicrhau ei gydymffurfedd a'i atebolrwydd ei hun. Bydd hynny'n cynnwys:

- sicrhau bod y data a rennir yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gywir;
- mai dim ond yr isafswm data sy'n angenrheidiol at ddibenion ADUS sy'n cael ei rannu;
- sicrhau bod y mesurau diogelu angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith wrth rannu data personol i leihau risg ac effeithiau andwyol;
- cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data;
- darparu gwybodaeth am breifatrwydd;
- rhoi dogfennaeth berthnasol ar waith (bydd hyn yn cynnwys asesiad buddiant dilys os mai dyna'r sail gyfreithlon y dibynnir arni, a chytundeb/fframwaith rhannu data);
- bod â dogfen bolisi briodol ar gyfer rhannu data categori arbennig lle bo hynny'n berthnasol.

**10.11** Rhaid cynnwys gwybodaeth am yr uchod yn y daflen wybodaeth a ddarperir i unigolion sy'n ymwneud ag ADUS. Mae'r templed ar gael yn y **Pecyn Cymorth**.

**10.12** Bydd y Grŵp Adolygu Achosion yn pennu awdurdod arweiniol a fydd yn gyfrifol am ystyriaethau data personol yng nghyd-destun ADUS ar ran y Bwrdd Diogelu (yr Awdurdod Lleol perthnasol fydd hwn fe arfer). Bydd yr awdurdod arweiniol yn sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau diogelu data perthnasol gan gynnwys, lle bo'n briodol, darparu gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion y mae eu data personol yn cael ei brosesu yn ystod ADUS a chadw data personol. Yr awdurdod arweiniol hefyd fydd y pwynt cyswllt i unigolion sydd am arfer eu hawliau o ran data personol a brosesir at ddibenion ADUS.

**10.13** Gwneir penderfyniadau gan y Grŵp Adolygu Achosion gan ymgynghori â'r awdurdod arweiniol, o ran y cytundebau rhannu data priodol a roddir ar waith a fydd yn caniatáu i bartneriaid adolygu perthnasol rannu data personol. Bydd templedi ar gyfer cytundebau rhannu data yn cael eu darparu gan yr Hwb Cydgysylltu.

**10.14** Os bydd pryderon ynghylch rhannu data personol yng nghyd-destun ADUS, dylid trafod y rhain gyda Chadeirydd y Panel Adolygu cyn gynted â phosibl. Gall pryderon o'r fath godi yng nghyd-destun data categori arbennig, yn enwedig data sy'n ymwneud ag iechyd. Mae amodau ychwanegol yn gymwys i brosesu data categori arbennig ac mae'n bosibl y bydd ystyriaethau ychwanegol o ran yr hawl i breifatrwydd a'r ddyletswydd cyfrinachedd yng nghyd-destun data sy'n ymwneud ag iechyd (e.e. dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin).

**10.15** Mae porth yn y ddeddfwriaeth diogelu data sy'n caniatáu datgelu a rhannu data personol (gan gynnwys data categori arbennig a data am droseddau) yng nghyd-destun ADUS, heb ddibynnu ar gydsyniad yr unigolyn.

## Sail gyfreithlon

**10.16** At ddibenion ADUS, mae'r seiliau cyfreithlon posibl ar gyfer prosesu data personol o dan gyfraith diogelu data fel a ganlyn:

- Erthygl 6(1)(c) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- Erthygl 6(1)(e) Angenrheidiol ar gyfer tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol;
- Erthygl 6(1)(f) Angenrheidiol ar gyfer eich buddiannau dilys neu fuddiannau dilys trydydd parti, oni bai bod rheswm da dros ddiogelu'r data sy'n drech na'r buddiannau hynny (dylid nodi nad yw hyn ar gael i awdurdodau cyhoeddus sy'n prosesu data ar gyfer tasgau swyddogol).

**10.17** Mae Erthyglau GDPR y DU 6(1)(c) a 6(1)(e) yn ei gwneud yn ofynnol cael sail yng nghyfraith y DU. Mae prosesu data personol yng nghyd-destun ADUS yn seiliedig ar statud ac mae cyfranogi mewn ADUS, a'i hwyluso, drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol, yn cyflawni'r swyddogaeth statudol honno. Mae'r fframwaith statudol canlynol yn darparu'r sail ar gyfer unrhyw brosesu gan sefydliad at ddibenion ymgymryd ag ADUS ac unrhyw weithred o rannu data gan gorff sydd wedi cael cais am wybodaeth at ddibenion ADUS:

- Adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Rheoliad 3 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015;
- Adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004;
- Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol.

**10.18** Pan fo data categori arbennig yn cael ei brosesu at ddibenion ADUS, rhaid sefydlu amod ar gyfer prosesu data categori arbennig o dan Erthygl 9 o GDPR y DU. Yr amodau a allai fod yn berthnasol yw:

- Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, pan fo prosesu'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd ar sail cyfraith ddomestig;

- Erthygl 9(j) o GDPR y DU, pan fo prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil hanesyddol.

**10.19** Mae Erthygl 9(2)(g) hefyd yn gofyn am sail yng nghyfraith y DU; o dan adran 10(3) o Ddeddf Diogelu Data 2018 mae gofyniad i fodloni amod budd sylweddol i'r cyhoedd fel y nodir yn Atodlen 1, Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Yr amod perthnasol o ran budd sylweddol i'r cyhoedd yw:

- Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018; mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac mae'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

**10.20** Mae budd cynhenid i'r cyhoedd y gellir ei ddangos at ddiben ADUS sydd â'r bwriad o nodi gwelliannau posibl mewn gwasanaethau perthnasol, lledaenu dysgu ac arferion da ac atal digwyddiadau yn y dyfodol. Fel yr amlinellwyd uchod, mae prosesu data personol yng nghyd-destun ADUS yn seiliedig ar statud ac mae cyfranogi mewn ADUS, a'i hwyluso, drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol, yn cyflawni'r swyddogaeth statudol honno.

**10.21** Pan fo data[59] am drosedd yn cael ei brosesu at ddibenion ADUS, mae Erthygl 10 o GDPR y DU yn nodi bod rhaid i'r prosesu gael ei wneud naill ai o dan reolaeth awdurdod swyddogol neu bod rhaid hefyd sefydlu amod penodol yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018. Yr amod a allai fod yn berthnasol hefyd yw:

- Mae prosesu o dan Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn angenrheidiol at ddibenion swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac mae'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

**10.22** O ran prosesu data personol dilynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru, mae'r sail gyfreithlon berthnasol ar gyfer prosesu o dan Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU a'r amodau perthnasol ar gyfer prosesu o dan Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU hefyd yn dibynnu ar yr amod a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018, Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 6 (dibenion statudol etc. a dibenion llywodraeth) ac Erthygl 9(j) (angenrheidiol at ddibenion archifo etc. er budd y cyhoedd). Yng nghyd-destun data am droseddau, mae prosesu o dan Atodlen 1, Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn angenrheidiol at ddibenion swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac mae'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

## Cyfrinachedd a phreifatrwydd

**10.23** O ran unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n berthnasol at ddibenion ADUS (e.e. gwybodaeth am iechyd, fel cofnodion meddygol) pan fo dyletswydd cyfrinachedd ar sefydliad, neu wybodaeth pan fo gan unigolyn hawl i breifatrwydd[60] caniateir datgelu pan fo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith[61] neu pan fo cyfiawnhad dros hynny er budd y cyhoedd.

---

59 Data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau
60 Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998
61 Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn darparu, yng nghyd-destun Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol, na fydd datgelu gwybodaeth sy'n ofynnol neu a awdurdodir gan adrannau 27 i 29 yn gyfystyr â thorri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd

**10.24** Bydd angen i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfrinachedd benderfynu a ddylid gofyn i unigolyn y mae ei wybodaeth gyfrinachol yn berthnasol at ddibenion ADUS gydsynio i rannu ei wybodaeth gyfrinachol. Ni ddylid gofyn am gydsyniad os yw'n anymarferol gwneud hynny, os byddai cysylltu â'r unigolyn yn tanseilio diben rhannu'r wybodaeth neu os oes penderfyniad eisoes wedi'i wneud i ddatgelu'r wybodaeth oherwydd ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid dweud wrth yr unigolyn am y bwriad i rannu ei wybodaeth, oni bai nad yw'n ddiogel neu'n ymarferol gwneud hynny. Os yw'r unigolyn yn gwrthwynebu datgelu ei wybodaeth, dylid ystyried unrhyw resymau a roddir dros y gwrthwynebiad hwnnw cyn i'w wybodaeth gael ei rhannu.

**10.25** Dylid nodi nad yw cydsyniad yng nghyswllt dyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin yn cael ei geisio fel sail gyfreithlon i brosesu data personol. Fel yr amlinellir uchod, gellir sefydlu'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol at ddiben ADUS drwy ddulliau eraill.

**10.26** Os bydd sefydliad yn penderfynu ei bod yn briodol gofyn am gydsyniad, dylid gofyn am gydsyniad yr unigolyn yn ogystal â'i farn ar effaith datgelu. Os bydd yr unigolyn yn gwrthod cydsynio i rannu ei wybodaeth, bydd angen ystyried a ddylid diystyru'r gwrthodiad oherwydd y byddai hynny o fudd i'r cyhoedd. Mae budd cynhenid i'r cyhoedd mewn darparu gwybodaeth at ddibenion ADUS a gall y ddyletswydd i rannu gwybodaeth fod yr un mor bwysig â'r ddyletswydd i ddiogelu cyfrinachedd[62] unigolyn.

**10.27** Dylai sefydliadau benderfynu a oes cyfiawnhad dros ddatgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd at ddibenion yr ADUS. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, dylai sefydliadau ystyried a yw'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth yn drech na'r budd i'r unigolyn o gadw'r wybodaeth yn breifat ac yn gyfrinachol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:

- natur yr wybodaeth sydd i'w datgelu;
- unrhyw farn a fynegir gan yr unigolyn ynghylch datgelu ei wybodaeth;
- y niwed neu'r trallod y gellid ei achosi i'r unigolyn;
- y manteision posibl i unigolyn neu i gymdeithas sy'n deillio o ryddhau'r wybodaeth;
- y niwed posibl i eraill (boed i berson neu bobl benodol, neu i'r cyhoedd yn ehangach) os na chaiff yr wybodaeth ei datgelu.

## Cyhoeddi a Storfa Ddiogelu Cymru

**10.28** Mae **Adran 8** o'r Canllawiau hyn yn nodi'r rhwymedigaethau o ran llunio a chyhoeddi Adroddiadau. O ran data personol unigolion y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad, mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu sicrhau nad yw Adroddiadau'n datgelu pwy yw testun yr adolygiad na'i deulu, nac yn datgelu eu lleoliad.

62 7fed Egwyddor Gwarcheidwad Caldicott

**10.29** Dylid paratoi Adroddiadau ADUS ar y sail bod pob dynodwr personol yn cael ei ddileu a/neu bod ffugenwau'n cael eu ddefnyddio. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd bod modd adnabod unigolion y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad. Mae posibilrwydd o hyd, fodd bynnag, er gwaethaf y defnydd o fesurau diogelu o'r fath, y gallai unigolion y cyfeirir atynt yn yr Adroddiadau gael eu hadnabod o hyd drwy ddulliau rhesymol sydd ar gael, yn enwedig pan fo'r digwyddiad sydd wedi sbarduno'r adolygiad yn adnabyddus neu wedi cael sylw yn y cyfryngau. Pan fydd ffugenwau wedi'u defnyddio, bydd yr adroddiad yn cynnwys data personol ac felly bydd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfraith diogelu data o ran ei gyhoeddi, ei gadw a'i ymgorffori yn y Storfa.

**10.30** Mae **Adran 7** o'r Canllawiau hyn yn nodi sut y mae proses ADUS yn sicrhau ymgysylltiad ag unigolion sy'n dymuno cyfrannu at ADUS. Mae'n ofynnol i Adolygydd/Adolygwyr roi cyfle (lle bo hynny'n briodol) i destun yr Adolygiad, eu teulu, a'r Prif Unigolion weld yr Adroddiad drafft, i roi sylwadau arno ac i nodi anghywirdebau ffeithiol. Bydd y cyfnod adolygu hwn hefyd yn rhoi cyfle i unigolion wrthwynebu prosesu eu data personol yn yr Adroddiad, y gellir ei wneud drwy'r awdurdod arweiniol ar ran y Bwrdd Diogelu.

**10.31** Bydd Adroddiadau a Chynlluniau Gweithredu ADUS yn cael eu rhannu gan y Byrddau Diogelu gyda'r Hwb Cydgysylltu. Bydd yr Adroddiadau wedyn yn cael eu hymgorffori yn Storfa Ddiogelu Cymru. Gall y Storfa gael ei defnyddio gan y rhai y caniateir iddynt gael mynediad er mwyn cael gafael ar wybodaeth ynglŷn ag ADUS ac i helpu'r Byrddau Diogelu i hwyluso dysgu a hyfforddi ledled Cymru. Bydd mynediad i'r Storfa wedi'i gyfyngu i unigolion/ymarferwyr a fydd yn cael manylion i'w galluogi i gael mynediad. Ni fydd ar gael i'r cyhoedd.

**10.32** Rhaid i'r Adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi am gyfnod o 12 wythnos o leiaf, yn unol â rhwymedigaethau statudol Byrddau Diogelu (a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol lle bo hynny'n berthnasol). Bydd yr Adroddiad hefyd yn cael ei gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru am gyfnod amhenodol.

**10.33** Yr awdurdod arweiniol fydd yn gyfrifol am gadw a phennu mynediad yn y dyfodol at adroddiadau sy'n codi o Adolygiadau.

**10.34** Bydd yr Adroddiad a ddarperir i'r Hwb Cydgysylltu i'w gynnwys yn y Storfa Ddiogelu yr un fath â'r fersiwn a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol/y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

**10.35** Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data o ran data personol a gynhwysir yn y Storfa a bydd yn sicrhau cydymffurfedd â'r rhwymedigaethau perthnasol o dan gyfraith diogelu data gan gynnwys:

- cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data;
- darparu gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion;
- diogelwch data personol a brosesir yn Storfa Ddiogelu Cymru o ran:
  - rheoleiddio mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru;
  - sicrhau bod mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol yn cael eu rhoi ar waith;
- rheoli ac ymateb i geisiadau hawliau unigol (e.e. cais am fynediad at ddata gan destun y data).

**10.36** Bydd yr holl wybodaeth a gynhwysir yn Storfa Ddiogelu Cymru yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr awdurdodedig yn gallu elwa ar ganfyddiadau a dysgu perthnasol o'r Adroddiadau a'r Cynlluniau Gweithredu a bod yr Hwb Cydgysylltu yn gallu eu lledaenu'n ehangach.

# 11. Cymhwyso'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i Gam-drin Hanesyddol

**11.1** Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu yw penderfynu a yw achos yn bodloni'r meini prawf rhagnodedig ar gyfer cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) (gweler **Adran 4**). Gall y Bwrdd Diogelu benderfynu bod angen Adolygiad yng nghyswllt achos sy'n ymwneud ag achosion hanesyddol o gam-drin wedi'i drefnu neu gam-drin lluosog. Nod Adolygiad o'r fath fyddai archwilio'r hyn y gellir ei ddysgu o arferion y gorffennol er mwyn sicrhau bod ymarfer a systemau sefydliadol cyfredol yn cael eu cryfhau a'u gwella.

**11.2** Gall hyn gynnwys cyflwyno ffordd o nodi gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad a'u rhoi ar waith (e.e. o ran polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith a allai fod wedi cyfrannu at y cam-drin yn digwydd) wrth i'r Adolygiad fynd rhagddo ac ar ei ddiwedd; ac o asesu'r modd yr aethpwyd ati a nodi gwersi ar gyfer cynnal adolygiadau tebyg yn y dyfodol.

**11.3** Dylai Adolygiadau Hanesyddol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS ddilyn yr egwyddorion, y dull a'r broses a amlinellir yn y Canllawiau hyn.

# 12. Y Berthynas â Phrosesau Ffurfiol Eraill

**12.1** Mae proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn ymwneud â dysgu ar gyfer ymarfer. Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud ag anghenion hyfforddi staff unigol neu gamymddygiad staff yn dod i'r amlwg yn ystod Adolygiad, dylid rheoli a chyfeirio'r materion hyn ar wahân drwy weithdrefnau staff yr asiantaeth berthnasol.

**12.2** Hyd yn oed pan fo prosesau neu ymchwiliadau ffurfiol eraill ar y gweill, megis gweithdrefnau cwyno, nid oes unrhyw reswm i oedi cyn cynnal Adolygiad. Mae ADUS yn canolbwyntio ar ddysgu er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol ac nid yw'n broses ar gyfer ymdrin â chwynion neu briodoli bai. Dylai Byrddau Diogelu ystyried sut y gall prosesau eraill ddigwydd ochr yn ochr ag ADUS. Bydd dysgu perthnasol sy'n deillio o'r gwahanol brosesau yn cael ei rannu'n unol â hynny ag asiantaethau perthnasol.

## Prosesau Cyfochrog

**12.3** Os yw'r achos yn destun ymchwiliadau'r heddlu neu achosion barnwrol/crwnerol, ni ddylai'r rhain o reidrwydd atal sefydlu ADUS nac achosi oedi cyn cymryd camau adfer ar unwaith i wella gwasanaethau. Mae'n bwysig bod diben yr Adolygiad, sef canfod dysgu proffesiynol a sefydliadol a gwella arferion amlasiantaethol o ran diogelu'r cyhoedd yn y dyfodol, yn cael ei ddeall ac mai dyma'r ffocws.

**12.4** Gall Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ddarparu canllawiau sy'n cydnabod bod modd rheoli Adolygiadau Amlasiantaethol ac achosion troseddol yr un pryd. Mae'r canllawiau'n darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a gynhyrchir drwy'r ddwy broses.

**12.5** Mae'r Paneli Adolygu yn annibynnol ar y broses cyfiawnder troseddol, ac nid oes modd gorfodi unrhyw alwadau oddi wrth y broses honno am newid amserlenni neu fethodoleg yr Adolygiad. Fodd bynnag, os yw'r achos eisoes yn destun ymchwiliad troseddol, rhaid hysbysu'r Uwch-swyddog Ymchwilio am y penderfyniad i ddechrau ADUS. Os oes achos troseddol neu gwest yn yr arfaeth, rhaid i'r Bwrdd Diogelu roi gwybod am yr Adolygiad i Wasanaeth Erlyn y Goron neu'r Crwner, yn y drefn honno, ar gyfer yr ardal lle mae'r achos yn cael ei gynnal. Os bydd yr Uwch-swyddog Ymchwilio, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Crwner yn cyflwyno sylwadau y gallai'r Adolygiad danseilio ymchwiliad troseddol, achos troseddol neu achos crwnerol sydd ar y gweill, rhaid dwyn y sylwadau hynny i sylw Cadeirydd y Panel Adolygu a fydd yn cymryd camau i egluro/trafod y sylwadau ymhellach fel y bo'n briodol. Bydd cytundeb ynghylch y ffordd ymlaen yng ngoleuni unrhyw drafodaethau yn cael ei adlewyrchu yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad.

**12.6** Ar ôl ystyried y sylwadau a ddaeth i law, gellir gwneud cais i'r Panel Adolygu bod cwmpas yr Adolygiad yn cael ei gyfyngu dros dro tan ar ôl canlyniad unrhyw achos troseddol neu achos crwner neu ymchwiliadau heddlu. Gallai hyn olygu ystyried peidio â chyfweld pobl a allai fod yn dystion neu'n ddiffynyddion mewn achosion troseddol neu achosion crwner, ac i beidio â bwrw ymlaen â Digwyddiad Dysgu nes bod y materion cyfiawnder troseddol neu grwnerol wedi'u datrys. Pan ystyrir cyfyngu cwmpas Adolygiad, dylai hynny fod ar gyfer angen diffiniedig a/neu dylai fod yn berthnasol i unigolion a enwir.

**12.7** Rhaid i gynnal uniondeb yr ymchwiliad a'r achos troseddol fod yn ystyriaeth allweddol i bartneriaid Adolygiad. Dylent gytuno gydag Uwch-swyddog Ymchwilio'r Heddlu pa unigolion sydd i'w cynnwys yn y ceisiadau am wybodaeth, fel rhan o'r Adolygiad gan egluro pa wybodaeth na ellir ei rhannu ac unrhyw gyfyngiadau ar amseru rhyddhau gwybodaeth. Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Adolygiad y dylid ei rhannu, er mwyn nodi unrhyw wersi sydd i'w dysgu o'r digwyddiad(au) ac ystyried a fyddai'n briodol i unrhyw un weithredu mewn cysylltiad â'r gwersi hynny.

**12.8** Rhaid i unrhyw ddeunydd a gynhyrchir neu a gafwyd yn ystod yr Adolygiad fod ar gael i Uwch-swyddog Ymchwilio'r Heddlu a'r swyddog datgelu tra bod yr achos troseddol yn mynd rhagddo, fel y gall swyddogion ymchwilio asesu ei berthnasedd i'r achos troseddol. Lle bo hynny'n berthnasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron sydd i benderfynu a ddylid datgelu unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad i'r amddiffyniad. Os yw'r wybodaeth dan sylw yn sensitif, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Uwch-swyddog Ymchwilio yn ymgynghori â'r partneriaid adolygu perthnasol neu â'r Adolygydd/Adolygwyr cyn i'r datgeliad gael ei wneud i'r amddiffyniad.

**12.9** Os cyfyngir cwmpas yr Adolygiad dros dro, nid yw hyn yn dileu'r angen am Banel Adolygu nac yn golygu y dylid oedi cyn sefydlu Panel i gynnal yr Adolygiad Mae'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer sicrhau, mewn modd amserol, unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r farwolaeth neu'r anaf difrifol, ac mae'n lliniaru'r risg o golli'r cofnodion hynny neu o ymyrraeth â hwy. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i nodi dysgu sylfaenol yn gynnar.

**12.10** Mae'n hanfodol nad oes oedi cyn i'r dysgu angenrheidiol gael ei nodi, fel y gellir rhwystro'r un arferion aneffeithiol neu hepgoriadau rhag cael eu hailadrodd mewn achosion eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Panel Adolygu sicrhau bod cronolegau'n cael eu llunio a bod cofnodion yn cael eu hadolygu, lle bo hynny'n angenrheidiol, er mwyn nodi unrhyw wersi y gellir eu dysgu ar unwaith. Dylai'r Bwrdd Diogelu ddwyn y rhain i sylw'r asiantaeth neu'r asiantaethau perthnasol ar gyfer eu gweithredu, cyn belled nad yw hynny'n peryglu uniondeb achosion troseddol neu grwnerol perthnasol.

**12.11** Mae datblygiadau arwyddocaol yng Nghymru sy'n cefnogi nod a phwrpas proses ADUS. Mae deall achosion, dysgu gwersi wrth reoli sefyllfaoedd a pherthnasoedd anodd, atal troseddu a niwed, ac ymyrraeth gynnar yn elfennau allweddol y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru yn rhoi sylw iddynt gyda phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ac mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ar wahoddiad Plismona yng Nghymru, yn cadeirio Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cefnogi Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru a'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel. Drwy gyfrwng y trefniadau hyn, mae gwir botensial i wersi a ddysgwyd drwy'r broses adolygu ddylanwadu ar ystod o ddulliau a phrosesau ar draws plismona a chyfiawnder troseddol wrth weithio tuag at y nod cyffredin o leihau niwed ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

## Proses Gwyno

**12.12** Rhaid i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gael gweithdrefn gwyno ar gyfer ymdrin â chwynion am Adolygiadau. Dylai'r broses gwyno ymdrin â natur amlasiantaethol adolygiad yn hytrach na'r gŵyn yn erbyn gweithredoedd asiantaeth unigol – dylid ymdrin â chŵyn o'r fath drwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth ei hun. Dylai'r Adolygydd/Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu sicrhau bod testun yr Adolygiad a/neu eu teulu a'r Prif Unigolion (ac unrhyw gyflawnwyr neu gyflawnwyr honedig os ydynt wedi cael eu cynnwys) yn cael gwybod am y broses gwyno briodol.

# Atodiad Un: Tabl Partneriaethau

| | Diogelu oedolyn/ plentyn | | | | Lladdiad domestig | | | | Lladdiad ag arf ymosodol | | | | Lladdiad iechyd meddwl | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu |
| Bwrdd Diogelu | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P | P |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | | | T | T | P | P | P | P | P | P | P | P | | | T | T |
| Bwrdd VAWDASV Rhanbarthol | | | | | | P | P | P | | | | | | | | |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | | | | | | | Th | Th | | | Th | Th | | | Th | Th |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | | | T | Th | | | Th | Th | | | Th | Th | | | Th | Th |
| Llywodraeth Cymru (diogelu a diogelwch cymunedol) | A | | T | T | A | | T | T | A | | T | T | A | | T | T |
| Swyddfa Gartref – rheoli ansawdd | | | | | A | | D<br>T | D<br>T | | | | | | | | |
| Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref | | | | | | | | | A | | T | T | | | | |
| Comisiynydd Cam-drin Domestig | | | | | | | T | T | | | | | | | | |
| Uned Gyflawni, Llywodraeth Cymru (Iechyd) | | | | | | | | | | | | | A | | T | T |

| | Diogelu oedolyn/ plentyn | | | | Lladdiad domestig | | | | Lladdiad ag arf ymosodol | | | | Lladdiad iechyd meddwl | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu | Grŵp Adolygu Achosion | Panel Adolygu | Adroddiad drafft/terfynol | Cynlluniau Gweithredu |
| Hwb Cydgysylltu ADUS | A | | T | T | A | | T | T | A | | T | T | A | | T | T |
| Storfa Ddiogelu Cymru | | | T | T | | | T | T | | | T | T | | | T | T |

**Allwedd:**

P = Pob cam
A = Argymhelliad
D = Drafft
T = Terfynol
Th = Themâu dysgu thematig o adroddiadau

Y rhai a fydd yn cymryd rhan yn y Grŵp Adolygu Achos fydd y partneriaid sy'n eistedd ar nifer o'r grwpiau hyn. Nid yw hyn yn cael ei gynrychioli yn y tabl hwn.

Byrddau eraill (neu eu his-grwpiau) y gallai fod angen eu cynnwys yn dibynnu ar yr achos a'r argymhellion a'r camau gweithredu (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr): Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, Bwrdd Trais Difrifol a Throseddau Trefnedig, Plismona yng Nghymru, Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Bwrdd IOM Cymru, Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

# Atodiad Dau: Rhestr o wyriadau oddi wrth y Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig

**Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar Laddiadau Domestig a dull Adolygiad Diogelu Unedig Sengl Cymru, sylw dyladwy a manteision.**

Mae'r Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig a ddyroddwyd o dan *adran 9(3) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*[63], yn nodi bod rhaid i berson sy'n sefydlu neu'n cymryd rhan mewn adolygiad lladdiad domestig (p'un ai a yw'n cael ei gynnal yn dilyn cyfarwyddyd o dan is-adran (2) ai peidio) **roi sylw** i'r Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r personau hynny sy'n ymwneud ag Adolygiad Lladdiad Domestig ystyried y Canllawiau ar Laddiadau Domestig ac, os ydynt yn penderfynu gwyro oddi wrth unrhyw elfen ynddynt, bod ganddynt resymau clir dros wneud hynny.

Mae rhai o gamau'r broses ADUS yn gofyn am wyro oddi wrth y Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig; mae'r gwyriadau hyn yn angenrheidiol i hwyluso proses yr Adolygiad. Nodir isod y penawdau allweddol a'r pwyntiau bwled sy'n crynhoi'r meysydd lle mae angen y gwyriadau hynny.

Mae'r gwyriadau arfaethedig hyn wedi bod yn destun trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, ac mae'r Swyddfa Gartref yn derbyn y bydd y gwahaniaethau cynnil hyn yn y dull o ymdrin ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig yng Nghymru yn codi mewn adolygiadau o'r fath a gyflawnir drwy'r broses ADUS.

## Y broses

- Mae un adolygiad yn cwmpasu pob un, gan osgoi'r angen am adolygiadau cyfochrog.
- Bydd y broses ADUS yn defnyddio ffurflen atgyfeirio safonol ar gyfer Cymru.
- Bydd y ffurflen atgyfeirio yn cael ei hanfon i Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu.

63 Adran 9(3) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 **Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr**

- Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei drafod gan y Grŵp Adolygu Achosion.
- Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy.
- Cofrestr ganolog ar gyfer adolygiadau cyfredol, parhaus a hanesyddol.
- Hyfforddiant ADUS wedi'i safoni ar gyfer Adolygwyr, Cadeiryddion Paneli Adolygu ac aelodau'r Panel.
- Bwletinau misol gan Hwb Cydgysylltu ADUS.
- Ffurflen ADUS wedi'i safoni ar gyfer Llinellau Amser Asiantaethau.
- Pecyn Cymorth ADUS: dogfen sy'n cynnwys templedi safonol ar gyfer pob cam o'r broses.
- Cynllun Gweithredu safonedig ADUS: mae hwn yn dangos pa asiantaeth sy'n gyfrifol am bob cam.
- Templed wedi'i safoni ar gyfer Adroddiad ADUS, sy'n cael ei godio i'w ddefnyddio yn Storfa Ddiogelu Cymru.

## Strwythur cymorth

- Yr Hwb Cydgysylltu, a fydd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael gweld pob adolygiad.
- Bwrdd Gweinidogol ADUS.
- Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS, yn cynnwys dioddefwyr, teuluoedd ac eiriolwyr. Byddant yn adolygu'r broses ADUS wrth iddi gael ei gweithredu ac ar ôl hynny.
- Storfa Ddiogelu Cymru.
- Grŵp Strategaeth ADUS.

## Dysgu

- Dysgu Sylfaenol – chwilio yn Storfa Ddiogelu Cymru i ganfod argymhellion a themâu tebyg blaenorol.
- Digwyddiadau Dysgu.
- Dysgu Canol Tymor – fel bod modd lledaenu dysgu brys cyn i'r Adolygiad ddod i ben.
- Adroddiadau thematig a gynhyrchir gan Storfa Ddiogelu Cymru.
- Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth Thematig ddwywaith y flwyddyn.

Gellir gofyn am restr fanwl o'r holl wyriadau a wnaed oddi wrth y Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig drwy e-bostio **ADUSCymru@llyw.cymru**.

# Atodiad Tri: Llwybrau Atgyfeirio Lladdiad Iechyd Meddwl – gwybodaeth ategol

## Llwybrau atgyfeirio

Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Diogelu, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (os oes lladdiad domestig wedi digwydd neu os yw'n berthnasol fel arall), asiantaeth neu ymarferydd godi pryder am achos y credir ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl; fodd bynnag bydd yr Heddlu bob amser ynghlwm wrth y broses os bydd Lladdiad Iechyd Meddwl.

Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod mesurau diogelu uniongyrchol yn cael eu hystyried ar adeg y lladdiad. Yn ogystal, bydd angen i'r Byrddau Iechyd roi gwybod i'r Uned Gyflawni[64] ac i Lywodraeth Cymru am Laddiad Iechyd Meddwl o dan y fframwaith Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol[65]. Mae rhagor o wybodaeth i gefnogi'r penderfyniad hwn wedi'i chynnwys yn y ddau flwch isod:

64 Uned Gyflawni GIG Cymru **Yr Uned Gyflawni**
65 **NRLS Reporting**

## Sicrhau mesurau diogelu uniongyrchol

Gan fod angen i'r heddlu fod yn bresennol ar ôl pob lladdiad, bydd Atgyfeiriad Diogelu (Dyletswydd i Adrodd) yn sbardun ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn dilyn Lladdiad Iechyd Meddwl.

Yn dilyn lladdiad, bydd y cyflawnwr honedig yn cael ei asesu gan aelod o'r Tîm Fforensig Iechyd Meddwl. Byddant yn gyfrifol am sicrhau yr anfonir adroddiad Dyletswydd i Adrodd i'r Awdurdod Lleol ac y bydd copi'n cael ei anfon i Dîm Diogelu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar broses leol lle bydd yr Uned Gyflawni'n cael gwybod a'r Tîm Iechyd Meddwl wedi ystyried a oes mesurau diogelwch uniongyrchol digonol ar waith.

**Hysbysu** – rhaid i unrhyw ddigwyddiad sy'n cyfateb i'r diffiniad o laddiad iechyd meddwl gael ei adrodd fel Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol i Uned Gyflawni GIG Cymru yn unol â'r polisi Digwyddiad Diogelwch Cleifion Cenedlaethol[66] o fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y daw'r Ymddiriedolaeth neu'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r Lladdiad Iechyd Meddwl. Dylai'r ffurflen hysbysu nodi, os yw'n hysbys, a fydd yr ymchwiliad cysylltiedig yn Adolygiad Diogelu Unedig Sengl neu'n fath arall o ymchwiliad.

## Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol

O 14 Mehefin 2021, mae'r diffiniad canlynol o ddigwyddiad adroddadwy cenedlaethol yn ymwneud â diogelwch cleifion yn berthnasol:

Digwyddiad diogelwch cleifion sydd wedi achosi neu wedi cyfrannu at farwolaeth annisgwyl neu farwolaeth yr oedd modd ei hosgoi, neu niwed difrifol, i un neu ragor o gleifion, staff neu'r cyhoedd yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG.

## Categorïau Digwyddiadau Cenedlaethol Penodol ar gyfer Iechyd Meddwl

Mae'r digwyddiadau canlynol yn rhai adroddadwy cenedlaethol ers 14 Mehefin 2021. Er bod y rhain yn dod o dan ddiffiniad eang digwyddiad adroddadwy cenedlaethol fel yr amlinellir uchod, maent wedi'u nodi yn y polisi i sicrhau eglurder o ran y disgwyliadau ynghylch adrodd yn genedlaethol.

1. **Lladdiadau a amheuir:** os yw'r cyflawnwr honedig wedi bod o dan ofal y gwasanaethau iechyd meddwl yn y 12 mis diwethaf.

2. **Hunanladdiadau cleifion mewnol:** Bydd pob hunanladdiad a gyflawnir gan gleifion mewnol sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth o unrhyw fath mewn unrhyw leoliad clinigol yn adroddadwy. Mae'r gofyniad yn berthnasol i bob defnyddiwr gwasanaeth, nid dim ond y rhai sy'n cael eu trin ar gyfer anghenion iechyd meddwl naill ai o fewn lleoliad iechyd meddwl neu fel arall. Os bydd cleifion iechyd meddwl dan gadwad sydd ar seibiant awdurdodedig/cytunedig i ffwrdd o'r lleoliad clinigol yn cyflawni hunanladdiad bryd hynny, neu os amheuir eu bod wedi cyflawni hunanladdiad, waeth beth fo amserlen y seibiant cytunedig, mae hyn yn adroddadwy fel hunanladdiad claf mewnol.

3. **Marwolaeth annisgwyl yn y gymuned yn ymwneud â chlaf sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu:** Dylai pob marwolaeth annisgwyl yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, gan gynnwys y Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol, o fewn y 12 mis yn union cyn eu marwolaeth, gael eu hadrodd a dylai'r cyrff cyfrifol eu harchwilio mewn modd cymesur.

66 Digwyddiadau'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion. **Diogelwch Cleifion GIG Cymru**

## Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010[67]

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol; cydgysylltu gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd a chynllunio ar eu cyfer; asesu anghenion cyn-ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983[68] a phersonau eraill sy'n cael triniaeth iechyd meddwl fel claf mewnol yn yr ysbyty; ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae **Rhan 1** o'r Mesur, (y cyfeirir ato'n aml fel gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol), yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd a Phartneriaid i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol i ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:

- cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol;
- yn dilyn asesiad iechyd meddwl sylfaenol, darparu'r driniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol a nodir gan yr asesiad fel triniaeth a allai wella neu atal dirywiad yn iechyd meddwl yr unigolyn;
- atgyfeirio, yn dilyn asesiad iechyd meddwl sylfaenol, ar gyfer gwasanaethau eraill y gallai eu darparu wella neu atal dirywiad yn iechyd meddwl yr unigolyn a aseswyd;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i ddarparwyr gofal sylfaenol i ddiwallu gofynion rhesymol y darparwyr am wybodaeth, cyngor a chymorth o'r fath at ddibenion gwella'r gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl y maent yn ei ddarparu neu'n ei drefnu;
- darparu gwybodaeth a chyngor i gleifion a'u gofalwyr am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, i fodloni eu gofynion rhesymol am wybodaeth a chyngor o'r fath.

Noder bod modelau cyswllt iechyd meddwl eraill mewn gofal sylfaenol lle gellir asesu unigolion. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml wedi'u lleoli mewn practisau meddygon teulu.

Mae **Rhan 2** o'r Mesur (y cyfeirir ati'n aml fel gwasanaethau gofal eilaidd) yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd a phartneriaid i benodi cydgysylltydd gofal ar gyfer claf perthnasol a chydgysylltu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i gytuno ar ganlyniadau a chynllun gofal a thriniaeth i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae Rhan 2 o'r Mesur hefyd yn gosod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd a phartneriaid i adolygu'r cynllun gofal a thriniaeth o leiaf **unwaith y flwyddyn**.

**Claf Perthnasol** – Claf perthnasol yw unigolyn y bydd darparwr gwasanaeth iechyd meddwl yn gyfrifol am roi gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd iddo; neu glaf sydd dan warcheidiaeth awdurdod lleol yng Nghymru; neu glaf y mae darparwr gwasanaethau iechyd meddwl wedi penderfynu y byddai'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar ei gyfer pe bai'n cydweithredu â darpariaeth gwasanaethau o'r fath. Bydd rhywun sy'n cael gwasanaethau o dan ran 2 yn cael ei ddisgrifio fel claf perthnasol.

Mae **Rhan 3** o'r Mesur yn galluogi unigolion sydd wedi cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y gorffennol (cleifion perthnasol) i atgyfeirio eu hunain yn ôl at y gwasanaethau eilaidd i gael asesiad uniongyrchol. Mae hyn yn galluogi cynnal asesiadau heb fod angen i unigolion fynd at eu meddyg teulu neu i rywle arall i gael atgyfeiriad, ac yn gwella mynediad. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i dderbyn ceisiadau (hunanatgyfeiriad) am asesiadau ar gyfer y rhai sy'n gymwys. Mae unigolyn yn gymwys o dan Ran 3 am gyfnod o **dair blynedd** ar ôl cael ei ryddhau o ofal.

---

67 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**
68 **Deddf Iechyd Meddwl 1983**

# Atodiad Pedwar: Partneriaid Lleol

Rhestr, nad yw'n hollgynhwysfawr, i Fyrddau Diogelu ystyried partneriaid lleol y dylid eu hystyried ar gyfer aelodaeth neu gyfranogiad:

- Darparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae.
- Canolfannau plant.
- Grwpiau Ffydd.
- Colegau Addysg Bellach gan gynnwys colegau chweched dosbarth.
- Meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, offthalmolegwyr.
- Darparwyr gofal iechyd annibynnol.
- Sefydliadau sy'n darparu gofal arbenigol i bobl ag anableddau difrifol ac anghenion iechyd cymhleth.
- Darparwyr gofal cymdeithasol (gan gynnwys gwasanaethau cartref gofal i oedolion a phlant, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau lleoli oedolion, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau eiriolaeth).
- Ysgolion gwladol ac annibynnol.
- Sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig gwasanaethau neu weithgareddau y cyfeirir atynt yn y **Cod Ymarfer Diogelu**.

Mewn ardaloedd lle mae ganddynt weithgarwch lleol sylweddol, gellir cynnwys y lluoedd arfog (yng nghyswllt teuluoedd dynion a menywod sy'n aelodau o'r lluoedd arfog a'r personél hynny sydd o dan 18 oed), y Gwasanaeth Mewnfudo, a'r Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r Byrddau Diogelu perthnasol.

Yn yr un modd ar gyfer ardaloedd â charchardai neu ganolfannau cadw diogel, bydd Byrddau Diogelu am sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu gwneud â gwasanaethau Carchardai a Phrawf. Mae hefyd yn bwysig bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu gwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub.

Gallai aelodau gweithredol sefydliadau statudol, megis Aelodau Etholedig lleol ac aelodau gweithredol Byrddau Iechyd Lleol, gynorthwyo â chyfraniad a chraffu.

# Atodiad Pump: Deddfwriaeth Rhannu Data

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

***Adran 137** – Cyflenwi gwybodaeth ar gais Byrddau Diogelu*

*(1) Caiff Bwrdd Diogelu, at ddibenion galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau, ofyn i berson neu gorff cymhwysol gyflenwi gwybodaeth benodedig y mae is-adran (2) neu (3) yn gymwys iddi—*

*(a) i'r Bwrdd, neu*

*(b) i berson neu gorff a bennir gan y Bwrdd.*

*(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i wybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol—*

*(a) y person neu'r corff cymhwysol y gwneir cais iddo,*

*(b) swyddogaeth neu weithgaredd y person neu'r corff cymhwysol hwnnw, neu*

*(c) person y mae swyddogaeth yn arferadwy mewn cysylltiad ag ef, neu weithgaredd yr ymgymerir ag ef, gan y person neu'r corff cymhwysol hwnnw.*

*(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i wybodaeth—*

*(a) sydd wedi ei chyflenwi i'r person neu'r corff cymhwysol yn unol â chais arall o dan yr adran hon, neu*

*(b) sydd wedi ei deillio o wybodaeth a gyflenwyd yn y modd hwnnw.*

*(4) Rhaid i'r person neu'r corff cymhwysol y gwneir cais iddo o dan is-adran (1) gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person neu'r corff o'r farn y byddai gwneud hynny—*

*(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person neu'r corff, neu*

*(b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person neu'r corff.*

*(5) Rhaid i berson neu gorff cymhwysol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) roi i'r Bwrdd Diogelu a wnaeth y cais resymau ysgrifenedig dros y penderfyniad.*

*(6) Ni chaiff gwybodaeth a gyflenwir o dan yr adran hon gael ei defnyddio ond gan y Bwrdd neu berson neu gorff arall y caiff ei chyflenwi iddo at y diben a grybwyllwyd yn is-adran (1).*

*(7) Yn yr adran hon—*

*ystyr "person neu gorff cymhwysol" ("qualifying person or body") yw person neu gorff y mae ei swyddogaethau neu ei weithgareddau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd yn rhai sy'n golygu bod y person neu'r corff yn debygol o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer un o swyddogaethau'r Bwrdd;*

*ystyr "penodedig" ac "a bennir" ("specified") yw wedi ei bennu mewn cais a wneir o dan is-adran (1).*

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

***Rheoliad 4(5)***

*Wrth gynnal adolygiad ymarfer, rhaid i Fwrdd—*

*(a) gofyn i bob corff cynrychioliadol roi gwybodaeth yn ysgrifenedig i'r Bwrdd am ei ymwneud â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad.*

## Deddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004*

***Section 9*** *– Establishment and conduct of reviews*

*(1) In this section "domestic homicide review" means a review of the circumstances in which the death of a person aged 16 or over has, or appears to have, resulted from violence, abuse or neglect by—*

*(a) a person to whom he was related or with whom he was or had been in an intimate personal relationship, or*

*(b) a member of the same household as himself,*

*held with a view to identifying the lessons to be learnt from the death.*

*(2) The Secretary of State may in a particular case direct a specified person or body within subsection (4) to establish, or to participate in, a domestic homicide review.*

*(3) It is the duty of any person or body within subsection (4) establishing or participating in a domestic homicide review (whether or not held pursuant to a direction under subsection (2)) to have regard to any guidance issued by the Secretary of State as to the establishment and conduct of such reviews.*

*(3A) Any reference in subsection (2) or (3) to the Secretary of State shall, in relation to persons and bodies within subsection (4)(b), be construed as a reference to the Department of Justice in Northern Ireland.*

*(3B) A person or body within subsection (4)(a) that establishes a domestic homicide review (whether or not held pursuant to a direction under subsection (2)) must send a copy of any report setting out the conclusions of the review to the Domestic Abuse Commissioner.*

*(3C) The copy must be sent as soon as reasonably practicable after the report is completed.*

*(4) The persons and bodies within this subsection are—*

*(a) in relation to England and Wales—*

*chief officers of police for police areas in England and Wales;*

*local authorities;*

*local probation boards established under section 4 of the Criminal Justice and Court Services Act 2000 (c. 43);*

*NHS England;*

*integrated care boards established under section 14Z25 of the National Health Service Act 2006;*

*providers of probation services;*

*Local Health Boards established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006;*

*NHS trusts established under section 25 of the National Health Service Act 2006 or section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006;*

* Dyfyniad o ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg.

*(5) In subsection (4)(a) "local authority" means—*

*(a) in relation to England, the council of a district, county or London borough, the Common Council of the City of London and the Council of the Isles of Scilly;*

*(b) in relation to Wales, the council of a county or county borough.*

*(6) The Secretary of State may in relation to England and Wales by order amend subsection (4)(a) or (5).*

## Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol*

***Section 29 Information***

*(1) A review partner may request a person to provide information specified in the request to the review partner or another review partner.*

*(2) A review partner may make a request to a person under this section only if the conditions in subsections (3) and (4) are satisfied.*

*(3) The condition in this subsection is that the request is made for the purpose of enabling or assisting the performance of functions conferred on a review partner by sections 24 to 28.*

*(4) The condition in this subsection is that the request is made to a person whose functions or activities are considered by the review partner to be such that the person is likely to have information that would enable or assist the performance of functions conferred on a review partner by sections 24 to 28.*

*(5)The person to whom a request under this section is made must comply with the request.*

*(6)The review partner that made the request may enforce the duty under subsection (5) against the person by making an application to the High Court or the county court for an injunction.*

*(7) A review partner may provide information to another review partner for the purpose of enabling or assisting the performance of functions under sections 24 to 28.*

***Section 30 Information: Supplementary***

*(1) A person may not be required under section 29 to disclose information that the person could not be compelled to disclose in proceedings before the High Court.*

*(2) A disclosure of information required or authorised by sections 27 to 29 does not breach—*

*(a) any obligation of confidence owed by the person making the disclosure, or*

*(b) any other restriction on the disclosure of information (however imposed).*

*(3) But sections 27 to 29 do not require or authorise a disclosure of information that—*

*(a) would contravene the data protection legislation (but in determining whether a disclosure would do so, the duty imposed or power conferred by the section in question is to be taken into account), or*

*(b) is prohibited by any of Parts 1 to 7 or Chapter 1 of Part 9 of the Investigatory Powers Act 2016.*

*(4) Sections 27 to 29 do not affect any duty or power to disclose information apart from those sections.*

*(5) In this section "data protection legislation" has the same meaning as in the Data Protection Act 2018 (see section 3(9) of that Act).*

* Dyfyniad o ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg.

## Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998*

***Section 115 – Disclosure of information***

Any person who, apart from this subsection, would not have power to disclose information—

(a) to a relevant authority; or

(b) to a person acting on behalf of such an authority,

shall have power to do so in any case where the disclosure is necessary or expedient for the purposes of any provision of this Act.

(2) In this section "relevant authority" means—

(a) the chief officer of police for a police area in England and Wales;

(b) the chief constable of the Police Service of Scotland;

(c) a local policing body within the meaning given by section 101(1) of the Police Act 1996;

(d) a local authority, that is to say—

(i) in relation to England, a county council, a district council, a London borough council, a parish council or the Common Council of the City of London;

(ii) in relation to Wales, a county council, a county borough council or a community council;

(iii) in relation to Scotland, a council constituted under section 2 of the Local Government etc. (Scotland) Act 1994;

(dza) a non-profit registered provider of social housing;

(da) a person registered under section 1 of the Housing Act 1996 as a social landlord;

(e) a local probation board in England and Wales;

(eb) probation trust;

(ec) a provider of probation services (other than a probation trust or the Secretary of State), in carrying out its statutory functions or activities of a public nature in pursuance of arrangements made under section 3(2) of the Offender Management Act 2007;

(f) a Local Health Board;

(fa) NHS England;

(fb) an integrated care board;

(h) the London Fire Commissioner;

(i) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 or a scheme to which section 4 of that Act applies;

(ia) a fire and rescue authority created by an order under section 4A of that Act;

(j) a metropolitan county fire and rescue authority.

(3) The appropriate national authority may by order amend this section so far as it extends to England and Wales by—

(a) adding an entry for any person or body to the list of authorities in subsection (2),

(b) altering or repealing any entry for the time being included in the list, or

(c) adding, altering or repealing provisions for the interpretation of entries in the list.

(4) In subsection (3) "the appropriate national authority" has the same meaning as in section 5.

* Dyfyniad o ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg.

## Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003*

### *74 Power to require documents and information*

(1) The Assembly may at any time require any person specified in subsection (2) to provide it with any information, documents, records (including personal records) or other items—

(a) which relates or relate to—

(i) the provision of health care by or for a Welsh NHS body; or

(ii) the discharge of any of the functions of a Welsh NHS body; and

(b) which the Assembly considers it necessary or expedient to have for the purposes of this Chapter.

(2) The persons referred to in subsection (1) are—

(a) the Welsh NHS body;

(b) any person providing health care for, or exercising functions of, the Welsh NHS body;

(c) a local authority in Wales.

(3) The power in subsection (1) to require the provision of records includes, in relation to records kept by means of a computer, power to require the provision of the records in legible form.

(4) Any person who without reasonable excuse fails to comply with any requirement imposed by virtue of this section is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

### *75 Power to require explanation*

(1) The Assembly may by regulations make provision requiring prescribed persons to provide to the Assembly, or to persons authorised by it, an explanation of—

(a) any documents, records or items inspected, copied or provided under sections 72 to 74,

(b) any information provided under those sections, or

(c) any matters which are the subject of the exercise of any function of the Assembly under section 70, and

in circumstances where the Assembly considers the explanation necessary or expedient for the purposes of this Chapter.

(2) Regulations under subsection (1) may require explanations to be provided at such times and places as may be specified by the Assembly.

(3) Any person who without reasonable excuse fails to comply with any requirement imposed by virtue of this section is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

**Limitations to note:** The focus of a review under the 2003 Act is limited to the provision of health care by and for Welsh NHS bodies.

## Deddf Iechyd Meddwl 1983*

### *120C Provision of information*

(1) This section applies to the following persons–

(a) the managers of a hospital within the meaning of Part 2 of this Act;

(b) a local social services authority;

(c) persons of any other description prescribed in regulations.

* Dyfyniad o ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg.

(2) A person to whom this section applies must provide the regulatory authority with such information as the authority may reasonably request for or in connection with the exercise of its functions under section 120.

(3) A person to whom this section applies must provide a person authorised under section 120 with such information as the person so authorised may reasonably request for or in connection with the exercise of functions under arrangements made under that section.

(4) This section is in addition to the requirements of section 120(7)(c).

(5) "Information" includes documents and records.

(6) "Regulations" means regulations made–

(a) by the Secretary of State, in relation to England;

(b) by the Welsh Ministers, in relation to Wales.

**Limitations to note:** The scope of a review under the 1983 Act is limited to the exercise of powers and discharge of duties under the 1983 Act itself in respect of detention, guardianship and relevant patients (see Section 120(1) and 120 (2)).